Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM

# CPS De Cymru

## Adroddiad yr arolygiaeth ar CPS De Cymru

*Cynhaliwyd Ebrill 2010*

**Tachwedd 2010**



# Contents

**Rhagair y Prif Arolygydd** ... **1**

**Crynodeb gweithredol** ... **3**
Ffactorau cyd-destunol a chefndir ... 3
Crynodeb o'r canfyddiadau ... 3

**Argymhellion** ... **7**
Argymhellion â Blaenoriaeth ... 7
Argymhellion ... 8
Materion cydymffurfio ... 9
Cryfderau ac arfer da ... 9

**Cyd-destun arolygu** ... **11**
Ffactorau cyd-destunol a chefndir ... 11
Yr Arolygiad ... 11
Staffio'r Ardal a'r Llwyth Achosion ... 11

## Adran un: yr adroddiad arolygu ... 15

1 **Cyngor a phenderfyniadau cyn-cyhuddo** ... **15**
Amseroldeb ac ansawdd y broses o wneud penderfyniadau cyn-cyhuddo ... 15
Gwireddu buddiannau - cyfraddau pledio'n euog, dirwyn i ben ac athreuliad ... 17

2 **Gwneud penderfyniadau, paratoi a datblygu o ran achosion yn y llysoedd ynadon** ... **19**
Ansawdd ac amseroldeb y broses adolygu ... 19
Amseroldeb ac ansawdd wrth baratoi achosion ... 20
Treialon effeithiol, treialon aneffeithiol a threialon chwâl ... 21
Canlyniadau yn y llysoedd ynadon ... 22
Defnyddio Compass, sef system rheoli achosion (CMS) electronig ... 23

3 **Gwneud penderfyniadau, paratoi a datblygu o ran achosion yn Llys y Goron** ... **25**
Ansawdd ac amseroldeb y broses adolygu ... 25
Amseroldeb ac ansawdd wrth baratoi achosion ... 26
Treialon effeithiol, treialon aneffeithiol a threialon chwâl ... 28
Canlyniadau yn Llys y Goron ... 29
Adennill asedau (enillion o droseddau) ... 30
Defnyddio Compass, sef system rheoli achosion (CMS) electronig ... 30

4 **Erlyn achosion yn y llysoedd** ..... **33**
Ansawdd wrth gyflwyno achosion ..... 33
Datblygu achosion yn y llys ..... 34
Gwerth am arian wrth leoli erlynwyr ..... 36

5 **Troseddau treisgar a rhywiol difrifol a throseddau casineb** ..... **37**
Arbenigwyr ..... 37
Amseroldeb ac ansawdd wrth adolygu a pharatoi achosion ..... 37
Canlyniadau ar gyfer troseddau treisgar a rhywiol difrifol ..... 38
Canlyniadau ar gyfer troseddau casineb ..... 39

6 **Datgelu deunydd nas defnyddiwyd** ..... **41**
Ansawdd ac amseroldeb datgelu cychwynnol ..... 42
Ansawdd ac amseroldeb datgelu parhaus ..... 43
Deunydd sensitif a deunydd trydydd parti ..... 43
Cywirdeb cofnodion datgelu ..... 45
Rheoli'r broses datgelu ..... 45

7 **Terfynau amser cadwraeth** ..... **47**
Prosesau CTL yr Ardal - methu â chyflwyno ceisiadau CTL o fewn terfynau amser ..... 47
Paratoi achosion yn yr Ardal - methiannau o ran diwydrwydd a chyflymder dyladwy ..... 48

8 **Y gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion** ..... **49**
Unedau gofal tystion ..... 49
Mesurau arbennig ..... 50
Y gofal a'r driniaeth a gaiff dioddefwyr a thystion yn y llys ..... 50
Cyfathrebu uniongyrchol â dioddefwyr ..... 51

9 **Rheoli perfformiad er mwyn gwella** ..... **53**
Systemau a phrosesau rheoli perfformiad ..... 53
Rheoli perfformiad unigol ..... 54
Rheoli perfformiad ar y cyd ..... 54

10 **Rheoli adnoddau** ..... **55**
Gwariant yr Ardal yn erbyn y gyllideb a ddyrannwyd ..... 55
Defnyddio staff ..... 56
Rheoli salwch a gweithio hyblyg ..... 57

**11 Arwain a rheoli** **59**
Strwythurau, diben a chynllunio 59
Rheoli newid 60
Perchenogaeth a chorfforaetholdeb 60
Proffil yr Ardal ymysg partneriaid cyfiawnder troseddol 61
Moeseg, ymddygiad a gwerthoedd 62

**12 Gweithio mewn partneriaeth a hyder y gymuned** **63**
Cynllunio gwaith ymgysylltu â chymunedau 63
Adborth cymunedau 63
Trefniadaeth a darpariaeth 64

## Adran dau: atodiadau 65

**A Diben a gwerthoedd HMCPSI** **65**

**B Rhestr termau** **67**

**C Data o waith archwilio ffeiliau CPS De Cymru a chymariaethau â pherfformiad cenedlaethol** **70**

**D Fframwaith arolygu'r Ardal** **76**

**E Siart o'r sefydliad** **78**

**F Data perfformiad gwaith achos** **79**

**G Adnoddau a llwyth achosion** **80**

**H Cyfanswm nifer y ffeiliau a archwiliwyd ar gyfer CPS De Cymru** **81**

**I Cynrychiolwyr lleol o asiantaethau a sefydliadau cyfiawnder troseddol a fu o gymorth yn ystod ein harolygiad** **82**

# Rhagair y Prif Arolygydd

Mae'n siomedig bod perfformiad Ardal De Cymru wedi gwaethygu yn gyffredinol, ers Asesiad Perfformiad Cyffredinol 2007, i'r graddau y rhoddir gradd wael iddi mwyach.

Serch hynny, fe'm calonogwyd gan agwedd benderfynol y tîm rheoli newydd wrth fynd i'r afael â'r heriau a nodir yn yr adroddiad hwn. Yn bwysicaf oll, mae'n hanfodol bod perthynas effeithiol â'i phartneriaid cyfiawnder troseddol wrth wraidd y broses o wella yn yr Ardal. Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion â blaenoriaeth uchel a nodi camau pwysig sy'n canolbwyntio ar berfformiad yr Ardal o ran busnes craidd, darparu gwasanaethau ac effeithlonrwydd.

Dangoswyd yn yr arolygiad hwn bod angen i Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) De Cymru wella ei waith achos Llys y Goron a pharatoi achosion ar gyfer treial yn y llysoedd ynadon. Yn y cyd-destun hwn, mae angen i'r Ardal adolygu ei strwythur presennol i sicrhau bod ei phrosesau yn syml ac yn gyson ym mhob rhan o'r Ardal a bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i ddatblygu ei gwaith achos mwyaf difrifol yn effeithiol. Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion i fynd i'r afael ag ansawdd ac amseroldeb y broses o adolygu a pharatoi a datblygu achosion.

Bydd rheoli'r gyllideb yn parhau i fod yn her fawr ac mae pwysau ariannol wedi rhwystro mentrau a rhaglenni gweithredu yn yr Ardal, gan daflu rhai o'r amcanion a'r manteision allweddol i'r cysgod. Mae angen i'r Ardal ymgysylltu'n fwy effeithiol â'i staff i gyfleu ei blaenoriaethau mewn ffordd fwy eglur a thryloyw. Bydd hyn yn gwella cydlyniant a chorfforaetholdeb ac yn helpu staff ar bob lefel i weithio gyda'i gilydd i gyflawni amcanion. Mae'n bleser gennyf nodi y defnyddir mwy o erlynwyr cyswllt yn y llysoedd ynadon bellach; argymhellwn fod angen i'r Ardal fynd i'r afael â'r ffordd y mae'n cyfarwyddo ac yn defnyddio eiriolwyr y goron yn Llys y Goron er mwyn gwella effeithlonrwydd a sicrhau gwerth gwell am arian.

Yn gyffredinol, cyflawnwyd llawer o waith ar gyfer rai agweddau penodol, megis datgelu a therfynau amser cadwraeth, ond prin fo'r enghreifftiau o welliant cyson mewn perfformiad ac mae risg y bydd hyn yn parhau yn yr Ardal. Cafodd yr Ardal rywfaint o lwyddiant wrth wella ansawdd llythyrau dioddefwyr a'r gwasanaeth a ddarperir mewn achosion o drais rhywiol a thrais yn erbyn merched. Er mwyn symud ymlaen o'i sefyllfa bresennol, rhaid i'r Ardal sicrhau yr ategir ei blaenoriaethau a'i phrosesau gan ddulliau rheoli perfformiad cadarn ar bob lefel.

# Crynodeb gweithredol

## Ffactorau cyd-destunol a chefndir

Mae CPS De Cymru (yr Ardal) yn rhan o Grŵp Ardaloedd CPS Cymru, sydd hefyd yn cynnwys Gwent, Dyfed Powys a Gogledd Cymru. Hyrwyddir y strategaeth genedlaethol drwy strwythur y Grŵp hyd at lefel yr Ardal. Fel Cadeirydd y Grŵp, mae CCP yr Ardal yn gyfrifol am bennu blaenoriaethau'r Grŵp. Lleolir y Ganolfan Gweithrediadau Grŵp (GOC) yn swyddfa Caerdydd.

Mae'r Ardal yn gwasanaethu'r rhanbarthau a gwmpesir gan Heddlu De Cymru, sy'n cynnwys amrywiaeth o gymunedau gwledig a threfol. Mae ganddi swyddfeydd mewn tri lleoliad: Caerdydd (y brif swyddfa), Abertawe a Merthyr Tudful.

Ar adeg yr arolygiad ym mis Ebrill 2010, cyflogai yr Ardal gyfwerth â 198.4 o staff llawn amser. Gwelwyd lleihad bach yn y llwyth achosion cyffredinol o gymharu â 2008-09, sef 1,263 yn llai o achosion neu 2.8%. Fodd bynnag, nid yw'r gostyngiad hwn wedi'i rannu'n gyfartal ar draws yr ystod lawn o achosion, gan fod gwaith Llys y Goron yr Ardal wedi cynyddu 5.9% yn ystod yr un cyfnod. Mae niferoedd staff wedi lleihau 11.1% ers 2007, o 223.1 i 198.4, ond cafwyd rhywfaint o'r gostyngiad hwn yn sgîl ail-ddosbarthu swyddi'r Ardal i'r GOC ac Uned Gwaith Achos Cymhleth y grŵp.

Ers ein harolygiad diwethaf yn 2007, mae cyllideb yr Ardal wedi lleihau o £9.49 miliwn i £9.36 miliwn; cafodd yr Ardal £0.65 miliwn yn rhagor gan bencadlys y CPS ar ddiwedd 2009-10.

Cynhaliwyd yr arolygiad llawn diwethaf o CPS De Cymru ym mis Mai 2004. Ym mis Awst 2007, rhoddwyd gradd 'gweddol' i'r Ardal mewn asesiad perfformiad cyffredinol (OPA) a gynhaliwyd yn sgîl y risgiau cynyddol i berfformiad yr Ardal a ddaeth i'r amlwg ers yr OPA diwethaf.

Gwnaeth Prif Erlynydd y Goron (CCP) De Cymru ymddeol o'r CPS yn ystod yr arolygiad. Penodwyd CCP Gwent yn CCP dros dro ar gyfer De Cymru a Chadeirydd Grŵp Ardaloedd CPS Cymru.

## Crynodeb o'r canfyddiadau

Ers yr OPA yn 2007, mae CPS De Cymru wedi gwneud nifer o benderfyniadau strategol a gweithredol o blaid cyflwyno mentrau newid a rhoi polisïau ar waith. Yn ystod y cyfnod, amrywiol fu perfformiad yr Ardal ac er bod rhai tueddiadau cadarnhaol, nid yw eraill wedi datblygu yn y cyfeiriad cywir.

Mae Prif Erlynydd y Goron (CCP) a Rheolwr Busnes yr Ardal (ABM) wedi canolbwyntio ar weithredu mentrau cenedlaethol a lleol gyda llwyddiant cymysg. Mae cyfrifoldeb am strwythur y Grŵp wedi tarfu ar eu hamser. Effeithiodd amgylchiadau ar allu'r Ardal i gyflwyno proffil o arweinyddiaeth gadarn, weledol. Wrth i brosesau cyfathrebu mewnol ac allanol waethygu, cafwyd dirywiad mewn rhai cydberthnasau allweddol â phartneriaid a diffyg perchenogaeth a dealltwriaeth, ymysg staff, o weledigaeth, gwerthoedd a chyfeiriad yr Ardal.

Cafodd lleihad yn y llwyth achosion effaith ar gyllideb yr Ardal, a bu'n rhaid i'r ganolfan ddarparu rhagor o arian. Er i'r sefyllfa gael ei monitro'n barhaus ac er i'r Ardal gymryd camau llwyddiannus i leihau gwariant, gallai'r Ardal fod wedi gwneud mwy i atgyfnerthu ei chyllideb. Bydd gweithredu o fewn y gyllideb yn parhau i fod yn her fawr i'r Ardal a bydd angen iddi sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylweddol.

Ymgymerodd yr Ardal â chryn dipyn o weithgarwch i fynd i'r afael â gwendidau a nodwyd, gan gynhyrchu cynlluniau gwella ar gyfer sawl maes gwaith penodol. Cafwyd rhywfaint o lwyddiant yn sgîl y rhain, ond nid

ydynt hyd yma wedi arwain at welliant cyson, gan nad ydynt wedi'u cefnogi gan ddulliau rheoli perfformiad cadarn. Mae hefyd angen i'r Ardal ymgysylltu'n fwy effeithiol â'i staff a chyfleu ei blaenoriaethau yn gliriach.

Roedd ansawdd gwaith achos a gwneud penderfyniadau, ac amseroldeb datblygu achosion yn amrywiol iawn ac yn wael mewn rhai achosion. Roedd hyn yn amlwg iawn i bartneriaid cyfiawnder troseddol yr Ardal ac i arolygwyr, drwy archwilio ffeiliau a gwaith arsylwi yn y llys. Ar adeg yr arolygiad roedd y llysoedd wedi dechrau colli amynedd a phrin iawn oedd yr hyblygrwydd a roddwyd i'r erlyniad pan fyddai pethau'n mynd o chwith. O ganlyniad, nid yw achosion wedi bod yn datblygu fel y dylent ac mae cyfraddau athreuliad yn codi. Cafodd effaith wael ar enw da'r CPS. Mae'r tîm rheoli newydd yn gwneud llawer o waith erbyn hyn i fynd i'r afael â'r mater hwn yn benodol.

Nid yw'r Ardal yn cael budd digonol o'i phroses gwneud penderfyniadau cyn-cyhuddo mewn achosion troseddau cyffredin. Er bod safon wael rhai o'r ymchwiliadau a'r gwaith adeiladu achos yn effeithio ar yr agwedd hon ar y gwaith o'r dechrau, nid yw'r Ardal yn defnyddio dull gweithredu cyson er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn ar gam cynnar.

Nid yw adolygiadau gan gyfreithwyr ar gamau allweddol bob amser yn cydymffurfio â Chod Erlynwyr y Goron. Caiff cyfran sylweddol o achosion eu paratoi'n hwyr ac ni chânt eu datblygu'n ddigon cyflym, ac mae angen cymryd camau ar y cyd â'r heddlu i wella'r broses o ymdrin â datgelu. Mae gan yr Ardal ganran uchel o bledion euog a gaiff eu cyflwyno'n hwyr, o ganlyniad i'r ffaith y caiff achosion eu paratoi'n anghyflawn ac mae hyn yn cael effaith andwyol ar gyfraddau treialon gwirioneddol.

Gall safon wael y gwaith adolygu a'r gwaith achos, ynghyd â diffyg rhagweithioldeb, hefyd effeithio'n andwyol ar y gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr a thystion a thanseilio ymdrechion y swyddogion gofal tystion sy'n ceisio sicrhau y diwellir anghenion unigol. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae'r Ardal wedi ymdrechu i sicrhau lefel dda o wasanaeth i ddioddefwyr a thystion. Mae ansawdd y gwaith a gyflawnir mewn achosion treisgar a rhywiol difrifol yn well, ac mae'r Ardal yn cydweithio â phartïon cyfiawnder troseddol i gael mwy o effaith ar achosion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn merched.

Mae'n wir bod amseroldeb ac ansawdd y ffeiliau a gyflwynir gan yr heddlu yn effeithio ar berfformiad yr Ardal, ond mae rhai o'r prosesau mewnol yn aneffeithlon hefyd, gan greu achosion o ddyblygu ymdrech, ac mae angen ymdrin â'r rhain ar fyrder.

Mae erlynwyr yn cyflwyno achosion yn y llys yn gymwys ar y cyfan a cheir rhai enghreifftiau o eiriolaeth dda yn yr Ardal. Yn y llysoedd ynadon, cynyddodd yr Ardal ei defnydd o erlynwyr cyswllt yn sylweddol yn ystod 2009-10 ac mae'n dibynnu llai ar asiantau yn unol â hynny. Yn Llys y Goron, mae angen i'r Ardal ddefnyddio eiriolwyr y goron yn effeithiol, gan daro cydbwysedd rhwng gwerth am arian a sicrhau ansawdd wrth gyflwyno achosion. Mae angen i systemau dyrannu achosion a rotâu llysoedd sicrhau bod gan bob eiriolwr ddigon o amser i baratoi'n briodol ar gyfer y llys.

Mae terfynau amser cadwraeth (CTL) yn risg uchel i'r Ardal o hyd ac yn y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd annerbyniol yn nifer y methiannau a gofnodwyd. Mae'r Ardal eisoes wedi cymryd camau i wella perfformiad CTL. Mae angen parhau â'r camau hyn.

Mae natur ddarniog i rai prosesau yn sgîl strwythur tri rhanbarth yr Ardal, gyda systemau a dulliau gweithredu gwahanol ar waith ledled yr Ardal. Roedd y strwythur hwn wrthi'n cael ei newid ar adeg yr arolygiad. Mae uwch reolwyr wedi nodi'r prif wendidau ac maent yn ymwybodol o berfformiad unigol gwael. Ceir arwyddion bod yr Ardal nawr yn mynd i'r afael â'r agwedd hon drwy ddefnyddio dulliau rheoli perfformiad effeithiol, a gefnogir drwy'r gadwyn rheoli llinell.

Mae'r Ardal bellach mewn sefyllfa gryfach i symud ymlaen a cheir arwyddion bod partneriaethau allweddol yn gwella, a fydd yn sicrhau bod yr Ardal mewn sefyllfa well i gyflawni newid. Mae cynlluniau ar droed i ailstrwythuro a chysoni dulliau rheoli perfformiad yn unol â safonau ansawdd craidd cenedlaethol (CQS) y CPS.

O ystyried y canfyddiadau cyffredinol, rhoddir gradd **GWAEL** i CPS De Cymru.

**Crynodeb o'r dyfarniadau**

| **Agweddau critigol** | **OPA 2007** | **AEI 2010** | **Cyfeiriad teithio** |
|---|---|---|---|
| Cyngor a phenderfyniadau cyn-cyhuddo | Gwael | Gwael | Sefydlog |
| Gwneud penderfyniadau, paratoi a datblygu o ran achosion yn y llysoedd ynadon | Gweddol | Gwael | Wedi gwaethygu |
| Gwneud penderfyniadau, paratoi a datblygu o ran achosion yn Llys y Goron | Da | Gweddol | Wedi gwaethygu |
| Y gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion | Da | Da | Wedi gwella |
| Arwain a rheoli[1] | Gweddol | Gweddol | Sefydlog |
| **Lefel gyffredinol yr asesiad critigol** | **Gweddol** | **Gwael** | |
| Erlyn achosion yn y llysoedd | Da | Gweddol | Wedi gwaethygu |
| Troseddau treisgar a rhywiol difrifol a throseddau casineb | Da | Da | Sefydlog |
| Datgelu deunydd nas defnyddiwyd | Gwael | Gwael | Wedi gwella |
| Terfynau amser cadwraeth | Gweddol | Gwael | Wedi gwaethygu |
| Rheoli perfformiad er mwyn gwella | Gweddol | Gweddol | Sefydlog |
| Rheoli adnoddau | Da | Gweddol | Wedi gwaethygu |
| Gweithio mewn partneriaeth a hyder y gymuned[2] | Da | Da | Wedi gwella |
| **ASESIAD CYFFREDINOL** | **GWEDDOL** | **GWAEL** | |

1 Mae arwain a rheoli bellach yn cynnwys elfennau a gynhwyswyd yn flaenorol o fewn 'Cyflwyno Newid' sydd bellach wedi'i dynnu o'r fframwaith fel agwedd annibynnol.

2 Cafodd rhai agweddau ar yr adran hon eu cynnwys o'r blaen yn 'Rheoli Perfformiad er mwyn Gwella' ac ni ellir cymharu perfformiad ar sail tebyg am debyg yn llawn.

# Argymhellion

## Argymhellion â Blaenoriaeth

Ceir saith argymhelliad allweddol y mae'n rhaid eu gweithredu ymhen tri mis, sef:

**1** Mae angen i'r Ardal:

- sicrhau, wrth gyflwyno'r trefniadau cyhuddo wedi'u moderneiddio, bod pob adolygiad achos ar y cam gwneud penderfyniadau cyn-cyhuddo yn cydymffurfio â'r Cod;
- sicrhau mwy o gysondeb o ran ansawdd y cyngor cyhuddo a roddir;
- sicrhau y rhoddir trefniadau cadarn ar waith i fonitro ansawdd y gwaith a gyflawnir (paragraff 1.10).

**2** Dylid symleiddio a chysoni prosesau OBM ym mhob rhan o'r Ardal. Rhaid i'r Ardal sicrhau bod erlynwyr yn cwblhau adolygiadau o dreialon diannod yn gyflym (paragraff 2.11).

**3** Mae angen i'r Ardal gymryd camau gweithredol i leihau'r gyfradd traddodebau a ryddhawyd i sicrhau bod perfformiad cystal â'r cyfartaledd cenedlaethol, neu'n well na hynny (paragraff 3.9).

**4** Mae angen i'r Ardal:

- sicrhau y dyrennir adnoddau digonol i ddatblygu ei gwaith achos mwyaf difrifol yn effeithiol;
- sicrhau mwy o gysondeb o ran safon ei gwaith adolygu mewn achosion yn Llys y Goron;
- sicrhau y caiff erlynwyr ddigon o amser i gyflawni adolygiadau Llys y Goron yn effeithiol (paragraff 3.13).

**5** Mae angen i'r Ardal:

- sicrhau bod y gwaith o wneud penderfyniadau cyfreithiol ynghylch datgelu yn gadarn, wedi'i esbonio'n briodol ac wedi'i gofnodi;
- defnyddio'r adroddiadau ar ddatgelu a lunnir gan hyrwyddwr datgelu'r Ardal i reoli perfformiad unigol (paragraff 6.9).

**6** Mae angen i'r Ardal:

- gyfleu disgwyliadau clir o ran y safonau a ddisgwylir gan ei chyfreithwyr a sicrhau bod prosesau cadarn ar waith i fynd i'r afael â pherfformiad unigol;
- datblygu diwylliant lle mae rhoi a chael ac ymateb i adborth yn rhan o fusnes o ddydd i ddydd (paragraff 9.7).

**7** Mae angen i'r Ardal ymgysylltu'n fwy effeithiol â staff ym mhob rhan o'r Ardal er mwyn sicrhau ei bod:

- yn cyfleu negeseuon a blaenoriaethau allweddol yn glir ac yn dryloyw;
- yn mabwysiadu ethos cynhwysol er mwyn i'r holl staff deimlo eu bod yn cael cyfle i gyfrannu at y broses o newid (paragraff 11.6).

## Argymhellion

Ceir nifer o argymhellion eraill sy'n ymwneud â gwella a thynhau prosesau a systemau. Nid yw'r rhain yn flaenoriaethau uniongyrchol ond bydd angen eu gweithredu i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn yr Ardal. Byddem yn disgwyl i'r argymhellion eilaidd hyn gael eu gweithredu ymhen y 12 mis nesaf.

**1** Mae angen i'r Ardal sicrhau bod cyfarfodydd datblygu achosion ledled yr Ardal yn cydweithio i gynyddu'r gyfran o dreialon effeithiol, a lleihau nifer y treialon chwâl a'r rhai a ddirymwyd, er mwyn sicrhau bod perfformiad cystal â'r cyfartaledd cenedlaethol, neu'n well na hynny (paragraff 2.13).

**2** Mae angen i'r Ardal fynd i'r afael â'r ffordd y mae'n cyfarwyddo ac yn defnyddio eiriolwyr y goron a'u perthynas â chydweithwyr yn yr Ardal (paragraff 10.9).

**3** Mae angen i'r Ardal:

- gyflawni mwy o gysondeb o ran gwneud penderfyniadau mewn unrhyw achosion difrifol a sensitif;
- rhoi prosesau effeithiol ar waith i fonitro a rheoli perfformiad unigol (paragraff 5.13).

**4** Mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru, dylai'r Ardal ddatblygu a gweithredu rhaglen hyfforddiant datgelu ar y cyd i wella amseroldeb ac ansawdd rhestrau'r heddlu a phrosesau gwneud penderfyniadau cyfreithiol y CPS (paragraff 6.17).

**5** Mae angen i'r Ardal sicrhau y caiff achosion CTL eu monitro yn gadarn a bod archwiliadau CTL yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Mae angen i berfformiad wella i sicrhau ei fod cystal â'r cyfartaledd cenedlaethol, neu'n well na hynny (paragraff 7.12).

**6** Dylai'r Ardal sicrhau ar y cyd â'r heddlu y caiff perfformiad WCU ei fonitro, ei reoli a'i asesu yn unol â mesurau sylfaenol ac eilaidd NWNJ. Mae angen asesu rhaglenni gwella yn unol â dangosyddion NWNJ (paragraff 8.5).

**7** Dylid symleiddio cyfarfodydd a chael gwared ar achosion o ddyblygu i sicrhau na chaiff yr ysgogiad i sicrhau gwelliant ei wanhau (paragraff 9.4).

**8** Rhaid rheoli prosiect mewn modd cadarn, gan gynnal asesiadau risg realistig, nodi cerrig milltir y gellir eu cyflawni a monitro a chyfleu cynnydd (paragraff 11.8).

## Materion cydymffurfio

Gwnaethom hefyd nodi tri maes lle gellir sicrhau "enillion cyflym" o ran materion cydymffurfio. Dylid mynd i'r afael â rhain ymhen tri mis.

**1** Rhaid i reolwyr Ardal sicrhau bod erlynwyr yn cyflawni tasgau'n briodol ar CMS (paragraff 3.25).

**2** Rhaid i'r Ardal fynd ati'n gyflymach i fabwysiadu'r Protocol Trydydd Parti ar ddatgelu (paragraff 6.12).

**3** Rhaid i'r Ardal sicrhau bod ceisiadau am fesurau arbennig wedi'u drafftio'n briodol ac wedi'u hategu gan wybodaeth berthnasol, ac y cânt eu cyflwyno'n gyflym o fewn y terfynau amser penodedig (paragraff 5.8).

## Cryfderau ac arfer da

Gwnaethom nodi dau gryfder a dau arfer da o ran perfformiad yr Ardal.

### Cryfderau

**1** Y cyfarfodydd datblygu achosion a gynhelir ar y cyd gan ranbarth Abertawe (paragraff 11.13).

**2** Cydweithio â phartneriaid cyfiawnder troseddol i wella perfformiad mewn achosion o drais yn erbyn merched a thrais rhywiol (paragraff 5.10).

### Arfer da

**1** Yr adroddiadau a'r asesiadau datgelu a luniwyd gan hyrwyddwr datgelu'r Ardal (paragraff 6.16).

**2** Defnyddio paneli cymunedol i asesu ansawdd y llythyrau a ysgrifennwyd o dan y cynllun cyfathrebu uniongyrchol â dioddefwyr (DCV) (paragraff 8.12).

# Cyd-destun arolygu

## Ffactorau cyd-destunol a chefndir

Mae CPS De Cymru (yr Ardal) yn rhan o Grŵp Ardaloedd CPS Cymru, sydd hefyd yn cynnwys Gwent, Dyfed Powys a Gogledd Cymru. Hyrwyddir y strategaeth genedlaethol drwy strwythur y Grŵp hyd at lefel yr Ardal. Fel Cadeirydd y Grŵp, mae CCP yr Ardal yn gyfrifol am bennu blaenoriaethau'r Grŵp. Lleolir y Ganolfan Gweithrediadau Grŵp (GOC) yn swyddfa Caerdydd.

Mae'r Ardal yn gwasanaethu'r rhanbarthau a gwmpesir gan Heddlu De Cymru, sy'n cynnwys amrywiaeth o gymunedau gwledig a threfol. Mae ganddi swyddfeydd mewn tri lleoliad: Caerdydd (y brif swyddfa), Abertawe a Merthyr Tudful. Lleolir ysgrifenyddiaeth yr Ardal yn swyddfa Caerdydd.

## Yr Arolygiad

Cynhaliwyd yr arolygiad llawn diwethaf o CPS De Cymru ym mis Mai 2004. Ym mis Awst 2007, rhoddwyd gradd 'gweddol' i'r Ardal mewn asesiad perfformiad cyffredinol (OPA) a gynhaliwyd yn sgîl y risgiau cynyddol i berfformiad yr Ardal a ddaeth i'r amlwg ers yr OPA diwethaf.

Ymwelodd y tîm arolygu â'r Ardal rhwng 12 Ebrill 2010 a 23 Ebrill 2010. Yr arolygydd lleyg ar gyfer yr arolygiad hwn oedd Tony Summers. Wrth baratoi, cyflawnodd arolygwyr cyfreithiol archwiliad o 79 o achosion a gwblhawyd yn ddiweddar gan gynnwys ffeiliau achosion llysoedd ynadon a Llys y Goron.

Cyhoeddodd Prif Erlynydd y Goron (CCP) ar gyfer De Cymru ei ymddeoliad o'r CPS yn ystod yr arolygiad hwn. Penodwyd CCP Gwent yn CCP dros dro ar gyfer De Cymru a Chadeirydd Grŵp Ardaloedd CPS Cymru.

## Staffio'r Ardal a'r Llwyth Achosion

Ar adeg yr arolygiad ym mis Ebrill 2010, cyflogodd yr Ardal gyfwerth â 198.4 o staff llawn amser. Nodir y manylion staffio isod:

**Staffio'r Ardal**

| Gradd | Nifer |
|---|---|
| Prif Erlynydd y Goron | 1 |
| Lefel E | 3 |
| Lefel D | 9 |
| Eiriolwyr y Goron | 14.8 |
| Cyfreithwyr Lefel C (gan gynnwys hyfforddai cyfreithiol) | 47.2 |
| Erlynwyr cyswllt | 14.8 |
| Staff Lefel E | 1 |
| Staff Lefel D | 1 |
| Staff Lefel B | 43.6 |
| Staff Lefel A | 63 |
| **Cyfanswm** | **198.4** |

Ceir dadansoddiad manwl o'r staffio a'r strwythur yn Atodiad E.

Gwelwyd lleihad bach yn llwyth achosion cyffredinol yr Ardal o gymharu â 2008-09, sef gostyngiad o 1,263 o achosion neu 2.8%. Fodd bynnag, nid yw'r gostyngiad hwn wedi'i rannu'n gyfartal ar draws yr ystod lawn o achosion, gan fod gwaith Llys y Goron yr Ardal wedi cynyddu 5.9% o gymharu â 2008-09. Mae niferoedd staff wedi lleihau 11.1% ers OPA 2007, o 223.1 i 198.4, ond cafwyd rhywfaint o'r gostyngiad hwn yn sgîl ail-ddosbarthu swyddi'r Ardal i'r GOC a'r CCU.

Mae manylion llwyth achosion yr Ardal yn 2009-10 fel a ganlyn:

| Llwyth achosion yn 2009-10 | Niferoedd yr Ardal | % o gyfanswm llwyth achosion yr Ardal | % o gyfanswm y llwyth achosion cenedlaethol |
|---|---|---|---|
| Penderfyniadau cyn-cyhuddo | 15,562 | 35.7% | 32.3% |
| Cyngor | 0 | 0% | 0.01% |
| Crynodeb | 15,186 | 34.8% | 38.7% |
| Neillffordd a ditiadwy yn unig | 12,896 | 29.5% | 28.8% |
| Gweithrediadau eraill | 7 | 0.02% | 0.2% |
| **Cyfanswm** | **43,651** | **100%** | **100%** |

Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys yr achosion a nodir yn y tabl nesaf, gan fod pob achos Llys y Goron yn dechrau yn y llysoedd ynadon. Mewn 6,608 o 15,562 o benderfyniadau cyn-cyhuddo'r Ardal, penderfynwyd na ddylid erlyn. Ar y cyfan, roedd penderfyniadau i beidio ag erlyn yn cyfrif am 15.1% o lwyth achosion yr Ardal; roedd y gyfran hon yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, 2008-09, pan benderfynwyd peidio ag erlyn mewn 14.4% o gyfanswm llwyth achosion yr Ardal. Lle mae cyngor cyn-cyhuddo yn arwain at gychwyn gweithrediadau, caiff yr achos ei gyfrif hefyd o dan y categori perthnasol sef diannod neu neillffordd/ditiadwy yn niferoedd y llwyth achosion.

Mae manylion llwyth achosion Llys y Goron yr Ardal yn 2009-10 fel a ganlyn:

| Llwyth achosion Llys y Goron yn 2009-10 | Niferoedd yr Ardal | % o gyfanswm llwyth achosion yr Ardal | % o gyfanswm y llwyth achosion cenedlaethol |
|---|---|---|---|
| Ditiadwy yn unig | 1,222 | 26.5% | 28.4% |
| Troseddau neillffordd | 2,170 | 47.1% | 48.1% |
| Apeliadau yn erbyn collfarn neu ddedfryd | 348 | 7.6% | 10.0% |
| Traddodi i ddedfryd | 864 | 18.8% | 13.5% |
| **Cyfanswm** | **4,604** | **100%** | **100%** |

Mae 257 yn fwy o achosion yn llwyth achosion Llys y Goron yr Ardal ar gyfer 2009-10 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ceir tabl manylach o lwyth achosion a chanlyniadau achosion o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yn Atodiad Dd a cheir tabl o lwyth achosion mewn perthynas ag adnoddau'r Ardal yn Atodiad E. Ers ein harolygiad diwethaf yn 2007, mae cyllideb yr Ardal wedi gostwng o £9,494,000 i £9,364,000; cafodd yr Ardal £650,000 yn rhagor gan bencadlys y CPS ddiwedd 2009-10.

# Adran un: yr adroddiad arolygu

## 1 Cyngor a phenderfyniadau cyn-cyhuddo

| | |
|---|---|
| **OPA 2007** | **Gwael** |
| **AEI 2010** | **Gwael** |
| **Cyfeiriad teithio** | **Sefydlog** |

**1.1** Ar unrhyw adeg cyn dwyn cyhuddiad, gall yr heddlu ofyn am gyngor erlynydd i gynorthwyo ag ymchwiliad. Ers 2004, y CPS a fu'n gyfrifol am bennu'r cyhuddiadau mewn achosion mwy difrifol. Yn y ddwy enghraifft, mae angen i'r broses o wneud penderfyniadau cyn-cyhuddo fod yn amserol, yn effeithiol ac yn unol â Chod Erlynwyr y Goron (y Cod). Dylai'r ymchwilydd a'r erlynydd weithio gyda'i gilydd i lunio achosion cadarn, cost-effeithiol a fydd yn arwain at ganlyniad llwyddiannus; neu, dylai erlynwyr gynghori na ddylid gweithredu ymhellach (NFA) mewn achosion lle nad oes gobaith realistig o gollfarn, neu achosion lle nad oes angen erlyn er budd y cyhoedd.

**1.2** Asesir perfformiad yn ôl ansawdd ac amseroldeb y broses o wneud penderfyniadau cyn-cyhuddo (PCD), yn ogystal â'r cyfraddau pledio'n euog, dirwyn i ben ac athreuliad mewn achosion yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron.

### Amseroldeb ac ansawdd y broses o wneud penderfyniadau cyn-cyhuddo

**1.3** Gwnaethom archwilio 70 o achosion PCD yr Ardal, gan ystyried amseroldeb a ph'un a oedd penderfyniadau yn cydymffurfio â'r Cod ai peidio, a wnaed y penderfyniadau yn gywir ai peidio, a ystyriwyd materion atodol perthnasol yn briodol ai peidio, ac a oedd cynlluniau gweithredu'n cael eu defnyddio'n effeithiol.

**1.4** Mae angen ymdrin ag achosion PCD yn gyflym, er mwyn prosesu unigolion a ddrwgdybir sydd ar fechnïaeth mewn dull effeithlon a sicrhau na fydd yn rhaid i ddioddefwyr na thystion aros yn rhy hir i'r CPS wneud penderfyniad terfynol. Ni fu'r dulliau rheoli mechnïaeth mor effeithiol ag y dylent fod wedi bod yn ystod 2009-10, gan olygu bod unigolion a ddrwgdybir yn treulio mwy o amser ar fechnïaeth yr heddlu. Yn yr achosion PCD hynny yn ein sampl ffeiliau lle rhoddwyd mechnïaeth cafwyd oedi ar y cam cyhuddo a'r ymddangosiad cyntaf. Yn fwy diweddar, fodd bynnag, aeth yr Ardal ati'n rhagweithiol i ymdrin â materion rheoli mechnïaeth gan lwyddo i wella perfformiad yn sylweddol.


**1.5** Cafwyd oedi yn yr Ardal wrth i ôl-groniadau o achosion ddatblygu ar adegau pan nad oedd digon o erlynwyr ar gael i wneud penderfyniadau cyhuddo. Felly, roedd yn rhaid i'r Ardal ofyn i'w chyfreithwyr ohirio tasgau eraill er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniadau. Cafodd hyn effaith uniongyrchol ar allu'r Ardal i gyflawni tasgau o ran paratoi achosion a chyflenwi erlynwyr mewnol ar gyfer y llysoedd, a bu'n rhaid iddi wario mwy ar asiantau allanol.

**1.6** Ar adeg yr arolygiad, roedd yr Ardal wrthi'n cyflwyno rhaglen genedlaethol y CPS i foderneiddio'r broses gyhuddo, sydd â'r bwriad o wella amseroldeb y gwaith o roi cyngor a gwneud penderfyniadau mewn achosion troseddu cyffredin, drwy ddefnyddio dull 'canolfan alwadau' i ddarparu cyngor PCD, yn debyg i CPS Direct. Dim ond ar gyfer achosion mwy cymhleth yr Ardal y bydd trefniadau wyneb yn wyneb ar gael. Rhoddwyd y broses newydd ar waith yn fuan ar ôl yr arolygiad. Cynlluniwyd y cynllun newydd i wella'r trefniadau o ran rhoi cyngor i'r heddlu, ond bydd angen gwella ansawdd y gwaith o roi cyngor a gwneud penderfyniadau o hyd.

**1.7** Nid yw erlynwyr yr Ardal yn cymhwyso'r Cod yn gyson wrth wneud penderfyniadau cyhuddo ac mae angen sicrhau gwelliannau o ran cymhwyso'r prawf trothwy a phrawf llawn y Cod. Nid yw cyhuddiadau'n adlewyrchu'r troseddau'n llawn bob amser ac mewn 17% o'r achosion a archwiliwyd, ni ddewiswyd y cyhuddiad mwyaf priodol. Tueddai'r cyhuddiadau mewn achosion o ymosod, yn arbennig, i fod yn annigonol.

**1.8** Ar y cyfan, mae ansawdd y cofnod ysgrifenedig o wneud penderfyniadau yn amrywio, ac mewn enghreifftiau gwael ni roddir digon o sylw i anghenion dioddefwyr neu dystion. Ymdriniwyd â materion atodol yn ddigonol mewn llai na thraean o achosion. Os na nodir materion sy'n ymwneud â dioddefwyr a thystion ar y dechrau, mae'n effeithio ar amseroldeb ceisiadau dilynol am fesurau arbennig, a gall effeithio'n andwyol ar y cyfleusterau sydd ar gael i'r tyst yn y llys.

**1.9** Mae angen i erlynwyr fanteisio mwy ar gynlluniau gweithredu PCD, a dylid gwella'r gwaith monitro i sicrhau bod ymchwilwyr yn eu cwblhau'n brydlon. Byddai hyn yn golygu bod llai o achosion yn cael eu paratoi'n hwyr a byddai'n lleddfu'r baich gweinyddol ar staff CPS sy'n mynd ar drywydd camau heb eu gweithredu. Dylai'r cyngor cyhuddo fod o safon gyson, wedi'i gyflwyno mewn modd clir i sicrhau bod ymchwilwyr yn gwybod beth yn union sy'n ofynnol. Cafwyd achosion PCD â mwy nag un erlynydd lle cafwyd safbwyntiau croes, sy'n rhwystredig i'r heddlu ac yn wastraff o'u hamser. Yn ogystal â hynny, nid oedd pob penderfyniad i ohirio cyhuddiad wrth ddisgwyl tystiolaeth bellach yn gywir, gan arwain at fwy o oedi ac ail-fechnïo diffynyddion yn ddiangen.




**1.10** O gymharu â throseddau cyffredin yr Ardal, darperir cyngor cyn-cyhuddo gan erlynwyr profiadol mewn achosion difrifol a chymhleth ac mae ansawdd y gwaith o wneud penderfyniadau yn yr achosion hyn yn well, gan adlewyrchu'r safon uwch o waith ymchwilio a pharatoi achosion. Fodd bynnag, mae angen mwy o barhad i sicrhau mai'r un cyfreithiwr sy'n rhoi'r cyngor ymchwiliol cynnar ac yna'n gwneud y penderfyniad cyhuddo terfynol. Mae'r Ardal yn creu tîm trais a throseddau rhywiol difrifol (RASSO) yng Nghaerdydd i gynnig gwasanaeth pwrpasol, parhaus i ddioddefwyr ac ymchwilwyr.

| Gwireddu buddiannau<br>Perfformiad | 2008-09<br>Ardal | Cenedlaethol | 2009-10<br>Ardal | Cenedlaethol |
|---|---|---|---|---|
| **Achosion yn y llysoedd ynadon** | | | | |
| Dirwyn i ben | 15.1% | 13.1% | 15.4% | 14.5% |
| Ple euog | 72.6% | 74.4% | 71.5% | 72.3% |
| Athreuliad | 20.6% | 19.2% | 22.0% | 21.0% |
| **Achosion yn Llys y Goron** | | | | |
| Dirwyn i ben | 10.7% | 11.7% | 11.4% | 11.7% |
| Ple euog | 75.7% | 72.9% | 76.5% | 73.1% |
| Athreuliad | 18.7% | 19.4% | 19.1% | 19.5% |

### Argymhelliad â Blaenoriaeth


Mae angen i'r Ardal:

- sicrhau, wrth gyflwyno'r trefniadau cyhuddo wedi'u moderneiddio, bod adolygiadau achos ar y cam gwneud penderfyniadau cyn-cyhuddo yn cydymffurfio â'r Cod;
- sicrhau mwy o gysondeb o ran ansawdd y cyngor cyhuddo a roddir;
- sicrhau y rhoddir trefniadau cadarn ar waith i fonitro ansawdd y gwaith a gyflawnir.

## Gwireddu buddiannau - cyfraddau pledio'n euog, dirwyn i ben ac athreuliad

**1.11** Ar y cyfan, mae canlyniadau achosion PCD yr Ardal yn gymysg. Mewn achosion yn y llysoedd ynadon, roedd cyfraddau pledio'n euog, dirwyn i ben ac athreuliad ar gyfer y flwyddyn 2009-10 yn waeth na'r perfformiad cenedlaethol ac wedi gwaethygu ers y flwyddyn flaenorol. Mewn Achosion yn Llys y Goron, perfformiodd yr Ardal yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob un o'r tri chategori, ond nid oedd ei pherfformiad yn 2009-10 gystal â'r flwyddyn flaenorol.

**1.12** Mae'r Ardal wedi'i chael hi'n anodd gwireddu buddiannau cyhuddo ers i'r broses gael ei chyflwyno ac wedi dechrau sawl adolygiad a mabwysiadu sawl mesur a gynlluniwyd i wella darpariaeth PCD. Mae problemau yn gysylltiedig â gweithredu'r system gyhuddo yn unol â Chanllawiau'r Cyfarwyddwr ar y Broses Symlach (DGSP) ar y cam cyhuddo. Barn y partneriaid cyfiawnder troseddol yw y caiff yr Ardal yn aml ei gwasanaethau'n wael gan yr heddlu o ran safon y gwaith ymchwilio a llunio achosion, ond nid yw'r CPS wedi mynd i'r afael â'r sefyllfa hon mewn dull rhagweithiol. Mae canfyddiadau ein harchwiliad o ffeiliau yn ategu'r farn honno.




**1.13** Mae ymdrechion diweddar gan y CPS a'r heddlu i roi hwb i gyfundrefn rheoli perfformiad tîm yr erlyniad (PTPM) yn dangos parodrwydd ac ymrwymiad i fynd i'r afael â rhwystrau a gwella perfformiad ar y cyd. Cymerwyd camau gweithredu ar lefel y Grŵp gyda chydweithrediad a chefnogaeth ACPO Cymru. Bydd angen i'r ddwy ochr barhau i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn para a bod y cyfarfodydd PTPM yn sicrhau gwelliant cyson.

# 2 Gwneud penderfyniadau, paratoi a datblygu o ran achosion yn y llysoedd ynadon

| | |
|---|---|
| **OPA 2007** | **Gwael** |
| **AEI 2010** | **Gwael** |
| **Cyfeiriad teithio** | **Sefydlog** |


**2.1** Cyflwynir achosion cyffredin a rhai syml yn y llysoedd ynadon fel arfer. Bydd y rhan fwyaf o ddifinyddion yn pledio'n euog, ac ymdrinnir â hwy yn unol â Chanllawiau'r Cyfarwyddwr ar y Broses Symlach[3] (DGSP), gan ddefnyddio ffeil syml a baratowyd gan yr heddlu, sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol a chrynodeb o'r achos. Mae angen mwy o waith paratoi ar gyfer achosion a ddygir i dreial. Ar ôl iddynt gael eu hysbysu, bydd yr heddlu'n paratoi ac yn cyflwyno ffeil wedi'i huwchraddio sy'n cynnwys y dystiolaeth a'r wybodaeth ofynnol ar gyfer treial diannod yn llawn. Yna bydd y CPS yn adolygu'r dystiolaeth a'r dogfennau a roddwyd, cyn cyflwyno'r deunydd sydd ei angen ar gyfer treial teg yn ffurfiol i'r amddiffyniad a'r llys. Defnyddir system rheoli achosion (CMS) electronig bwrpasol i gofnodi a phrosesu'r gwaith achos.

**2.2** Asesir perfformiad yn ôl ansawdd ac amseroldeb y broses o adolygu a pharatoi achosion, y gyfran o achosion a restrir ar gyfer treial sy'n mynd rhagddynt yn brydlon, a chanlyniad yr achosion yn y pen draw. Yn ogystal â hynny, mae'r Ardal yn cofnodi'r achosion a ddylai fod wedi datblygu i Lys y Goron, ond nad oeddent yn barod i fynd rhagddynt ac felly a ryddhawyd gan yr ynadon adeg traddodi.

3 Canllawiau sy'n berthnasol i achosion y gall yr heddlu ddwyn cyhuddiadau yn eu cylch, heb gyfeirio at erlynydd y goron ac ar gyfer dull gweithredu cymesur, fesul cam o baratoi achosion y mae'n rhaid eu cyfeirio at erlynydd i gael penderfyniad cyhuddo.

## Ansawdd ac amseroldeb y broses adolygu

**2.3** Gwnaethom archwilio 37 o achosion yn y llysoedd ynadon a gweld bod y gwaith o wneud penderfyniadau yn cydymffurfio â'r Cod mewn 87.5% o'r achosion. Mae'r ffigur hwn yn ddigon isel i beri pryder a dylid ymdrin â hyn ar fyrder. Mae cyfreithwyr yn tueddu i ddibynnu'n helaeth ar benderfyniadau cyhuddo, nad ydynt bob amser yn cydymffurfio â'r Cod, ac yn aml ni fyddant wedi'u llunio'n ddigonol mewn modd cyfwerth ag adolygiad llawn o'r dystiolaeth fel sy'n briodol wrth baratoi achos ar gyfer treial yn y dull cywir. Mae angen gwelliannau o ran trefnu ac atgyfnerthu'r achosion erlyn hynny sy'n mynd rhagddynt i dreial.





**2.4** Yn y rhan fwyaf o'r achosion yn y sampl ffeiliau, llwyddodd erlynwyr i wneud cynnydd yn y gwrandawiad cyntaf; ond, mewn lleiafrif arwyddocaol, gellid bod wedi gwneud mwy i gydymffurfio â gofynion cyfiawnder troseddol: syml, cyflym, diannod (CJSSS). Mewn tua dwy ran o dair o'r achosion, ac eithrio treialon aneffeithiol, nad aethant rhagddynt yn gyflym, nid oedd y gohiriad diangen yn briodoladwy i'r erlyniad. Fodd bynnag, gellid bod wedi osgoi'r

rhan fwyaf o'r traean sy'n weddill pe bai'r erlyniad wedi gweithredu yn gynharach.

## Amseroldeb ac ansawdd wrth baratoi achosion

**2.5** Dylai'r CPS baratoi ei achosion yn brydlon, gan sicrhau y gellir cynnal gwrandawiadau traddodi a threialon diannod ar y dyddiad penodedig. Effeithiwyd ar baratoi achosion yn llysoedd ynadon yr Ardal yn sgîl rhoi mwy o flaenoriaeth i'r gwaith o ddwyn cyhuddiadau a'r angen i fod yn y llys a rhywfaint o aneffeithlonrwydd yn y prosesau.


**2.6** Mae cyfradd y traddodebau a ryddhawyd yn yr Ardal yn destun pryder ac mae wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i fwy na ddwywaith y gyfradd genedlaethol. Achosion difrifol yw'r rhain ar y cyfan, y dylent fod wedi mynd ymlaen i Lys y Goron. Wedi rhyddhau'r achos, mae'n debygol na chaiff ei adfer mewn da bryd, os o gwbl, ac mae hyn hefyd yn destun pryder.




**2.7** Cynhelir adolygiadau o dreialon yn rhy agos at ddyddiadau gwrandawiadau fel na ellir cyflawni unrhyw waith adferol i atgyfnerthu'r achos. O ganlyniad, gohirir penderfyniadau allweddol ac fe'u cyflëir yn rhy hwyr i'r amddiffyniad a'r llys allu eu hystyried yn ddigonol. Ni chaiff rhai achosion, megis achosion datgelu, eu cwblhau tan ddiwrnod y treial, ac mae canran yr achosion Ardal aneffeithiol o ganlyniad i broblemau datgelu'r erlyniad bellach dros ddwywaith a hanner y gyfradd genedlaethol.

**2.8** Ceir amrywiadau mawr o ran amseroldeb ac ansawdd ymchwiliadau'r heddlu a'r gwaith o baratoi ffeiliau, yn arbennig o ran ffeiliau "wedi'u huwchraddio" ar gyfer treialon traddodi a diannod. Nid yw agwedd or-obeithiol yr heddlu o ddisgwyl pledion euog cynnar o dan drefniadau DGSP yn gwella'r sefyllfa hon, ac mae staff y CPS yn treulio amser diangen yn mynd ar drywydd tystiolaeth a gwybodaeth sydd heb eu cyflwyno, ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ychwanegu gwerth wrth ddatblygu achosion. Mae'r Ardal wedi ail-gyflwyno system ar bapur i fonitro amseroldeb ac ansawdd ffeiliau wedi'u huwchraddio yr heddlu, ond nid yw hyn wedi sicrhau'r gwelliant gofynnol.

**2.9** Nid yw Canllawiau'r Cyfarwyddwr ar y Broses Symlach (DGSP) yn gweithredu'n effeithiol ledled Cymru a Lloegr eto, a dosbarthwyd canllawiau yn ddiweddar a oedd yn ymdrin â chydymffurfio. Mae'r twf mewn pledion euog hwyr yn nodi bod angen i'r Ardal wella'r gwaith o baratoi achosion ar gyfer y gwrandawiad cyntaf. Mewn un rhanbarth, mae'r heddlu wedi dewis anfon heddwas i'r llys ar y diwrnod er mwyn datrys problemau.




**2.10** Mae'r Ardal wedi rhoi'r model busnes gorau (OBM) cenedlaethol ar waith gan ddefnyddio tîm datblygu achosion erlyniad (PCPT) i ddatblygu ei hachosion treial diannod. Fodd bynnag, gan nad oes digon o gyfreithwyr yn rhan o'r PCPT, mae'r Ardal yn ei chael hi'n anodd paratoi ei hachosion treialon diannod yn effeithiol. O ganlyniad, ceir ôl-groniadau rheolaidd y mae'n rhaid rhoi trefn arnynt yn y pen draw. Caiff cynhyrchiant cyfreithwyr ar y PCPT ei fonitro drwy system gofnodi ar bapur, ond mae manylder y wybodaeth a gofnodir yn amrywio ac ni chaiff y wybodaeth ei defnyddio i fynd i'r afael â materion perfformiad. Ceir problem benodol yng Nghaerdydd, lle mae rota'r erlynwyr yn gwrthdaro â gwaith PCPT y rheini a ddyrannwyd i waith y tîm. Mae angen mynd i'r afael â hyn.

**2.11** Byddai'n fuddiol pe cynhelid adolygiad cyffredinol o systemau OBM yr Ardal. Mewn rhai lleoliadau maent yn gadarn yn y bôn, ond nid yw prosesau pob dosbarth yn gyson ac mae angen gweithio i sicrhau bod staff yn deall eu rôl yn glir ym mhob rhan o'r Ardal. Mae angen cymryd camau i gyfleu arfer gorau'r Ardal ym mhob dosbarth. Mae'r tabl yn dangos amseroldeb ac ansawdd gwael y gwaith o baratoi achosion.

**Argymhelliad â Blaenoriaeth**

Dylid symleiddio a chysoni prosesau OBM ym mhob rhan o'r Ardal. Rhaid i'r Ardal sicrhau bod erlynwyr yn cwblhau adolygiadau o dreialon diannod yn gyflym.

**2.12** Gan fod problemau yn codi mor aml wrth ddatblygu achosion, roedd yn amlwg i'r arolygwyr bod partneriaid cyfiawnder troseddol yr Ardal bellach yn llai tebygol o ystyried rhinweddau perthnasol ceisiadau'r erlyniad am ragor o amser paratoi, a'u bod wedi colli amynedd, gan olygu na roddwyd llawer o hyblygrwydd i'r erlyniad pan nad oedd achosion yn rhedeg yn esmwyth.

## Treialon effeithiol, treialon aneffeithiol a threialon chwâl

**2.13** Rhennir y targed i leihau treialon aneffeithiol ag asiantaethau partner ac mae llysoedd ynadon yn talu sylw arbennig i'r ffactorau sy'n rhwystro achosion rhag datblygu'n brydlon. Mae'r Ardal yn llai tebygol o gael treial aneffeithiol na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae perfformiad wedi gwella o gymharu â 2008-09. Mae cyfradd treialon effeithiol yr Ardal wedi gwella ers y llynedd, ond mae cyfradd 2009-10 yn waeth na chyfradd 2007 ac yn waeth hefyd na'r perfformiad cenedlaethol cyfartalog ar gyfer 2009-10. Mae angen cynyddol i ddirymu treialon ac mae'r gyfradd treialon chwâl yn mynd i'r cyfeiriad anghywir. Yn gyffredinol, mae angen i'r Ardal gymryd camau i wella amseroldeb wrth baratoi achosion.

| Cyfraddau treial<br>Perfformiad | OPA 2007 Ardal | 2009-10 Ardal | Cenedlaethol |
|---|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 44.0% | 40.4% | 43.7% |
| Cyfradd treialon chwâl | 42.5% | 46.3% | 37.7% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 13.5% | 13.3% | 18.6% |
| Cyfradd treialon a ddirymwyd | 22.5% | 27.9% | 21.9% |

| Canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon<br>Perfformiad | OPA yr Ardal 2007 | Cenedlaethol 2008-09 | Ardal 2008-09 | Cenedlaethol 2009-10 | Ardal 2009-10 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd gollfarnu gyffredinol | 81.4% | 87.3% | 84.6% | 86.8% | 85.3% |

**Argymhelliad**

Mae angen i'r Ardal sicrhau bod cyfarfodydd datblygu achosion ledled yr Ardal yn cydweithio i gynyddu'r gyfran o dreialon effeithiol, a lleihau nifer y treialon chwâl a'r rhai a ddirymir, er mwyn sicrhau bod perfformiad cystal â'r cyfartaledd cenedlaethol, neu'n well na hynny.

## Canlyniadau yn y llysoedd ynadon

**2.14** Fel cyfran o'i llwyth achosion, mae'r Ardal yn sicrhau llai o gollfarnau mewn achosion yn y llysoedd ynadon, ac yn dirwyn canran uwch ohonynt i ben, na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, yn y ddwy enghraifft, mae perfformiad yr Ardal yn 2009-10 wedi gwella ychydig ers y flwyddyn flaenorol.

**2.15** Gwnaethom archwilio 18 o achosion â chanlyniadau anffafriol; roedd yr Ardal wedi dirwyn 11 ohonynt i ben. Mewn dau achos, ni fu unrhyw newid perthnasol o ran cryfder y dystiolaeth na budd y cyhoedd o'r achos. Ym mron hanner yr achosion, gellid bod wedi gweld y canlyniad yn rhesymol ar y cam cyhuddo a gwaned y penderfyniad i beidio â mynd â'r achos yn ei flaen yn hwyrach nag y dylai fod wedi cael ei wneud. Yn sicr, ceir enghreifftiau o'r amddiffyniad yn aros i weld a fydd tystion yr erlyniad yn bresennol yn y llys, ond mae diwylliant o wneud penderfyniadau hwyr yn yr Ardal; cafodd pedwar o'r achosion yn y sampl ffeiliau eu dirwyn i ben ar ddiwrnod y trial neu ychydig cyn hynny.

**2.16** Nid yw'r Ardal yn cwblhau adroddiadau ar ganlyniadau anffafriol ar gyfer achosion priodol fel mater o drefn, sy'n golygu nad yw'n cymryd cyfleoedd i ddysgu gwersi a'u cyfleu'n effeithiol er mwyn hybu gwelliant.

| Canlyniadau aflwyddiannus yn y llysoedd ynadon<br>Perfformiad | OPA yr Ardal 2007 | Cenedlaethol 2008-09 | Ardal 2008-09 | Cenedlaethol 2009-10 | Ardal 2009-10 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dirwyn i ben a rhwymo | 12.6% | 8.7% | 10.9% | 9.0% | 10.3% |
| Dim achos i'w ateb | 0.1% | 0.2% | 0.1% | 0.2% | 0.1% |
| Gwrthodwyd ar ôl treial | 1.4% | 2.0% | 1.6% | 2.3% | 1.8% |
| Traddodebau a ryddhawyd | 0.3% | 0.2% | 0.4% | 0.3% | 0.7% |
| Gwarantau | 4.2% | 1.6% | 2.5% | 1.4% | 1.8% |

## Defnyddio Compass, sef system rheoli achosion (CMS) electronig

**2.17** Roedd y defnydd o CMS yn weddol ar y cyfan, ond cafwyd rhai gwendidau arwyddocaol, yn arbennig lle methwyd â chofnodi canlyniadau'n gywir. Yn ôl ein harchwiliad o ffeiliau, roedd y wybodaeth gwblhau yn anghywir mewn mwy na chwarter yr achosion, gan roi darlun camarweiniol o sut y cafodd yr achos ei gwblhau yn y pen draw. Yn ogystal â hynny, ceir agwedd negyddol yn y bôn at ddefnyddio CMS ymysg y cyfreithwyr ac nid yw rheolwyr wedi llwyddo i oresgyn hyn yn llwyddiannus. Mae hyn yn rhoi rhagor o faich ar staff gweinyddol ac yn effeithio ar eu gallu i ychwanegu gwerth i achosion, am fod yn rhaid iddynt dreulio eu hamser yn trosglwyddo adolygiadau a gwybodaeth mewn llawysgrifen i'r system.

# 3 Gwneud penderfyniadau, paratoi a datblygu o ran achosion yn Llys y Goron


| OPA 2007 | Da |
|---|---|
| AEI 2010 | Gweddol |
| Cyfeiriad teithio | Wedi gwaethygu |

**3.1** Ymdrinnir ag achosion difrifol a chymhleth yn Llys y Goron fel arfer. Mae'r gwaith achos ac eirioli yn fwy heriol, ac mae'r gost berthnasol yn uwch fesul achos na chost erlyniadau a gyflwynir yn y llys ynadon. Caiff achosion eu paratoi gan dimau sy'n cynnwys cyfuniad o gyfreithwyr, gweithwyr achos a gweinyddwyr. Ar ôl iddynt gael eu hysbysu, bydd yr heddlu'n paratoi ac yn cyflwyno ffeil wedi'i huwchraddio sy'n cynnwys yr holl dystiolaeth a gwybodaeth ofynnol ar gyfer achosion yn Llys y Goron. Bydd y CPS yn adolygu'r dystiolaeth a'r deunydd a ddarparwyd ac yn llunio pecyn ar gyfer yr erlyniad a gaiff ei gyflwyno wedyn i'r holl bartïon sy'n gysylltiedig â'r achos. Defnyddir y system rheoli achosion (CMS) i gofnodi a phrosesu'r gwaith achos.

**3.2** Asesir perfformiad yn ôl ansawdd ac amseroldeb y broses o adolygu a pharatoi achosion, y gyfran o achosion a restrir ar gyfer treial sy'n mynd rhagddynt yn brydlon, a chanlyniad yr achosion yn y pen draw. Mae'r Ardal hefyd wedi pennu targedau o ran cynorthwyo â'r gwaith o adennill asedau troseddol. Mae nifer o ddangosyddion allweddol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o hyd, ond ar y cyfan mae perfformiad yr Ardal yn Llys y Goron wedi gwaethygu yn gyffredinol yn 2009-10 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## Ansawdd ac amseroldeb y broses adolygu

**3.3** Gwnaethom archwilio 42 o achosion yr Ardal yn Llys y Goron[4] a chanfod bod prawf llawn y Cod wedi'i gymhwyso'n anghywir ar y cam cyhuddo mewn 10% ohonynt; mae'r ffigur hwn yn ddigon uchel i beri pryder a dylid ymdrin â hyn ar fyrder. Ar y cyfan, roedd ansawdd y gwaith o wneud penderfyniadau ond ychydig yn well na'r hyn ydoedd yn y llys ynadon ac mae angen sicrhau gwelliannau tebyg wrth ddarparu cyngor cyn-cyhuddo fel y nodwyd eisoes mewn penodau blaenorol.




**3.4** Mae angen gwella ansawdd y broses adolygu yn Llys y Goron. Mae cyfreithwyr yn dibynnu gormod ar y penderfyniad cyhuddo ac mae angen iddynt ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r ffordd y dylid trefnu tystiolaeth a chyflwyno achos yr erlyniad yn Llys y Goron. Rhaid gwneud penderfyniadau realistig o ran sut y dylid bwrw ymlaen â'r achos a chymryd camau i drefnu ac atgyfnerthu'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer y llys. Byddai'n fuddiol pe bai eiriolwyr y goron (CAs) yn rhoi adborth ffurfiol. Ar hyn o

4 Nodir ein canfyddiadau allweddol yn y tabl yn Atodiad C.

bryd, nid yw system CA yr Ardal yn rhan o dîm yr erlyniad ac ystyrir eu bod yn chwarae rôl arbenigol ac ar wahân. Felly mae'r Ardal yn colli cyfle i ymestyn sail wybodaeth ei chyfreithwyr a gwella safon gyffredinol y broses o adolygu a llunio achosion.

**3.5** Ar gyfartaledd, mae'n cymryd mwy o amser i gwblhau achosion yn Llys y Goron na rhai yn y llysoedd ynadon. O'r sampl ffeiliau, cafwyd oedi mewn sawl achos yn ystod y camau cynnar. Mewn cyfran ohonynt, roedd yr oedi o ganlyniad i ymchwiliadau yn mynd rhagddynt yn araf, ond mewn rhai eraill, roedd yr erlynydd wedi gor-lunio'r achos yn rhy gynnar drwy geisio sicrhau bod yr holl dystiolaeth wedi dod i law cyn dechrau'r erlyniad. Mewn amgylchiadau priodol, efallai mai dyma'r dull cywir; fodd bynnag, mae angen ystyried a fyddai oedi cyn dechrau achos yn peri mwy o risg i ganlyniad llwyddiannus. Mae angen i erlynwyr arddel barn fwy cytbwys ar y cam cyn-cyhuddo a pheidio ag oedi yn ddiangen wrth gymryd penderfyniadau cyhuddo.

**3.6** Yn y rhan fwyaf o'r achosion yn y sampl ffeiliau, cymerodd eiriolwyr y camau angenrheidiol i sicrhau bod cynnydd boddhaol wedi'i wneud yn y gwrandawiad pledio a chyfarwyddo achos (PCMH); ond mewn lleiafrif arwyddocaol o achosion, gallai'r erlynydd fod wedi gwneud mwy ar y cam hwnnw o'r achos. Ar y cyfan, ac eithrio treialon aneffeithiol, nid yr erlyniad oedd ar fai am y rhan fwyaf o ohiriadau diangen. Gellid bod wedi bwrw ymlaen â'r achos yn gyflymach pe bai'r erlyniad wedi gweithredu yn gynharach mewn tua 15% o'r achosion a ohiriwyd.

**3.7** Mae'r ardal wedi sefydlu protocol ar gyfer cyfeirio achosion i uned gwaith achos cymhleth (CCU) Grŵp Cymru a chyfeirir achosion fel arfer at bennaeth yr uned i'w dyrannu. Mae staff yr Ardal a'r heddlu yn deall trefniadau mynediad a sicrheir bod cyn lleied o gyfeiriadau amhriodol â phosibl.

**3.8** Ni chysylltir achosion yn effeithiol bob amser ac mae sylwadau barnwrol wedi nodi nad yw erlynwyr yn aml yn meddu ar yr holl wybodaeth am eu hachosion. Gellir esgeuluso gwybodaeth berthnasol a allai effeithio ar achos yr erlyniad ac nid yw ar gael fel mater o drefn gan yr heddlu pan ddylai fod ar gael, gan arwain at fwy o enghreifftiau o wneud penderfyniadau'n hwyr.


## Amseroldeb ac ansawdd wrth baratoi achosion

**3.9** Dylai'r CPS baratoi ei achosion yn Llys y Goron yn brydlon, gan sicrhau y gellir cyflwyno pledion euog cyn gynted â phosibl a chynnal treialon diannod ar y dyddiad penodedig. Effeithiwyd ar waith paratoi achosion yn llysoedd ynadon yr Ardal yn sgîl rhoi mwy o flaenoriaeth i'r gwaith o ddwyn cyhuddiadau a'r angen i fod yn y llys a rhywfaint o aneffeithlonrwydd yn y prosesau. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer yr achosion a ryddhawyd adeg traddodi, gweler paragraff 2.6, a chynnydd yng nghyfradd athreuliad yr Ardal yn Llys y Goron. Mae problemau sefydledig o ran ansawdd gwael y ffeiliau a baratoir gan yr heddlu a'r diffyg brys wrth ymchwilio i achosion unigol wedi gwneud y sefyllfa hon yn waeth.

**Argymhelliad â Blaenoriaeth**


Mae angen i'r Ardal gymryd camau gweithredol i leihau'r gyfradd traddodebau a ryddhawyd i sicrhau bod perfformiad cystal â'r cyfartaledd cenedlaethol, neu'n well na hynny.

**3.10** Mae ansawdd ditiadau wedi'i nodi fel mater o bryder gan y farnwriaeth a nododd ein harolygiad sawl enghraifft o ddogfennau a oedd wedi'u drafftio heb ddigon o ofal a sylw. Nid yw'r Ardal yn monitro ansawdd ei ditiadau ac mae gwallau sylfaenol yn llithro drwy'r rhwyd ac mae hyn yn arwydd o'r dull llac a weithredir o lunio rhai dogfennau. Mae angen i'r Ardal gymryd camau i wella ansawdd gwaith drafftio yn gyffredinol ac yn arbennig o ran ditiadau.




**3.11** Roedd y cyfarwyddiadau i eiriolwyr yn amrywiol, ond cafwyd rhai enghreifftiau da ac ardderchog. Fodd bynnag, mae'r ansawdd yn amrywio ledled yr Ardal, ac mae angen dileu hyn; mae'n amlwg y daw'r enghreifftiau gwaethaf o'r swyddfa lle nad oedd gweithwyr achos yn rhan o'r broses. Ar y cyfan, mae angen teilwra cyfarwyddiadau i'r achos, gan gyfeirio at y ffeithiau, y cryfderau a'r gwendidau perthnasol; gan nodi unrhyw dystiolaeth nas cyflwynwyd a ddisgwylir, a phledion realistig, derbyniol.

**3.12** Nid yw systemau datblygu achosion wedi llwyddo i sicrhau prydlondeb. Bu cydymffurfiaeth wael â gorchmynion llys, achosion o gyflwyno tystiolaeth a datgelu yn hwyr a cheisiadau a luniwyd yn wael yn ffactorau a gyfrannodd at y dirywiad yn y berthynas rhwng y farnwriaeth a'r CPS yn lleol ac mae hyn yn peri pryder penodol. Mae'r Ardal yn cydnabod bod angen iddi ailadeiladu'r bartneriaeth hanfodol hon a gwella ei gwaith ar gyfer Llys y Goron ac mae'n cymryd camau gweithredol i wneud hynny. Mae hwn yn faes blaenoriaeth am fod gormod o achosion yn aros heb fynd rhagddynt ac mae diffyg rhagweithioldeb yn atal yr Ardal rhag mynd i'r afael â diffygion sy'n deillio o benderfyniadau a wnaed yn gynharach. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r agwedd hon ym mharagraffau 11.14 ac 11.15.



**3.13** Mae'r Ardal wrthi'n cyflwyno model busnes gorau (OBM) Llys y Goron i fynd i'r afael â nifer o'r gwendidau o ran paratoi. Mae'r system yn seiliedig ar broses wedi'i hailstrwythuro, a gynlluniwyd i ddefnyddio adnoddau Llys y Goron yn fwy effeithlon. Ar hyn o bryd, mae'r system newydd ond megis dechrau ac nid yw'r holl staff yn deall yn glir sut bydd y broses yn gweithio'n ymarferol. Mae angen i'r Ardal ymdrin â'r mater hwn.

**Argymhelliad â Blaenoriaeth**

Mae angen i'r Ardal:

- sicrhau y dyrennir adnoddau digonol i ddatblygu ei gwaith achos mwyaf difrifol yn effeithiol;
- sicrhau mwy o gysondeb o ran safon ei gwaith adolygu mewn achosion yn Llys y Goron;
- sicrhau y caiff erlynwyr ddigon o amser i gyflawni adolygiadau Llys y Goron yn effeithiol.

**3.14** Nid yw'r Ardal wedi sicrhau cysondeb wrth ddefnyddio eiriolwyr y goron (CAs) ledled y tri dosbarth. Yng Nghaerdydd, mae'r CAs yn bresennol fel eiriolwyr llawn amser yn Llys y Goron. Yn Abertawe a Merthyr Tudful, nid yw'r CAs i'w gweld mor aml yn Llys y Goron ac maent yno fel rhan o'u dyletswyddau erlyn cyffredinol ehangach. Gall y ddwy system sicrhau'r manteision disgwyliedig, ond nid yw'r Ardal wedi gwireddu hyn yn y naill system na'r llall. Cafwyd cynlluniau i sefydlu uned eiriolaeth lawn amser yn Abertawe ers cryn amser. Bwriadwyd yn wreiddiol iddi fod yn weithredol erbyn mis Tachwedd 2009, ond bellach bwriedir ei chyflwyno'n fuan iawn.

**3.15** Mae uned eiriolwyr y goron yng Nghaerdydd wedi bod ar waith ers cryn amser a'r CAs sydd bellach yn ymdrin â'r rhan fwyaf o achosion a restrwyd ar gyfer gwrandawiad pledio a chyfarwyddo achos (PCMH). Fodd bynnag, nid yw'r gwaith o ddyrannu achosion yn cydymffurfio â'r cytundeb CPS cenedlaethol a drefnwyd â bargyfreithwyr hunangyflogedig. Dim ond ar ôl cwblhau'r rhestr PCMH y caiff eiriolwyr eu hachosion. Mae hyn yn eu hatal rhag paratoi yn y bôn ar gyfer y gwrandawiad ac yn caniatáu i achosion fynd i'r llys heb ddatrys diffygion yn gyntaf. Ystyrir ansawdd eiriolaeth y CAs yn y bennod ddilynol ac archwilir eu cynhyrchiant hwy ym mhennod 12.

## Treialon effeithiol, treialon aneffeithiol a threialon chwâl

**3.16** Rhennir y targed i leihau lefel y treialon aneffeithiol rhwng y CPS â'i bartneriaid cyfiawnder troseddol. Mae gan yr Ardal gyfrifoldeb i sicrhau bod ei hachosion yn barod i fynd rhagddynt i dreial yn brydlon. Mae gan ddioddefwyr a thystion ddisgwyliad dilys y caiff eu hachosion eu gwrando ar y diwrnod penodedig, heb y rhwystredigaeth, yr anghyfleustra na'r gwastraff amser a ddaw yn sgîl treialon aneffeithiol. Gall treialon aneffeithiol hefyd gynyddu costau ac oedi cyfiawnder.

| **Cyfraddau treial**<br>**Perfformiad** | **OPA 2007 Ardal** | **2009-10 Ardal** | **Cenedlaethol** |
|---|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 54.6% | 46.8% | 44.9% |
| Cyfradd treialon chwâl | 33.7% | 42.9% | 42.2% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 11.7% | 10.3% | 13.0% |

**3.17** Mae perfformiad yr Ardal yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn Llys y Goron o ran treialon effeithiol a threialon aneffeithiol, ac yn agos ato o ran treialon chwâl. Fodd bynnag, mae cyfraddau treialon effeithiol a rhai chwâl wedi gostwng ers 2007. Mae'n debygol y bydd cyfiawnder troseddol yn canolbwyntio yn y dyfodol ar wella'r gyfradd treialon effeithiol a lleihau lefel y treialon chwâl, gan sicrhau y caiff amser gwerthfawr y llys ei ddefnyddio yn y dull mwyaf effeithlon.

## Canlyniadau yn Llys y Goron

**3.18** O ran achosion Llys y Goron sy'n arwain at gollfarn, mae nifer yr Ardal yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac, yn nhermau canrannol, mae'r Ardal yn dirwyn llai o achosion i ben na'r cyfartaledd cenedlaethol.

**3.19** Mae'r Barnwyr Preswyl ym mhob Llys y Goron ledled yr Ardal yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r gwaith o ddatblygu achosion ac mae ganddynt ddiddordeb brwd mewn sicrhau y caiff achosion eu rheoli a'u dwyn i dreial yn effeithiol. Yn sicr, mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar ganlyniadau'r Ardal yn Llys y Goron yn arbennig o ran treialon aneffeithiol. Mae'r Ardal yn llai tebygol o gael treial aneffeithiol na'r cyfartaledd cenedlaethol a lleihawyd y gyfran o achosion sy'n chwalu neu sy'n aneffeithiol am resymau erlyn. Fodd bynnag, mae'r barnwyr yn gorfod llywio elfennau erlyn yr achos yn fwy nag y dylent ac mae llysoedd wedi colli amynedd â'r erlyniad ac mae'r cyfraddau athreuliad yn codi.

**3.20** Gwnaethom archwilio 16 o achosion â chanlyniadau anffafriol. Ni ddylid bod wedi dwyn cyhuddiad mewn rhai a chafodd rhai eraill eu dirwyn i ben ar gam er na fu newid perthnasol yn yr amgylchiadau ers y penderfyniad cyn-cyhuddo. Mewn cyfran arwyddocaol ohonynt, nid oedd y penderfyniad i'w dirwyn i ben yn cydymffurfio â'r Cod a gellid bod wedi gwneud mwy i atgyfnerthu'r erlyniad, a allai fod wedi osgoi'r canlyniad hwnnw. Ni chaiff achosion eu dirwyn i ben mewn da bryd fel mater o drefn, nac ar yr adeg briodol, gynharaf, ac mae'r Ardal yn colli cyfleoedd i wneud y dyfarniadau cywir. Mewn rhai o'r achosion a archwiliwyd, roedd yn amlwg y gellid bod wedi rhagweld y canlyniad yn rhesymol naill ai ar y cam cyhuddo neu ar y cam adolygu yn Llys y Goron. Fodd bynnag, ni lwyddodd yr adolygiad ar y naill gam na'r llall i nodi'r gwendidau yn y dystiolaeth a arweiniodd yn y pen draw at roi'r gorau i'r erlyniad. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni ddaethpwyd ag erlyniadau i ben tan y gwrandawiad pledio a chyfarwyddo achos (PCMH) neu'n ddiweddarach.

| Canlyniadau llwyddiannus yn Llys y Goron | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Perfformiad** | **OPA yr Ardal 2007** | **Cenedlaethol 2008-09** | **Ardal 2008-09** | **Cenedlaethol 2009-10** | **Ardal 2009-10** |
| Cyfradd gollfarnu gyffredinol | 78.2% | 80.8% | 82.1% | 80.6% | 81.8% |

| Canlyniadau aflwyddiannus yn Llys y Goron | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Perfformiad** | **OPA yr Ardal 2007** | **Cenedlaethol 2008-09** | **Ardal 2008-09** | **Cenedlaethol 2009-10** | **Ardal 2009-10** |
| Rhyddfarnau dan orchymyn barnwr (dirwyn i ben) | 10.7% | 11.7% | 10.2% | 11.7% | 10.9% |
| Rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr | 1.9% | 0.9% | 1.0% | 1.0% | 0.6% |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 7.0% | 5.5% | 6.0% | 5.7% | 5.9% |
| Gwarantau | 1.1% | 1.1% | 0.8% | 1.0% | 0.9% |

**3.21** Ni lunnir adroddiadau ar ganlyniadau anffafriol bob amser a dim ond yn ysbeidiol y caiff gwersi gwerthfawr eu dysgu. Pan gânt eu cwblhau, ni ddefnyddir yr adroddiadau yn gyson i hybu gwelliannau mewn perfformiad gan eu bod yn canolbwyntio ar gyfiawnhau penderfyniad yr erlyniad i ddwyn cyhuddiad, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr elfennau hynny y gellir eu gwella. Ceir rhywfaint o adborth unigol, ond ni rennir pwyntiau dysgu yn eang ledled yr Ardal. O ran achosion a gaiff eu herlyn yn fewnol, mae cyfle clir i'r CAs chwarae rôl fwy gweithredol wrth gynorthwyo'r cyfreithwyr sy'n dwyn cyhuddiadau a pharatoi achosion i sicrhau achosion gwell.

**3.22** Mae angen gwneud mwy i sicrhau yr ymgynghorir â dioddefwyr yn briodol cyn rhoi'r gorau i'w hachosion, gan mai dim ond yn hanner y ffeiliau perthnasol a archwiliwyd y digwyddodd hyn. Mae angen cymryd camau hefyd i wella prosesau cyfathrebu â'r heddlu er mwyn sicrhau yr ystyrir sylwadau'n briodol cyn dirwyn erlyniad i ben.

## Adennill asedau (enillion o droseddau)

**3.23** Mae perfformiad yr Ardal wedi gwella yn 2009-10 o gymharu â chanlyniad 2008-09, a oedd £217,847 yn brin o'r targed o ran gwerth a nodwyd. Aeth yr Ardal ati i roi hyfforddiant pellach i 14 o'i chyfreithwyr a ddewiswyd o bob un o'r dosbarthiadau. Darparwyd yr hyfforddiant gan un o gyfreithwyr Tîm Adennill Asedau Rhanbarthol (RART) Cymru ym mis Mehefin 2009, ac eto ym mis Chwefror 2010. Mae ffigurau POCA 2009-10 yn dangos bod yr Ardal wedi rhagori ar ei tharged o ran gwerth o £1,601,015 (neu 66.8%), sef cyflawniad sylweddol.

## Defnyddio Compass, sef system rheoli achosion (CMS) electronig

**3.24** Defnyddir Compass, neu CMS, yn effeithiol gan weithwyr achos a gweinyddwyr yr Ardal i dderbyn a chofnodi gwybodaeth a dogfennau ar gyfer achosion. Mae'r gwrthwyneb yn wir, fodd bynnag, yn achos y cyfreithwyr nad ydynt yn defnyddio'r system yn dda ac sy'n parhau i ddefnyddio hen dempledi ar bapur wrth baratoi achosion ar gyfer Llys y Goron.

Mae'r arfer hon yn aneffeithlon ac mae angen i'r Ardal gymryd camau ar fyrder i fynd i'r afael â hyn.

**3.25** Fel y llys ynadon, mae'r Ardal yn cofnodi'r canlyniadau'n anghywir wrth gwblhau nifer sylweddol o achosion. Mae'r gyfradd gwallau yn ddigon uchel i gael effaith ar uniondeb yr ystadegau sy'n gysylltiedig â rhai o'r dangosyddion a gyflwynir i'r pencadlys, gan roi darlun camarweiniol o berfformiad. Mae angen i'r Ardal wella cywirdeb ei gwaith wrth gwblhau achosion yn Llys y Goron, i sicrhau strategaethau gwella perfformiad a dargedir yn gywir.

| Mater cydymffurfio |
| --- |
| Rhaid i reolwyr Ardal sicrhau bod erlynwyr yn cyflawni tasgau'n briodol ar CMS. |

# 4 Erlyn achosion yn y llysoedd

| | |
|---|---|
| **OPA 2007** | **Da** |
| **AEI 2010** | **Gweddol** |
| **Cyfeiriad teithio** | **Wedi gwaethygu** |

**4.1** Mae'r CPS yn cyflogi ei staff ei hun ac eiriolwyr allanol i erlyn achosion yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron. Ni waeth p'un a yw'r eiriolwr yn gweithio'n fewnol neu'n hunangyflogedig, yr un safonau sy'n berthnasol. Dylai erlynwyr gyflwyno achosion yn deg ac yn gadarn, cynorthwyo'r llys ag unrhyw broses ddedfrydu, ac ymdrin yn effeithiol ag unrhyw faterion yn ymwneud ag enillion o droseddau.

**4.2** Asesir perfformiad yn ôl ansawdd y gwaith o gyflwyno achosion, p'un a gaiff achosion eu datblygu'n effeithiol ai peidio a gwerth am arian o ran lleoli erlynwyr.

## Ansawdd wrth gyflwyno achosion

**4.3** Gwnaethom arsylwi 29 o eiriolwyr yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron a gweld bod ansawdd yr eiriolaeth yn amrywio. Roedd y rhan fwyaf o eiriolwyr yn gymwys, ond roedd pryderon ynghylch rhai erlynwyr mewnol. Roedd partneriaid cyfiawnder troseddol o'r farn bod ansawdd yr eiriolaeth yn amrywio'n sylweddol, o ansawdd da iawn i ansawdd gwael, a bod diffyg gwybodaeth sylfaenol ymysg rhai o erlynwyr y Goron a rhai o eiriolwyr y Goron. Nodwyd mai eiriolaeth treial oedd maes gwannaf yr erlynwyr mewnol.

**Safonau eiriolaeth**

| | Lefel | Nifer eiriolwyr/ erlynwyr cyswllt CPS yn y llys ynadon | Nifer asiantau'r cwnsler/ cyfreithiwr yn y llys ynadon | Nifer eiriolwyr y goron ac eiriolwyr eraill y CPS yn Llys y Goron | Nifer y cwnsleriaid yn Llys y Goron |
|---|---|---|---|---|---|
| Aseswyd eu bod yn uwch | 1 | – | – | – | – |
| na'r gofynion arferol | 2 | – | – | 1 | 1 |
| Yn erbyn safonau | 3+ | 3 | – | – | 1 |
| eiriolaeth cenedlaethol | 3 | 7 | – | 4 | 7 |
| y CPS | 3- | – | – | 1 | 2 |
| A'r rhai yr aseswyd eu | 4 | 1 | – | 1 | – |
| bod yn llai na chymwys | 5 | – | – | – | – |

Asesiad: 1 = Eithriadol; 2 = Yn dda iawn, yn uwch na'r cyfartaledd mewn sawl ffordd

3+ = Yn uwch na'r cyfartaledd mewn sawl ffordd; 3 = Yn gymwys ym mhob ffordd; 3- = Yn is na'r cyfartaledd i ryw raddau, heb ymdeimlad o bresenoldeb neu frwdfrydedd

4 = Yn llai na chymwys mewn sawl ffordd; 5 = Yn wael iawn, yn gwbl annerbyniol


**4.4** Yn y llysoedd ynadon, rhoddodd y barnwyr a'r ynadon rhanbarth mwy o glod yn gyffredinol i'r erlynwyr cyswllt (APs) na'u cydweithwyr cymwysedig oherwydd eu bod wedi paratoi'n well yn ôl pob golwg ac yn fwy cyfarwydd â phapurau'r achos. Hyd yma, nid yw'r Ardal wedi asesu sawl AP â hawliau estynedig i ymddangos (AP2s) sydd ei angen arni i roi'r rhaglen AP2 genedlaethol ar waith.

**4.5** Yn Llys y Goron, mynegwyd rhywfaint o bryder barnwrol am safon yr eiriolaeth fewnol, yn arbennig eiriolaeth treial. Ymhlith y cwynion cyffredin roedd: diffyg trylwyredd wrth baratoi ar gyfer y llys; achosion yn cael eu cyflwyno'n wael; diffyg gwybodaeth am y ffeithiau a'r gyfraith sy'n berthnasol i'r achos; a phroffesiynoldeb rhai.

**4.6** Ym mis Mehefin 2009, lluniwyd 'strategaeth rheoli ansawdd eiriolaeth' genedlaethol gan y CPS, sef cynllun a gynlluniwyd i reoleiddio a monitro ansawdd eiriolaeth yn y llys. Mewn ymateb, dewiswyd eiriolwr y Goron profiadol o'r Ardal i gynnal asesiadau eiriolaeth ar gyfer Grŵp Cymru. Dylid datblygu'r broses fonitro hon a rhoi rhaglen hyfforddiant effeithiol ar waith i wella sgiliau eiriolaeth mewnol, yn arbennig o ran eiriolaeth treial.

## Datblygu achosion yn y llys

**4.7** Mae erlynwyr profiadol ar gael yn y llysoedd ynadon mwyaf, a gall APs sy'n ymddangos yno ofyn am gyngor fel y bo angen. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n wahanol yn y llysoedd ynadon llai, a cheir oedi weithiau a all dorri ar draws achosion a thanseilio'r gwaith o ddatblygu achosion yn effeithiol. I'r gwrthwyneb, ceir enghreifftiau o leoli erlynwyr yn aneffeithlon ar adegau pan restrir achosion nad ydynt yn rhai AP ar restrau achosion AP dynodedig, sy'n golygu bod angen cyfreithiwr ychwanegol yn y llys i erlyn yr achos. Mae angen i'r Ardal barhau i weithio gyda rheolwyr lleol Gwasanaeth Llysoedd EM i symleiddio'r patrymau rhestru i sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posibl.





**4.8** Mae llai o alw am geisiadau i ohirio achosion erbyn hyn, ond ni wneir cynnydd bob amser yn y gwrandawiad cyntaf. Ar y cyfan, roedd anallu'r erlyniad i baratoi achosion yn brydlon yn gwneud i bartneriaid cyfiawnder troseddol deimlo'n rhwystredig, a nodwyd bod y CPS yn rheolaidd yn beio'r heddlu am baratoi ffeiliau'n wael a'u cyflwyno'n hwyr. Fodd bynnag roedd ein harsylwadau yn amhendant o ran y pwynt olaf hwn.

**4.9** Ar y cyfan, mae gwendidau wrth baratoi achosion yn broblem sylfaenol yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron ac yn un y mae partneriaid cyfiawnder troseddol yr Ardal yn ymwybodol ohoni. Nid oes digon o amser ar gael gan yr erlynwyr i gwblhau gwaith ac mae'n bosibl na chaiff achos ei baratoi tan y prynhawn cyn y gwrandawiad. Er mwyn adolygu eu

hachosion, mae'n rhaid i erlynwyr ddibynnu ar gyrraedd y llys yn gynnar neu, fel arall, baratoi eu hachosion gartref. Felly, nid oes digon o amser i baratoi ar gyfer y llys na pharatoi achosion yn briodol, a cheir mwy o risgiau o ran ymdrin â dogfennau a diogelwch data yn sgîl hyn hefyd.

**4.10** Cydnabuwyd yn fewnol lefel y gwaith o ansawdd gwael a geir wrth baratoi achosion gan sawl un o erlynwyr yr Ardal sydd wedi lleisio eu barn, gan nodi eu bod yn cyflawni un sesiwn ar ôl y llall yn y llys, yr arferion lleoli aneffeithlon, a'r diffyg perchenogaeth dros achosion o dan y model busnes gorau fel meysydd o bryder cynyddol ymhlith cyfreithwyr yr Ardal. Fel y nodwyd yn 2.10 a 3.9, mae angen gwneud mwy o waith i ail-asesu'r prosesau ac ymchwilio i'r ffordd y lleolir staff yn unedau paratoi achosion yr Ardal.

**4.11** Gall ansawdd yr arnodiadau ar ffeiliau yn aml effeithio ar ba un a wneir cynnydd ai peidio. Roedd y rhan fwyaf yn ddarllenadwy ac yn glir, ond roedd nifer sylweddol yn ddiffygiol o ran manylion y gwrandawiad. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r eiriolwr olynol gael gafael ar hanes cynhwysfawr a chywir o'r achos, a all arwain at gamddealltwriaeth neu achosion o ddyblygu gwaith. Efallai bod hyn hefyd yn egluro pam roedd llawer o'r achosion yn ein sampl ffeiliau wedi'u cwblhau'n anghywir ar y system rheoli achosion electronig (CMS).




**4.12** Mae gweithwyr achos yn rhoi cymorth i eiriolwyr ym mhob un o leoliadau Llys y Goron, ac mae graddau'r ddarpariaeth yn gymharol uchel yn yr Ardal, gyda chymhareb o weithiwr achos i bob dau lys ar gyfartaledd, ac un i bob llys ar adegau. Gall rhestrau PCMH, rhestrau crybwyll a rhestrau ceisiadau fod yn brysur iawn, gan olygu bod angen trefniadaeth effeithlon ar y diwrnod. Wrth gwrs, mae'n annhebygol y bydd gan weithwyr achos sy'n gweithio ar y rhestrau hyn wybodaeth eang am bob achos a bydd yn rhaid iddynt ddibynnu ar y ffaith bod eiriolwr yr erlyniad yn gyfarwydd â'r ffeil. Nid felly y mae bob tro ac mae perygl na chaiff ffeithiau nac amgylchiadau perthnasol eu trosglwyddo'n briodol, gan effeithio ar y broses ddilynol o ddatblygu'r achos.

**4.13** Mae eiriolwyr yr erlyniad yn cyrraedd y llys yn amserol ac maent yn cydymffurfio ag Addewid yr Erlynydd, y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr a Siarter y Tyst. Mae'r erlynwyr yn cydweithio'n dda â'r Gwasanaeth Tystion ac yn cyflwyno eu hunain i ddioddefwyr a thystion yn rheolaidd gan sicrhau y cânt eu hysbysu am ddatblygiad yr achosion yn y llys. Gwelsom wrth i'n gwaith o arsylwi yn y llys fynd rhagddo bod gofal ac ystyriaeth briodol yn cael eu rhoi i ddioddefwyr a thystion gan erlynwyr a chwnsleriaid.

## Gwerth am arian wrth leoli erlynwyr

**4.14** Mae'r Ardal wedi rhagori ar ei tharged o 25% ar gyfer lleoli APs yn 2009-10 ac mae bellach ond ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Defnyddir llai o asiantau yn unol â hynny. Gwelwyd gostyngiad hefyd yn y nifer cyffredinol o sesiynau'r llysoedd ynadon y mae'n rhaid i'r Ardal ymdrin â hwy, ac mae hyn wedi helpu â'r gwaith o leoli erlynwyr.

**4.15** Ceir y crynhoad mwyaf o eiriolwyr y goron (CA) yn Llys y Goron Caerdydd, lle y'u lleolir yn llawn amser, gan erlyn amrywiaeth o achosion, gan gynnwys rhai treialon, a'r rhan fwyaf o'r achosion a restrir ar gyfer gwrandawiadau pledio a chyfarwyddo achos (PCMHs). Mae rhai CAs hefyd wedi gweithio fel bargyfreithwyr ieuaf mewn rhai achosion mawr. Yn Abertawe a Merthyr Tudful, ni leolir y CAs yn llawn amser yn Llys y Goron, a byddant yn ymddangos yno yn afreolaidd yn rhinwedd eu dyletswyddau erlyn cyffredinol. Mae'r ffaith bod CAs yn ymgymryd â thasgau cyhuddo ac adolygu mewn achosion ar gyfer Llys y Goron i'w ganmol, ond os caiff CAs eu lleoli i gyflawni gwaith yn y llysoedd ynadon fel rheol, naill ai'n rheolaidd neu dros dro pan fydd prinder staff, nid yw hynny'n effeithlon nac ychwaith yn cynrychioli gwerth am arian. Yn ogystal â hynny, os defnyddir patrwm lleoli o'r fath ni chefnogir CAs i ddatblygu'r hyder na'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i erlyn yn gymwys yn amgylchedd mwy heriol Llys y Goron. Mae angen i'r Ardal ymdrin â'r ffordd y defnyddir CAs. Ceir argymhelliad ym mharagraff 10.9.

# 5 Troseddau treisgar a rhywiol difrifol a throseddau casineb

| | |
|---|---|
| **OPA 2007** | **Da** |
| **AEI 2010** | **Da** |
| **Cyfeiriad teithio** | **Wedi gwella** |

**5.1** Mae troseddau treisgar a rhywiol difrifol yn cynnwys: achosi niwed ac anaf corfforol difrifol, troseddau sy'n defnyddio arfau, troseddau traffig y ffyrdd lle y caiff pobl eu lladd, lladd, trais rhywiol, cam-drin plant a thrais yn y cartref. Mae troseddau casineb yn cynnwys: troseddau a waethygir oherwydd hil, crefydd ac anabledd, troseddau homoffobig a cham-drin yr henoed.

**5.2** Asesir perfformiad yn ôl y lefel o sylw arbenigol a roddir i achosion treisgar a rhywiol difrifol, ansawdd ac amseroldeb y broses o adolygu a pharatoi, a lefel y canlyniadau llwyddiannus.


## Arbenigwyr

**5.3** Mae gan yr Ardal erlynwyr arbenigol i ymdrin â throseddau treisgar a rhywiol difrifol a throseddau casineb, sy'n rhoi cymorth priodol i erlynwyr a gweithwyr achos eraill. Hysbysir Prif Erlynydd y Goron (CCP) ynghylch pob penderfyniad cyhuddo sy'n ymwneud ag achos lle y bu marwolaeth. Ymdrinnir ag achosion difrifol sy'n rhan o droseddau cyffredin yr Ardal, megis trais yn y cartref, gan erlynwyr profiadol a all ymgynghori ag arbenigwyr os bydd angen.

**5.4** Yn ôl ein harchwiliad o'r ffeiliau, nid ymdriniwyd ag achosion treisgar a rhywiol difrifol o'r dechrau i'r diwedd gan arbenigwr dynodedig bob amser. Mae angen i'r Ardal daro cydbwysedd rhwng y manteision a ddaw yn sgîl perchenogaeth o achosion a'r angen i ddatblygu mwy o erlynwyr iau, ond nid yw'n sicrhau'r cydbwysedd hwnnw'n briodol bob amser. Mae angen mwy o barhad ar y camau cynghori a chyhuddo cynnar, ac mae angen meithrin cyfreithwyr llai profiadol drwy roi'r hyfforddiant priodol iddynt a'u goruchwylio'n effeithiol.

**5.5** Mae'r Ardal wedi ceisio mynd i'r afael a gwendidau yn ei herlyniadau trais a throseddau rhywiol difrifol (RASSO) ac mae'n treialu uned RASSO bwrpasol yng Nghaerdydd. Drwy hyn bwriedir hyrwyddo cydweithio agosach ag ymchwilwyr arbenigol, cynyddu parhad o ran timau erlyn a gwella'r gwasanaeth cyffredinol a roddir i ddioddefwyr. Cyn ymestyn y system hon i'r Ardal gyfan, bydd angen cynnal gwerthusiad priodol o'i heffeithiolrwydd, ei chost a'r effaith ar waith difrifol arall.

## Amseroldeb ac ansawdd wrth adolygu a pharatoi achosion




**5.6** Mae ansawdd adolygiadau'r Ardal o achosion treisgar a rhywiol difrifol yn well na throseddau eraill nad ydynt yn arbenigol, ac eithrio trais yn y cartref a cham-drin plant. Yn ôl

ein harchwiliad o'r ffeiliau, nodwyd nad oedd pob un o'r adolygiadau llawn yn cydymffurfio â'r Cod. Fodd bynnag, nodwyd hefyd mewn cyfran sylweddol o ymchwiliadau i achosion trais yn y cartref, cam-drin plant a thrais rhywiol, bod yr heddlu wedi methu â darparu deunydd pwysig i'r erlynydd a ddylai fod wedi bod ar gael ar adeg gwneud y penderfyniad cyhuddo.

**5.7** Dewisir y cyhuddiadau mwyaf priodol yn amlach mewn achosion treisgar a rhywiol difrifol, ond ar y cam cyngor cyn-cyhuddo, roedd y gwaith o wneud penderfyniadau o ran materion atodol a chynlluniau gweithredu ond ychydig yn well nag achosion eraill. Yn amlwg mae lle i wella o ran ystyried materion dioddefwyr a thystion, ceisiadau perthnasol i ategu tystiolaeth yr erlyniad a'r camau angenrheidiol sydd eu hangen i atgyfnerthu achos yr erlyniad ar gyfer y llys.

**5.8** Nodwyd y rhan fwyaf o achosion yn y sampl ffeiliau yn gywir fel troseddau â blaenoriaeth ar system rheoli achosion (CMS) y CPS. Unwaith y bydd ar waith, mae ansawdd ac amseroldeb gwaith adolygu a pharatoi pellach mewn achosion treisgar a rhywiol difrifol yn well na'r safon a geir yng ngweddill gwaith Llys y Goron yr Ardal. Er gwaethaf y gymhariaeth ffafriol, yn nhermau absoliwt, mae ein harchwiliad o'r ffeiliau yn awgrymu bod angen gwaith i wella cysondeb y gwaith achos ar gyfer troseddau treisgar a rhywiol difrifol.

**Mater cydymffurfio**

Rhaid i'r Ardal sicrhau bod ceisiadau am fesurau arbennig wedi'u drafftio'n briodol ac wedi'u hategu gan wybodaeth berthnasol, ac y cânt eu cyflwyno'n gyflym o fewn y terfynau amser penodedig.

### Canlyniadau ar gyfer troseddau treisgar a rhywiol difrifol

**5.9** Mae lefel canlyniadau aflwyddiannus yr Ardal o ran pob achos treisgar a rhywiol difrifol yn gostwng, ond mae ei pherfformiad yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol cyfatebol o hyd.

**Canlyniadau aflwyddiannus**

| Perfformiad | Cenedlaethol 2008-09 | Ardal 2008-09 | Targed Cenedlaethol | Cenedlaethol 2009-10 | Ardal 2009-10 |
|---|---|---|---|---|---|
| Trais yn erbyn merched | 28.1% | 31.6% | 28.0% | 28.2% | 29.2% |
| Trais | 42.3% | 47.5% | 41.0% | 40.6% | 44.7% |
| Trais yn y cartref | 27.8% | 31.0% | 28.0% | 28.0% | 28.4% |
| Troseddau rhywiol | 24.9% | 30.5% | 28.0% | 24.0% | 27.5% |

**5.10** Mae'r Ardal yn cydweithio â phartneriaid cyfiawnder troseddol i gael mwy o effaith ar drais yn erbyn merched. Yn dilyn adolygiad ar y cyd o'r ffordd yr ymdrinnir â throseddau rhywiol yn Ne Cymru, cynhaliwyd seminar hyfforddiant trais gan yr Ardal ym mis Ionawr 2010, gan gynnwys asiantaethau cymorth o bob rhan o Gymru. Mae'r Ardal wedi gwella ei chysylltiadau â chanolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol lleol (SARCs) ac mae'r gydberthynas rhwng y ddwy asiantaeth bellach yn fwy cydweithredol.

### Cryfder

Cydweithio â phartneriaid cyfiawnder troseddol i wella perfformiad mewn achosion o drais yn erbyn merched a thrais rhywiol.

**5.11** Mae'r Ardal a Cymorth i Ddioddefwyr wedi cytuno'n ddiweddar i ddarparu gwasanaeth estynedig i ddioddefwyr a thystion sy'n agored i niwed. Dechreuodd y fenter yng Nghaerdydd ym mis Chwefror 2010 ac mae'n ymdrin ag atgyfeiriadau sy'n ymwneud â thystion sy'n blant. Y gobaith maes o law yw ymestyn y cynllun i gynnwys pob math o waith achos ledled yr Ardal.

## Canlyniadau ar gyfer troseddau casineb

**5.12** Mae'r Ardal wedi llwyddo i leihau ei chanlyniadau anffafriol ar gyfer troseddau casineb yn sylweddol ac mae ei pherfformiad presennol yn rhagori ar y targed canlyniadau aflwyddiannus a chanlyniadau'r cyfartaledd cenedlaethol.

**5.13** Bu'r Ardal yn canolbwyntio'n ddiweddar ar droseddau casineb o ran anabledd ac mae perfformiad wedi gwella yn y categorïau unigol. Rhoddwyd hyfforddiant i bob aelod o staff ynghylch troseddau casineb o ran anabledd, yn ogystal â thrais yn y cartref. Mae gan yr Ardal gynllun gweithredu troseddau casineb o ran anabledd i ymdrin ag achosion o'r fath a monitro ei pherfformiad er mwyn gwella lle bo angen.

### Argymhelliad

Mae angen i'r Ardal:

- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwneud penderfyniadau mewn unrhyw achosion difrifol a sensitif;
- rhoi prosesau effeithiol ar waith i fonitro a rheoli perfformiad unigol.

### Canlyniadau aflwyddiannus

| Perfformiad | Targed | 2008-09 Ardal | Cenedlaethol | 2009-10 Ardal | Cenedlaethol |
|---|---|---|---|---|---|
| Troseddau casineb: hiliol, crefyddol, homoffobig ac anabledd wedi'u cyfuno | 18% | 20.2% | 18.0% | 16.1% | 18.1% |


# 6 Datgelu deunydd nas defnyddiwyd

| | |
|---|---|
| **OPA 2007** | **Gwael** |
| **AEI 2010** | **Gwael** |
| **Cyfeiriad teithio** | **Wedi gwella** |

**6.1** Gall ymchwiliad troseddol gynhyrchu mwy o ddefnydd na'r hyn y bydd yr erlyniad yn ei ddefnyddio. Mae dyletswydd ar yr heddlu i gadw'r deunydd hwn a'i ddatgelu i'r erlyniad ar restrau sy'n dangos pa eitemau a gasglwyd. Rhaid i gyfreithiwr y CPS ystyried a ddylid cyflwyno unrhyw rhai o'r eitemau a gyflwynir i'r amddiffyniad. Gelwir y broses hon yn ddatgelu, a gelwir yr eitemau unigol yn ddeunydd nas defnyddiwyd. Gall peidio â datgelu rhywbeth y dylid bod wedi'i ddatgelu arwain at anghyfiawnder i'r amddiffynnydd ac arwain at ganlyniadau difrifol i'r erlyniad.

**6.2** Rhaid i erlynwyr ddatgelu unrhyw ddeunydd a all danseilio'r erlyniad, cynorthwyo'r amddiffyniad neu fel arall atal treial teg rhag digwydd. Dosberthir deunydd nas defnyddiwyd naill ai yn ddeunydd nad yw'n sensitif, er enghraifft llyfrau nodiadau'r heddlu, neu ddeunydd sensitif, megis cudd-wybodaeth. Ar adegau, efallai y bydd y deunydd perthnasol o dan ofal asiantaeth arall, neu drydydd parti, megis cofnodion gwasanaethau cymdeithasol. Lle y penderfynir y gellir datgelu deunydd sensitif, gall yr erlyniad ofyn i'r barnwr atal y wybodaeth drwy wneud cais ar sail Imiwnedd er Budd y Cyhoedd (PII).


**6.3** Mesurir perfformiad yn ôl ansawdd ac amseroldeb yr adolygiadau datgelu cychwynnol a pharhaus, effeithiolrwydd y dull o ymdrin ag unrhyw ddeunydd trydydd parti neu sensitif, cywirdeb cofnodion datgelu a'r dull cyffredinol o reoli'r broses. Rydym hefyd yn ystyried perfformiad yr Ardal o'i gymharu â chanfyddiadau cenedlaethol ein hadolygiad thematig o ddatgelu yn 2008. Ceir tabl sy'n nodi canfyddiadau'r arolygiad hwn ynghyd â manylion ein harolygiad thematig yn Atodiad C o adran 8. Er bod yr Ardal wedi gwella'r dull o ymdrin â'r broses ddatgelu ers ein hasesiad diwethaf o'r Ardal yn OPA 2007, mae nifer o agweddau allweddol yn parhau i fod yn is na chanfyddiadau thematig 2008. Mae'r Ardal yn cydnabod yr angen i wneud gwelliannau cyson, sylweddol o ran datgelu.



Datgelu cychwynnol – cydymffurfio

## Ansawdd ac amseroldeb datgelu cychwynnol


**6.4** Gwnaethom archwilio 64 o achosion yr Ardal lle cododd y ddyletswydd i wneud datgelu cychwynnol. Gwelsom fod angen gwelliannau o ran ansawdd ac amseroldeb. Mewn pedwar achos, cafwyd diffyg cydymffurfio o ran methu â datgelu deunydd sy'n tanseilio neu'n cynorthwyo'r achos. Mae methiannau o'r fath yn rhai difrifol sy'n fwy tebygol o ddigwydd pan fo cyfreithwyr yr Ardal yn ystyried datgelu fel cam o'r broses sy'n rhaid ei gwblhau, yn hytrach nag adolygiad priodol o ddeunydd nas defnyddiwyd.




**6.5** Roedd gwahaniaeth sylweddol o ran amseroldeb a oedd yn wael yn y llysoedd ynadon, ac yn well yn Llys y Goron. O gymharu â'r sefyllfa genedlaethol, mae'r Ardal dros ddwywaith a hanner yn fwy tebygol o gael achos aneffeithiol yn y llysoedd ynadon o ganlyniad i fater yn ymwneud â datgelu.


**6.6** Mae perfformiad swyddogion datgelu'r heddlu sy'n gyfrifol am nodi a rhestru'r deunydd nas defnyddiwyd yn effeithio ar ansawdd ac amseroldeb datgelu. Mae'n amlwg nad yw'r Ardal yn debygol o gyflawni unrhyw welliannau mawr i'r dull o ymdrin â'r broses ddatgelu, oni bai iddi hefyd lwyddo i ddwyn perswâd ar yr heddlu i godi eu perfformiad sylfaenol ar yr un pryd. Mae'r Ardal yn ymwybodol mai dyma'r achos.

**6.7** Mae'r Ardal wedi llwyddo, ar y cyfan, i ddileu'r arfer o ddatgelu ar sail 'gyffredinol', lle caiff dogfennau eu copïo a'u cyflwyno i'r amddiffyniad, heb benderfynu p'un a allai'r dogfennau hynny danseilio neu gynorthwyo'r achos. Mae hwn yn gam cadarnhaol, ond golyga y bydd angen anelu'n uwch i gydymffurfio'n briodol â'r ddyletswydd i ddatgelu.



## Ansawdd ac amseroldeb datgelu parhaus

**6.8** Mae'r ddyletswydd i ddatgelu yn un parhaus ac mae'n rhaid i erlynwyr gofio am yr angen bob amser i adolygu'r holl ddeunydd perthnasol yn barhaus. Gall datgelu ddigwydd unrhyw bryd, ond mae'n rhaid ei gwblhau'n ffurfiol mewn achosion lle mae'r amddiffyniad wedi cyflwyno datganiad o achos boddhaol (DCS) sy'n nodi ei amddiffyniad. Mae cyflwyno DCS yn orfodol yn Llys y Goron, ond mae'n ddewisol yn y llysoedd ynadon. Nododd adroddiad a baratowyd ar gyfer Grŵp Cymru ym mis Awst 2009 gyfradd ymateb wael yr heddlu ar ôl iddynt dderbyn y DCS, ac mae ein harchwiliad o ffeiliau yn ategu'r canfyddiad hwnnw. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar y cyfraddau cydymffurfio ac amseroldeb o ran datgelu parhaus.




**6.9** Gwnaethom archwilio 28 o achosion lle cafwyd datgelu parhaus. Mewn un achos, cafwyd diffyg cydymffurfio o ran methu â datgelu deunydd sy'n tanseilio neu'n cynorthwyo'r achos. Mewn rhai o'r achosion, cafwyd enghreifftiau lle gadawyd y gwaith datgelu parhaus er mwyn i eiriolwr y treial ei ddatrys. Er y dylai'r cwnsler fod yn rhan o'r broses, dyletswydd y cyfreithiwr CPS yw'r cyflawni'r gwaith datgelu parhaus. Gall hyn ddigwydd weithiau pan na fydd cyfreithwyr ar gael i adolygu achosion, ond mae hefyd yn digwydd weithiau o ganlyniad i ddiffyg hyder ar ran rhai o gyfreithwyr yr Ardal yn y broses o wneud penderfyniadau.

### Argymhelliad â Blaenoriaeth

Mae angen i'r Ardal:

- sicrhau bod y gwaith o wneud penderfyniadau cyfreithiol ynghylch datgelu yn gadarn, wedi'i esbonio'n briodol ac wedi'i gofnodi;
- defnyddio'r adroddiadau ar ddatgelu a lunnir gan hyrwyddwr datgelu'r Ardal i reoli perfformiad unigol.

## Deunydd sensitif a deunydd trydydd parti

**6.10** Mae'r heddlu yn cyflwyno rhestr o ddeunydd sensitif ymhob achos sy'n mynd ymlaen i dreial diannod neu i Lys y Goron; mewn nifer fawr o achosion, bydd y rhestr ond yn cadarnhau nad oes unrhyw ddeunydd sensitif. Yn wahanol i'r rhestr o ddeunydd nad yw'n sensitif, ni fydd yr amddiffyniad yn derbyn copi o'r ffurflen sensitif.

**6.11** Gwnaethom archwilio wyth achos lle y cofnodwyd deunydd sensitif perthnasol; dau yn y llysoedd ynadon a chwech yn Llys y Goron. Ymdriniwyd â datgelu'n gywir mewn pump o'r wyth achos. Mewn tri achos yn Llys y Goron, rhestrwyd deunydd amhriodol ar y rhestr sensitif; dim ond mewn un achos y gwnaethpwyd cais i'w drosglwyddo i'r rhestr nad yw'n sensitif ac felly ei wneud yn amlwg i'r amddiffyniad.

**6.12** Roedd angen ystyried deunydd trydydd parti perthnasol mewn chwe achos yn Llys y Goron a gwnaethpwyd hyn yn gywir yn hanner yr achosion. Ceir cytundeb protocol penodol cenedlaethol rhwng y CPS, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau lles eraill i hwyluso'r broses a chyflymu'r gwaith o wneud penderfyniadau. Nid yw'r Ardal wedi gweithredu'r protocol hyd yma ac efallai bod hyn, yn rhannol, yn egluro'r diffyg dealltwriaeth o'r dull cywir o ymdrin â deunydd trydydd parti a oedd yn amlwg o'n harchwiliad o ffeiliau.

**Mater cydymffurfio**

Rhaid i'r Ardal fynd ati'n gyflymach i fabwysiadu Protocol Trydydd Parti ar ddatgelu.

**6.13** Cafwyd penderfyniadau Imiwnedd er Budd y Cyhoedd (PII) o ran deunydd trydydd parti sensitif mewn dau achos yn Llys y Goron. Mewn un achos, ymdriniwyd â hyn yn gywir, ond yn hwyr iawn, ac yn yr ail achos, cafodd ei esgeuluso'n llwyr. Cafwyd canlyniadau aflwyddiannus yn y ddau achos.

**6.14** Mae un achos datgelu yn cynrychioli'r anawsterau cyffredinol sydd gan yr Ardal o ran gwneud penderfyniadau a pharatoi achosion. Cafodd deunydd trydydd parti perthnasol a nodwyd gan gyfreithiwr cyhuddo CPS Direct ei gynnwys yng nghynllun gweithredu achos. Fe'i nodwyd eto gan gyfreithiwr yr Ardal ychydig wythnosau'n ddiweddarach yn yr adolygiad llawn o'r dystiolaeth. Yna, aeth 88 diwrnod heibio ar ôl yr ymddangosiad cyntaf yn y llys cyn i'r erlynydd gymryd y camau gweithredol cyntaf i gael gafael ar y deunydd. Aeth 70 diwrnod arall heibio, neu ddeng wythnos, cyn penderfynu yn y pen draw i roi'r gorau i'r achos oherwydd y wybodaeth bellach a dderbyniwyd. Roedd y penderfyniad i ddirwyn yr achos i ben yn gywir, ond ni chofnodwyd hyn yn unrhyw le; ac roedd y cod cwblhau a nodwyd ar system rheoli achosion (CMS) electronig y CPS yn anghywir, gan nodi rheswm gwahanol iawn am benderfyniad yr erlyniad i beidio â mynd ymlaen â'r achos. Mae'r achos hwn yn dangos effaith gynyddol: ansawdd gwael y ffeiliau a gyflwynwyd gan yr heddlu; y ffaith nad oedd gwybodaeth, a ddylai fod yn hysbys i'r ymchwilwyr ar gam cynnar, ar gael iddynt tan yn ddiweddarach o lawer; y diffyg rhagweithioldeb ar ran yr heddlu a'r CPS wrth fwrw ymlaen â'r achos; y methiant i gofnodi'r penderfyniad i ddirwyn yr achos i ben; a'r ffaith i'r wybodaeth gwblhau anghywir gael ei nodi.

## Cywirdeb cofnodion datgelu

**6.15** Mae cadw ffeiliau o ran dogfennau datgelu yn dda ar y cyfan, er y gall rhai dogfennau ymddangos yn y ffolder anghywir weithiau. Roedd taflen cofnodi datgelu (DRS) yn y rhan fwyaf o'r ffeiliau, ond nid arnodwyd pob cam datgelu fel rheol ar y ffurflen. Mae hyn yn tanseilio gwerth y DRS fel cronoleg o'r camau datgelu ac mae'n golygu na cheir trywydd archwilio cyflawn.

## Rheoli'r broses datgelu

**6.16** Mae rheolwyr ardal wedi cwblhau cryn dipyn o waith o ran datgelu ac nid diffyg sylw yw'r rheswm na chyflawnwyd gwelliannau cyson hyd yma. Yn hytrach, cafodd y perfformiad cyffredinol o ran datgelu ei danseilio gan ddiffyg cyflymder rhai swyddogion wrth gynnal yr ymchwiliad ac amharodrwydd rhai o gyflogeion y CPS i newid ynghyd ag amharodrwydd i reoli perfformiad mewn rhai meysydd o bryder a nodwyd.

### Arfer da

Yr adroddiadau a'r asesiadau datgelu a luniwyd gan hyrwyddwr datgelu'r Ardal.

### Argymhelliad

Mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru, dylai'r Ardal ddatblygu a gweithredu rhaglen hyfforddiant datgelu ar y cyd i wella amseroldeb ac ansawdd rhestrau'r heddlu a phrosesau gwneud penderfyniadau cyfreithiol y CPS.

**6.17** Mae hyfforddiant wedi cymryd cam yn ôl, yn arbennig hyfforddiant ar y cyd â'r heddlu, ac nid yw'r Ardal wedi manteisio'n llawn ar allu ei chyfreithwyr mwyaf profiadol sy'n ymddangos yn Llys y Goron yn rheolaidd i gynnig arweiniad a mentora o ran datgelu. Mae rhai elfennau o ddiffyg symleiddio'r systemau a phrosesau sy'n ymwneud â gwaith achos yn cael effaith andwyol ar amseroldeb datgelu. Mae angen i'r Ardal fabwysiadu dull deublyg o ymdrin â datgelu: yn gyntaf, mynd i'r afael â pherfformiad gwael yr heddlu drwy ymgysylltu â hwy a'u hysbysu ynghylch achosion lle na chyrhaeddwyd y safon; ac yn ail, ymdrin â pherfformiad datgelu unigol yn fewnol drwy ddull rheoli perfformiad cadarn.

# 7 Terfynau amser cadwraeth

| OPA 2007 | Gweddol |
|---|---|
| AEI 2010 | Gwael |
| Cyfeiriad teithio | Wedi gwaethygu |

7.1 Mae terfyn amser, a bennwyd gan y senedd, ar y cyfnod y gellir cadw amddiffynnydd yn y ddalfa yn aros am dreial. Ar ôl cyrraedd y terfyn hwn, mae'n rhaid i'r llys ystyried p'un a ddylai'r amddiffynnydd aros yn y ddalfa y tu hwnt i'r cyfnod statudol neu gael ei rhyddhau ar fechnïaeth. Cyfrifoldeb yr erlyniad yw gwneud cais i ymestyn unrhyw derfyn amser cadwraeth (CTL) a pherswadio'r llys bod rheswm da dros yr estyniad a bod yr achos yn mynd yn ei flaen yn ddiwyd ac yn gyflym. Mae'n gyfundrefn fwriadol anodd, am ei bod yn fodd o ddiogelu unigolion sydd heb eu cyhuddo rhag cael eu cadw yn y ddalfa am gyfnod amhenodol. Yn groes i hynny, mae CTLs bob amser yn gymwys mewn achosion lle mae lefel y troseddu'n ddifrifol neu lle mae tebygolrwydd uchel o ail-droseddu; o dan y fath amgylchiadau, byddai rhyddhau amddiffynnydd i'r gymuned yn sgîl methiant CTL yn peri mwy o risg i'r cyhoedd.

7.2 Mae'n rhaid i'r erlyniad gyflwyno unrhyw geisiadau i ymestyn CTL cyn iddo ddod i ben. Oni wneir hyn, caiff yr amddiffynnydd ei rhyddhau o'r ddalfa maes o law heb unrhyw ystyriaeth bellach, oni fydd yn garcharor sy'n bwrw ei ddedfryd neu wedi'i gadw'n gaeth am resymau eraill. Pan gyflwynir cais yn brydlon, ond nid yw'r erlyniad wedi cyflwyno achos da i ymestyn CTL na dangos diwydrwydd na chyflymder dyladwy, bydd y llys yn rhyddhau'r amddiffynnydd o'r ddalfa, Yn y naill achos neu'r llall, bydd y CPS yn ystyried hyn yn fethiant CTL.

7.3 Asesir perfformiad yn ôl nifer yr achosion lle y mae'r erlyniad wedi methu â chyflwyno cais yn brydlon i ymestyn CTL, gan yr achosir y rhain gan wallau ar ryw adeg yn y broses CTL; a nifer yr achosion nad ydynt, ym marn y llys, yn mynd ymlaen yn foddhaol, gan fod hyn yn adlewyrchu gwaith gwael wrth baratoi achosion.

7.4 Ar y cyfan, cafwyd tri methiant CTL yn yr Ardal yn 2008 a phum methiant yn 2009. Mae hyn yn anffafriol o'i gymharu â'r ddau dro diwethaf yr ymwelwyd â'r Ardal.

## Prosesau CTL yr Ardal - methu â chyflwyno ceisiadau CTL o fewn terfynau amser

7.5 Mae gan y CPS ganllawiau cenedlaethol manwl sy'n nodi'r prosesau disgwyliedig ar gyfer ymdrin â phob achos CTL. Cynlluniwyd y rhain i sicrhau bod pob achos yn cael ei ystyried yn briodol a bod ceisiadau'n cael eu paratoi'n briodol cyn i'r terfyn amser ddod i ben.

7.6 Aeth yr Ardal ati i ddiwygio ei systemau CTL ysgrifenedig ym mis Mehefin 2009, ac maent bellach yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Ceir trywydd archwilio da o ran adolygiadau a gweithredoedd CTL, ac mae'r broses o fonitro yn cydymffurfio â'r safonau cytûn. Rhoddwyd protocol lleol gyda Gwasanaeth Llysoedd EM ar waith ym mis Ebrill 2009 a chydymffurfir â hynny'n ymarferol, ond nid yw arnodiadau ar ffeiliau bob amser yn cofnodi bod dyddiadau dirwyn CTL i ben wedi'u cytuno â'r llys.

7.7 Nododd ein harchwiliad CTL cenedlaethol yn 2009 nad oedd eiriolwyr mewnol na rhai hunangyflogedig yn Llys y Goron Abertawe yn rhagweithiol fel rheol wrth ymdrin â CTLs, ac nid oeddent yn sicrhau bod dyddiadau hollbwysig yn cael eu crybwyll a'u cytuno gan yr holl bartïon

yn y llys. Mae hyrwyddwr yr Ardal wedi mynd i'r afael â'r mater yn fewnol ac wedi'i drafod yn uniongyrchol â'r siambrau lleol. Mae angen i'r Ardal ddatblygu'r broses gyfathrebu hon a gwella ansawdd ei chyfarwyddiadau erlyn er mwyn gwneud CTLs yn fwy amlwg; ar hyn o bryd, ni roddir digon o bwyslais arnynt i nodi eu pwysigrwydd.

**7.8** Gwnaethom archwilio 17 o achosion a gwblhawyd a 12 o achosion a oedd yn mynd rhagddynt lle rhoddwyd yr amddiffynnydd ar remand yn y ddalfa. Cyfrifwyd y dyddiad dirwyn CTL i ben yn gywir ym mhob un o'r achosion ond un, lle gwelwyd anghysondeb. Hysbyswyd y rhanbarth dan sylw am hyn.

**7.9** O blith methiannau CTL yr Ardal a gofnodwyd yn 2008 a 2009, achoswyd tri ohonynt gan geisiadau a gollwyd i ymestyn CTLs ac roeddent oll wedi'u hachosi gan fethiant unigolion, yn bennaf drwy arnodi ffeiliau yn wael gan arwain at ddryswch o ran pa droseddau oedd yn cynnwys CTLs a dyddiadau dirwyn CTL i ben a gamgyfrifwyd. Dylai gwiriadau CTL yr Ardal fod wedi nodi'r gwallau ac adfer y sefyllfa, ond methwyd â chanfod y gwallau ym mhob achos.

## Paratoi achosion yn yr Ardal - methiannau o ran diwydrwydd a chyflymder dyladwy[5]

**7.10** Yn 2008 a 2009, cofnodwyd methiant CTL mewn pum achos yn yr Ardal am na fodlonwyd y llys bod yr erlyniad wedi ymddwyn â diwydrwydd dyladwy; ac roedd ein sampl ffeiliau yn cynnwys pedwar achos o'r fath. Ym mhob un ohonynt, roedd y cais yn brydlon, ond wedi'i ddrafftio yn wael. Mae angen gwelliannau er mwyn sicrhau bod ceisiadau CTL yn cynnwys cronoleg lawn gan nodi'r rhesymau am estyniad yn briodol, a chanolbwyntio ar faterion o ran diwydrwydd a chyflymder dyladwy.

**7.11** Mae nifer y methiannau CTL ar gynnydd ac mae hyn yn peri pryder penodol, yn arbennig o ran y rhai a achosir gan achosion a baratoir yn wael; o gymharu â nifer y methiannau a gofnodir yn genedlaethol, mae perfformiad yr Ardal yn sylweddol wannach na'r cyfartaledd. Rhaid hysbysu'r CPS yn ganolog am bob methiant, beth bynnag yw'r rheswm. Yn sgîl y methiant diwethaf gwahoddodd yr Ardal bencadlys y CPS i gynnal archwiliad CTL yng Nghaerdydd ym mis Ionawr 2010. Mae'n werth nodi, yn fuan ar ôl yr adolygiad hwnnw, i'r Ardal gael 'methiant o drwch blewyn' arall ym mis Mawrth 2010.

**7.12** Yn sicr, mae'r Ardal wedi ymgymryd â llawer o waith ar gydymffurfio â CTL ers yr OPA diwethaf ac yn sgîl ein harchwiliad yn 2009, ac mae llawer o systemau wedi'u diwygio a'u diweddaru. Mae staff wedi cael hyfforddiant perthnasol. Ac eto, ni chyflawnwyd y gwelliannau disgwyliedig i berfformiad, ond yn hytrach gwelwyd dirywiad annisgwyl a sylweddol. Mae'r sgôr gyffredinol ar gyfer yr agwedd hon yn adlewyrchu'r nifer fawr o fethiannau CTL a gofnodwyd gan yr Ardal ers 2007.

**Argymhelliad**

Mae angen i'r Ardal sicrhau y caiff achosion CTL eu monitro yn gadarn a bod archwiliadau CTL yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Mae angen i berfformiad wella i sicrhau ei fod cystal â'r cyfartaledd cenedlaethol, neu'n well na hynny.

5 Bellach, cyflwynir adroddiadau ar achosion yn y categori hwn gan yr Ardal i bencadlys y CPS eu hystyried. Yn flaenorol, ni chynhwyswyd gwrthodiadau i ymestyn CTLs, a dim ond yr achosion lle na chyflwynwyd cais i ymestyn a gofnodwyd fel methiant CTL. Mae hyn yn enghraifft o dynhau'r gyfundrefn CTL.

# 8 Y gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion

| | |
|---|---|
| **OPA 2007** | **Da** |
| **AEI 2010** | **Da** |
| **Cyfeiriad teithio** | **Wedi gwella** |


**8.1** Mae'r CPS wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i ddioddefwyr a thystion a phan wneir penderfyniad i roi'r gorau i gyhuddiad neu ei leihau'n sylweddol, mae'n ofynnol iddo hysbysu dioddefwyr o dan y cynllun cyfathrebu uniongyrchol â dioddefwyr (DCV). Rhennir y cyfrifoldeb cyffredinol am ofal tystion rhwng yr heddlu, y CPS ac Unedau Gofal Tystion (WCUs). Cyflwynwyd WCUs o ganlyniad i'r fenter Dim Tyst, Dim Cyfiawnder (NWNJ) ac maent yn cynnwys amrywiaeth o gyflogeion yr heddlu a'r CPS, ond yr heddlu sy'n rheoli ac yn gweithio yn y rhan fwyaf ohonynt.

**8.2** Asesir perfformiad y CPS yn ôl amseroldeb ac ansawdd y llythyrau DCV a anfonir a mesurau sylfaenol ac eilaidd NWNJ, gan gynnwys: treialon chwâl ac aneffeithiol am resymau'n ymwneud â'r tyst; cyfraddau presenoldeb tystion a lefelau boddhad; a nifer y datganiadau personol gan ddioddefwyr a cheisiadau am fesurau arbennig a wneir. Mae lefel y gofal a'r driniaeth a gaiff dioddefwyr a thystion yn y llys yn bwysig hefyd.

## Unedau gofal tystion

**8.3** Mae gan bob rhanbarth yn yr Ardal ei uned gofal tystion ei hun wedi'i staffio gan swyddogion gofal tystion (WCOs) penodedig sy'n helpu tystion â'u hymholiadau, yn cysylltu ag asiantaethau cymorth ac yn trefnu ymweliadau cyn treial â'r llys. Nid ydynt wedi cael unrhyw hyfforddiant penodol yngl ŷ n â sut i ymdrin â thystion yn briodol, ond mae rhai sgyrsiau a roddwyd gan asiantaethau cymorth mewn cyfarfodydd misol wedi rhoi cipolwg gwerthfawr ar sut i fynd ati i ymdrin â dioddefwyr a thystion sy'n agored i niwed. Gall WCOs ddarparu gwasanaethau y tu hwnt i'w cyfrifoldebau weithiau, megis cynghori tystion a mynd i dreialon pan fo tystion yn gofyn iddynt wneud hynny.

**8.4** Mae WCUs wedi datblygu mewn ffordd dameidiog, ynysig a phrin yw'r enghreifftiau o gydgysylltu. Mae'r Ardal bellach wedi atgyfnerthu'r strwythur rheoli drwy benodi cydgysylltydd Ardal â chyfrifoldeb unigol am berfformiad a chwblhau adolygiad â'r nod o safoni'r ffordd y mae WCUs yn gweithredu. Un argymhelliad sydd ei angen yn ddirfawr o'r adolygiad yw'r angen i reoli amcanion a pherfformiad WCU mewn ffordd sy'n ategu mesurau NWNJ. Mae ffigurau presenoldeb tystion yr Ardal wedi gwella ac maent bellach yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae perfformiad cyffredinol wedi gwella yn Llys y Goron, ond mae angen mwy o waith yn y llysoedd ynadon, lle y mae hyn wedi dirywio.



**8.5** Mae rhybuddion i dystion yn amserol fel arfer, ond gall problemau godi pan fydd y llys yn trosglwyddo achos i leoliad gwahanol ar gam hwyr. Ceir rhai tensiynau o hyd rhwng y CPS a'r WCUs ynghylch trosglwyddo gwybodaeth i'r WCOs, ac felly nid yw tystion bob amser yn cael gwybod am ddatblygiadau na'r cynnydd a wneir o ran ceisiadau am fesurau arbennig. Er gwaethaf lefelau gwell o gysylltu rhwng staff y WCU a chyfreithwyr a gweithwyr achos y CPS, roedd WCOs ym mhob rhan o'r Ardal o'r farn nad oedd staff y CPS yn gwerthfawrogi rôl y WCO.

### Argymhelliad

Dylai'r Ardal sicrhau ar y cyd â'r heddlu y caiff perfformiad WCU ei fonitro, ei reoli a'i asesu yn unol â mesurau sylfaenol ac eilaidd NWNJ. Mae angen asesu rhaglenni gwella yn unol â dangosyddion NWNJ.

## Mesurau arbennig

**8.6** Dylai erlynwyr ar ddyletswydd ystyried yr holl faterion atodol wrth benderfynu ar gyhuddiadau, ond mae diffyg rhagweithioldeb a diffyg tystiolaeth ategol ar fesurau arbennig yn peri rhwystredigaeth i staff WCU wrth ymdrin ag ymholiadau tystion. Mae'r Ardal yn cydnabod bod angen gwneud mwy ac mae'r heddlu wedi ailgynllunio ffurflen datganiad y tyst er mwyn ysgogi swyddogion i ystyried anghenion y tyst a chymryd datganiad personol gan ddioddefwr. Mae'r CPS wedi darparu hyfforddiant ychwanegol ar fesurau arbennig, a gwella ei gysylltiad â'r canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol (SARCs) a'r eiriolwyr trais yn y cartref annibynnol (IDVAs). Bwriedir i'r uned trais a throseddau rhywiol difrifol (RASSO) newydd ddarparu gwasanaeth cydymdeimladol a phwrpasol i ddioddefwyr drwy baratoi achosion yn well, cyflwyno ceisiadau am fesurau arbennig yn gynharach a gweithredu'n gyffredinol mewn dull mwy cyfannol.

## Y gofal a'r driniaeth a gaiff dioddefwyr a thystion yn y llys

**8.7** Yn y llys, darperir help a chymorth ychwanegol yn uniongyrchol gan y Gwasanaeth Tystion, rhan o'r elusen genedlaethol Cymorth i Ddioddefwyr. Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae'r Gwasanaeth Tystion yn dibynnu'n helaeth ar y wybodaeth a gaiff gan WCUs lleol er mwyn paratoi ar gyfer ymweliadau cyn mynd i'r llys a helpu'r rheini sy'n mynd i'r llys ar gyfer gwrandawiad. Mae gan yr Ardal gydberthnasau cadarnhaol â'r Gwasanaeth Tystion, ond mae angen iddi wella'r llif gwybodaeth i'r sefydliad, yn arbennig o ran tystion wedi'u bygylu a rhai sy'n agored i niwed a gofynion o ran mesurau arbennig, fel y gellir cynllunio ar gyfer eu hanghenion priodol a'u diwallu yn hytrach na dim ond ymateb iddynt.


**8.8** Yn y llysoedd ynadon, mae erlynwyr yn gwneud ymdrech i weld y tystion drwy wirfoddolwyr y gwasanaeth tystion yn y llys. Mae parodrwydd eiriolwyr i ymgysylltu â thystion yn amrywio o un unigolyn i'r llall, ond yn gyffredinol mae'r rhan fwyaf o erlynwyr yr Ardal yn gydwybodol yn hyn o beth. Gall ymrwymiadau eraill i'r llys effeithio ar allu'r erlynydd i siarad â thystion ac efallai y bydd yn rhaid i rai tystion aros am gyfnod o amser cyn y gall yr erlynydd eu gweld.

**8.9** Yn Llys y Goron, mae gweithwyr achos yn ymgysylltu â thystion, ond eto gall yr angen i ymddangos yn y llys a chyfrifoldebau eraill eu rhwystro yn hyn o beth. Bydd y Cwnsler fel arfer yn cyflwyno ei hun i dystion, ond mae'r cysylltiad yn aml yn fyr a braidd yn ffurfiol.

**8.10** Mewn achosion trais yn y cartref a throseddau rhywiol, gall tystion gael help gan eiriolwr trais yn y cartref annibynnol neu rywun o'r ganolfan atgyfeirio ymosodiadau rhywiol (SARC). Mewn rhai achosion, mae swyddogion gofal tystion wedi mynd i'r llys eu hunain er mwyn cefnogi tyst yn y treial.

## Cyfathrebu uniongyrchol â dioddefwyr

**8.11** Ar y cyfan, mae angen gwella ansawdd y llythyrau a anfonir o'r Ardal o dan y cynllun cyfathrebu uniongyrchol â dioddefwyr (DCV). Mae rhai llythyrau wedi'u drafftio'n wael, heb ddigon o wybodaeth, manylion na chydymdeimlad. Mae perfformiad yn amrywio ledled yr Ardal, ond ceir diffygion o ran ansawdd llythyrau ym mhob rhan o'r Ardal.




**8.12** Mae'r Ardal wedi cydnabod bod angen gwella ansawdd ei llythyrau DCV ac mae wedi cyflwyno paneli rheoli ansawdd, gan ddilyn esiampl Abertawe, i ddatblygu arfer gorau. Mae enghreifftiau o lythyrau o Abertawe a aseswyd yn ddiweddar yn dangos gwelliant sylweddol o ran cynnwys o gymharu â llythyrau cynharach. Gwelwyd dirywiad mewn perfformiad o ran amseroldeb llythyrau DCV o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Arfer da**

Defnyddio paneli cymunedol i asesu ansawdd y llythyrau a ysgrifennwyd o dan y cynllun cyfathrebu uniongyrchol â dioddefwyr (DCV).

# 9 Rheoli perfformiad er mwyn gwella

| OPA 2007 | Gweddol |
|---|---|
| AEI 2010 | Gweddol |
| **Cyfeiriad teithio** | **Sefydlog** |

**9.1** Dylai dulliau rheoli'r CPS fod yn gyson â pherfformiad, gan ganolbwyntio ar anghenion busnes craidd, darparu gwasanaethau effeithiol a chyflawni amcanion allweddol. Dylai strwythurau'r ardal ategu gweledigaeth a gwerthoedd y sefydliad er mwyn sicrhau bod gan bob aelod o staff ddealltwriaeth glir o'u rôl, amcanion cyraeddadwy a'u bod yn ymwybodol o'u cyfraniad at y broses. Rhaid sicrhau effeithlonrwydd systemau a rheoli a gweithredu rhaglenni gwella yn effeithiol. Mae angen cynnal cysylltiadau cynhyrchiol â phartneriaid cyfiawnder troseddol, gan hyrwyddo arferion gwaith effeithiol a syml. Dylai'r cyfeiriad teithio cyffredinol fod yn gadarnhaol.

**9.2** Mae perfformiad yn ystyried ystod eang o ganlyniadau cyfiawnder troseddol a fesurwyd a chaiff ei ystyried o ran darpariaeth drwy systemau a phrosesau effeithiol, rheoli perfformiad unigol a chydweithio.

## Systemau a phrosesau rheoli perfformiad

**9.3** Prif Erlynydd y Goron (CCP) sy'n gyfrifol am berfformiad cyffredinol yr Ardal, gyda chefnogaeth Rheolwr Busnes yr Ardal (ABM), ac uwch reolwyr yn gyfrifol am berfformiad lleol ar lefel rhanbarth. CCP yr Ardal yw Cadeirydd Grŵp Cymru hefyd, ac felly ni all ganolbwyntio ar berfformiad yr Ardal yn unig ac mae'n rhaid iddo ystyried y portffolio ehangach.

**9.4** Ymdrinnir â pherfformiad yr Ardal mewn cyfres o gyfarfodydd. Mae'r rhain yn gynhwysfawr, ond byddai'n fuddiol pe cânt eu symleiddio, er mwyn cyfuno strategaeth a gweithredu, lle y bo hynny'n briodol. Byddai hyn yn dileu elfen o ddyblygu, gan sicrhau mwy o eglurder ac ysgogiad i'r camau sydd angen eu cymryd i fwrw ymlaen â gwelliannau. Caiff perfformiad yr Ardal yn y cyd-destun ehangach ei ystyried â phartneriaid cyfiawnder troseddol mewn cyfarfodydd allanol rheolaidd.

| Argymhelliad |
|---|
| Dylid symleiddio cyfarfodydd a chael gwared ar achosion o ddyblygu i sicrhau na chaiff yr ysgogiad i gyflawni gwelliannau ei wanhau. |

**9.5** Yn y bôn, caiff y fframwaith perfformiad ei lywio gan dargedau ac mae'n cynnwys mentrau'r Ardal a rhai cenedlaethol, yn ogystal â phrosiectau pwrpasol a weithredir yn lleol. Ategir adroddiadau gan fframwaith sicrhau ansawdd ac adolygiadau penodol, ad hoc i benderfynu pa gamau i'w cymryd i wella perfformiad. Ystyrir adroddiadau rheoli perfformiad tîm yr erlyniad (PTPM) ar y cyd â'r heddlu ac maent wedi gwella'n ddiweddar, ond mae llawer i'w wneud cyn y gellir goresgyn yr holl rwystrau sy'n atal cynnydd yn y maes hwn. Nid yw'r Ardal wedi ymgorffori diwylliant perfformiad cadarn ac nid oes gan staff rheng flaen fawr o ddealltwriaeth o ba mor dda y mae eu tîm neu ranbarth yn ei wneud. Nid ymdrinnir yn effeithiol â rhwystrau a nodwyd gan reolwyr yr Ardal ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Bydd angen i'r Ardal fynd i'r afael â hyn.

## Rheoli perfformiad unigol

**9.6** Mae rhai rheolwyr yn amharod i fynd i'r afael â pherfformiad unigol yn uniongyrchol, sy'n golygu nad yw rhai elfennau o berfformiad gwael wedi cael eu herio ers peth amser. O ganlyniad, mae'r elfennau hyn wedi mynd yn ailadroddus a chaniatawyd iddynt rwystro rhaglenni gwella. Mae angen i hyn newid.

**9.7** Mae angen i'r Ardal fod yn wyliadwrus o'r canfyddiad ymysg staff y defnyddir safonau amrywiol i fonitro perfformiad unigol, ac mae angen iddi gymryd camau i sicrhau bod rheolwyr ym mhob rhan o'r Ardal yn gweithredu'n gyson. Drwy gyflwyno safonau ansawdd craidd cenedlaethol (CQS), gall yr Ardal gynnwys y disgwyliadau a'r safonau hynny mewn fframwaith derbyniol a ddefnyddir ym mhob rhan o'r Ardal.

### Argymhelliad â Blaenoriaeth

Mae angen i'r Ardal:

- gyfleu disgwyliadau clir o ran y safonau disgwyliedig ar gyfer ei chyfreithwyr a sicrhau bod prosesau cadarn ar waith i fynd i'r afael â pherfformiad unigol;
- datblygu diwylliant lle mae rhoi a chael ac ymateb i adborth yn rhan o fusnes o ddydd i ddydd.

**9.8** Bu monitro eiriolaeth yn anghyson ac yn dameidiog, a phrin oedd yr asesiadau a gynhaliwyd ac nid arsylwyd pob erlynydd yn ystod y flwyddyn. Mae'r dyfodol yn argoeli'n well, gydag asesydd eiriolaeth y Grŵp llawn amser wedi'i benodi. Fodd bynnag, wrth drosglwyddo i'r broses newydd, dylai'r Ardal feincnodi ei pherfformiad er mwyn penderfynu a yw'r asesiadau wedi gwella safonau eiriolaeth dros amser a sicrhau gwerth am arian.

**9.9** Mae'r Ardal yn cynnal arfarniadau perfformiad blynyddol, ond mae'n cydnabod y cafwyd rhai problemau o ran ansawdd yr amcanion. Mae'r rhan fwyaf o staff wedi mynegi barn na fu'r broses yn werthfawr ac mai ymarfer 'ticio blwch' ydyw fwy neu lai. Mae'r Ardal yn mynd i'r afael â hyn drwy ddysgu a datblygu mewnol.

## Rheoli perfformiad ar y cyd

**9.10** Mae angen i'r Ardal weithio'n effeithiol gyda'i phartneriaid cyfiawnder troseddol i wella safonau o ran darparu rhai elfennau o wasanaethau. Y prif fframwaith ar gyfer rheoli perfformiad ar y cyd yw'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB) a'i is-grwpiau ategol. Mae'r rhan fwyaf o reolwyr yn rhan o gyfarfodydd rhyngasiantaethol, ar ryw lefel, i ystyried perfformiad ar y cyd. Ar lefel weithredol, ceir teimladau o rwystredigaeth o hyd ynghylch nifer o agweddau ar gydweithio; er enghraifft, amseroldeb ac ansawdd ffeiliau'r heddlu. Cymysglyd fu cydberthynas yr Ardal â'i phartneriaid cyfiawnder troseddol; gyda rhai, megis yr heddlu â'r unedau RASSO lleol, mae'r gydberthynas wedi gwella. Gydag eraill, yn arbennig Llys y Goron Caerdydd, mae wedi dirywio. Mae'r Ardal bellach yn mynd ati'n rhagweithiol i ymdrin â'r mater pwysig hwn.

# 10 Rheoli adnoddau

| | |
|---|---|
| **OPA 2007** | **Da** |
| **AEI 2010** | **Gweddol** |
| **Cyfeiriad teithio** | **Wedi gwaethygu** |

**10.1** Y trysorlys sy'n pennu cyllideb genedlaethol y CPS ac fe'i trosglwyddir i'r Grwpiau gan Bencadlys y CPS. Yn yr un modd ag adrannau eraill y llywodraeth, mae angen i'r CPS sicrhau arbedion effeithlonrwydd blynyddol yn unol â gostyngiadau gwariant cyhoeddus arfaethedig. Caiff cyfran y Grŵp ei phennu yn unol â maint cyfunol yr Ardaloedd unigol sy'n rhan ohoni, a'i chyfrifo gan ddefnyddio'r model costau sy'n seiliedig ar weithgarwch (ABC). Gellir trosglwyddo cyllid o un Ardal o'r Grŵp i'r llall er mwyn addasu ar gyfer diffyg neu danwariant. O dan amgylchiadau eithriadol, gellir cyflwyno achos busnes i'r pencadlys i ryddhau adnoddau ychwanegol.

**10.2** Asesir perfformiad yn ôl gwariant cyffredinol yr Ardal yn erbyn y gyllideb a ddyrannwyd, y gwerth am arian a gyflawnwyd wrth ddefnyddio adnoddau a'r dull o reoli salwch a gweithio hyblyg. Mae dyraniad ABC yr Ardal wedi lleihau ei chyllideb am fod y llwyth achosion yn gostwng.

## Gwariant yr Ardal yn erbyn y gyllideb a ddyrannwyd

**10.3** O ganlyniad i'r gyfran ABC lai, rhagdybiodd yr Ardal y byddai'n gorwario ei chyllideb ar gyfer 2009-10 7%, sef swm sylweddol, gan roi mwy o bwysau ar ei chyllideb costau gweinyddu heb eu neilltuo (NRFAC). Nodwyd y diffyg tebygol hwn ar ddechrau'r flwyddyn busnes a rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith i reoli'r sefyllfa. Trafodwyd materion yn ymwneud â newid, proffiliau staffio ac arian mewn cyfarfodydd cynllunio gallu gweithlu rheolaidd, a thrwy ddyrannu mwy o eiriolwyr a defnyddio llai o asiantau llwyddwyd i leddfu rhywfaint ar y pwysau cyllidebol. Ni fu'r Ardal yn hollol lwyddiannus wrth geisio lleihau gwariant yn erbyn y gyllideb, er enghraifft, gellid bod wedi gwneud mwy i wella cost-effeithiolrwydd o ran defnyddio eiriolwyr y goron, ond roedd y mesurau a gyflwynwyd yn ddigon cadarn i'r ganolfan ryddhau £650,000 o gyllideb ychwanegol i'r Ardal. Felly lleihawyd diffyg diwedd y flwyddyn yr Ardal i orwariant o 1.29%.

**10.4** Bu'r gyllideb yn elfen barhaus o drafodaethau rhwng y CCP, ABM ac uwch reolwyr mewn cyfarfodydd perfformiad rheolaidd. Mae'r holl reolwyr yn ymwybodol bod angen rheoli gwariant, ond mae'r rhaglen weithredu a'r mentrau newid, megis OBM Llys y Goron, moderneiddio'r broses gyhuddo a'r uned RASSO, wedi effeithio ar eu gallu i reoli'r NRFAC. Cafwyd ymdrechion sylweddol, yn sicr, i leihau gwariant yn yr Ardal, ond roedd diffyg eglurder ynghylch sut i gyflawni effeithlonrwydd, sut y byddai'r mentrau yn effeithio ar y gyllideb, beth fyddai'r risgiau cysylltiedig i fusnes a ble y gellir disgwyl y byddai bylchau o ran perfformiad yn codi o ganlyniad i newid. Mae angen i'r Ardal bennu cyfeiriad clir, gan gydbwyso adnoddau a chyfrifoldebau ar y naill law, â'r risg i fusnes a chost a budd ar y llaw arall, er mwyn sefydlu dyraniad cyfartal ledled yr Ardal.

**10.5** Costau erlyn yw rhan sylweddol arall o wariant yr Ardal, sef yr arian a delir i eiriolwyr hunangyflogedig er mwyn iddynt erlyn achosion yn allanol. Caiff y rhain eu monitro'n rheolaidd ynghyd â gwariant NRFAC ac maent yn elfen allweddol o drafodaethau rhwng y CCP, ABM ac uwch erlynwyr y goron rhanbarthol mewn


cyfarfodydd perfformiad chwarterol. Roedd y costau erlyn ar gyfer 2008-09 o fewn y gyllideb, ond fe'u tanwariwyd yn 2009-10, gan olygu bod yn rhaid i'r Ardal ryddhau swm cymesur yn ôl i'r Grŵp. Mae systemau effeithiol ar waith yn yr Ardal i fynd ar drywydd anfonebau nas talwyd gan y siambrau ac adlewyrchir hyn yn y ffaith y telir ffioedd yn brydlon drwy'r system ffioedd graddedig (GFS). Ers 2007, mae'r Ardal wedi lleihau'r costau erlyn cyfartalog fesul achos yn Llys y Goron ac mae ei chostau uned GFS ar gyfer 2009-10 yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Defnyddio staff

**10.6** Mae'r ymgyrch i leihau'r NRFAC wedi creu bylchau ledled y rhanbarthau lle mae unigolion wedi gadael eu swyddi ac ni phenodwyd staff yn eu lle. Mae rheolwyr yn adolygu'r niferoedd staffio yn rheolaidd, gan ddefnyddio'r cyfarfodydd cynllunio gallu gweithlu i hysbysu staff o'r strategaeth staffio cyffredinol. Bu hyn yn rhannol lwyddiannus, ond ni all reolwyr fod yn sicr bod eu blaenoriaethau yn cael eu cyflawni ledled yr Ardal. Mae strwythurau swyddfa ymynysol yn cyfrannu at anghysondeb wrth roi amcanion yr Ardal ar waith ac mae gan reolwyr mewn rhanbarthau gwahanol, sydd â'r un cyfrifoldebau, raddau atebolrwydd gwahanol. Mae staff yn teimlo nad yw adnoddau yn cael eu rhannu'n gyfartal ledled yr ardal a bod rhai trefniadau yn cael ffafriaeth. Mae angen gwella cynllunio parhad i sicrhau bod yr ardal yn defnyddio staff yn unol â'i hanghenion busnes.

**10.7** Daeth elfennau o ddelio â phroblemau wrth iddynt godi i'r amlwg i gau bylchau o ran perfformiad. Mae ysbryd tîm cydweithredol yn yr Ardal o hyd, ond mae'r her barhaus i gynnal gwasanaeth erlyn gweithredol wedi arwain at enghreifftiau cynyddol o forâl isel, sy'n arwain at feirniadaeth o strwythurau a dulliau rheoli. Mewn un swyddfa, roedd pawb o'r farn bod y gwaith o gwblhau'r rota wythnosol i ddosbarthu cyfreithwyr ac APs yn aneffeithlon, yn feichus ac yn anhyblyg, ac yn aml nid oedd yn ystyried gallu nac anghenion unigol. Mae angen i'r Ardal edrych yn gyfannol ar y ffordd y mae'n defnyddio staff ac adolygu ei threfniadau i sicrhau ei bod yn taro cydbwysedd priodol.

**10.8** Defnyddiodd yr Ardal fwy o erlynwyr mewnol yn y llysoedd ynadon yn ystod y flwyddyn a chafodd rywfaint o lwyddiant wrth iddi geisio lleihau nifer y sesiynau yn y llys er mwyn defnyddio adnoddau'r CPS yn fwy effeithiol, ond mae'r rheolwyr yn cydnabod bod angen gwneud mwy a bod hon yn broses barhaus. Mae'r ffordd y defnyddir APs yn anghytbwys ledled yr Ardal, ac mae'n rhaid i rai gynnal un sesiwn ar ôl y llall yn y llysoedd, tra bod eraill yn cael amser i gynorthwyo â gwaith OBM. Mae'r amser a gaiff cyfreithwyr ac APs i baratoi ar gyfer y llys hefyd yn amrywio ledled yr Ardal - o ychydig, i ddim o gwbl.



**10.9** O ran defnyddio erlynwyr mewnol yn Llys y Goron, nid yw'r Ardal wedi defnyddio ei CAs yn effeithiol ac mae arbedion yr Ardal wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y cyfnod o'u cymharu â chostau cyflogau. Gosodwyd targed i'r Ardal sicrhau £707,193 o arbedion yn 2009-10, drwy gwnsleriaid, neu'r cynllun ffioedd graddedig (GFS), a gellid bod wedi cyflawni hynny. Fodd bynnag, dim ond £561,553 o arbedion a gofnododd yr Ardal yn ystod y flwyddyn, sef diffyg o ryw £145,610, sy'n cyfateb i ddim ond 79% o'r targed, ac mae ei pherfformiad felly ymhlith y gwaethaf ar lefel genedlaethol. Methwyd â chyflawni'r targed oherwydd ni ddefnyddiwyd CAs yn ddigonol, ac roedd tueddiad i ddefnyddio rhai ohonynt dros dro i roi cyngor cyhuddo ac mewn sesiynau yn y llysoedd ynadon er mwyn lleihau gwariant ar asiantau. Mae hyn yn gam gwag.

**Argymhelliad**

Mae angen i'r Ardal fynd i'r afael â'r ffordd y mae'n cyfarwyddo ac yn defnyddio eiriolwyr y goron a'u perthynas â chydweithwyr yn yr Ardal.

## Rheoli salwch a gweithio hyblyg

**10.10** Mae'r Ardal wedi llwyddo i ostwng lefelau salwch o uchafbwynt o 11.7 diwrnod ym mis Ebrill 2008 i'r ffigur presennol sef 6.8 diwrnod, sy'n rhagori ar y targed cenedlaethol a chyfartaledd y CPS o 8.4 diwrnod. Mae systemau monitro salwch ar waith yn yr Ardal yn unol â chanllawiau'r CPS.

**10.11** Gweithredir nifer o batrymau gweithio hyblyg yn yr Ardal, ac roedd mwy o staff o'r farn bod gweithio hyblyg yn cael ei reoli'n dda. Mae'r ABM yn awdurdodi pob cais am batrwm gweithio newydd i sicrhau na fydd yn tarfu ar eraill nac anghenion busnes.

# 11 Arwain a rheoli

| | |
|---|---|
| **OPA 2007** | **Gweddol** |
| **AEI 2010** | **Gweddol** |
| **Cyfeiriad teithio** | **Sefydlog** |

**11.1** Er mwyn sicrhau gwasanaeth o safon, mae angen arweinwyr cryf a phenodol, a gefnogir gan reolwyr sy'n cyfleu'r negeseuon allweddol i staff, sy'n cymryd perchenogaeth dros weledigaeth a gwerthoedd y sefydliad ac yn gweithio'n unigol ac ar y cyd â'r nod o'u cyflawni. Yn fewnol, dylai'r uwch dîm rheoli fod yn ennyn parch ei staff ac yn gwerthfawrogi cyfraniad ei chyflogeion. Yn allanol, dylai cenhadon y sefydliad ar bob lefel ennyn hyder a chydweithrediad ei phartneriaid cyfiawnder troseddol i sicrhau'r manteision llawn sy'n deillio o gydweithio.

**11.2** Mae asesiad o berfformiad yn ystyried effeithiolrwydd o ran strwythurau, diben a chynllunio a ddefnyddir i weithredu blaenoriaethau a dulliau rheoli newid yr Ardal, perchenogaeth a chorfforaetholdeb y rheini sy'n cyflawni'r gwaith a phroffil yr Ardal ymhlith ei phartneriaid cyfiawnder troseddol. Yn ogystal â hynny, rydym yn gwneud sylwadau byr ar foeseg, ymddygiad a gwerthoedd yr Ardal.

## Strwythurau, diben a chynllunio

**11.3** Mae'r Ardal yn rhan o Grŵp Ardaloedd CPS Cymru. CCP De Cymru yw Cadeirydd Grŵp Cymru, ac mae'n pennu gweledigaeth a blaenoriaethau'r Grŵp. Daw amcanion busnes yr Ardal o gynllun busnes y Grŵp ac fe'u cyfleuwyd i'r rheolwyr mewn cynhadledd arwain ar ffurf cynllun cyflawni, sy'n nodi cyfrifoldeb am gyflawni'r amcanion. Seiliwyd y cynllun cyflawni drafft ar gyfer 2010-11 ar y ddau darged cenedlaethol sy'n weddill; sef darparu gwasanaeth o safon drwy'r safonau ansawdd craidd (CQS), a gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Uwch erlynwyr y Goron rhanbarthol (SDCPs) sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â'r amcanion ar lefel rhanbarth a hwy sy'n atebol am ddarpariaeth, rheolaeth a phartneriaethau lleol.

**11.4** Gwelodd ymchwilwyr bod gan y tri rhanbarth gryn dipyn o annibyniaeth, gan olygu eu bod yn datblygu systemau, prosesau a gweithdrefnau gwahanol. Roedd hefyd lefel o annibyniaeth yn y ffordd roedd pob rhanbarth wedi rhoi mentrau allweddol ar waith, er enghraifft yr uned OBM yng Nghaerdydd, lle roedd y trefniadau staffio a rheoli yn wahanol i'r ddwy uned OBM arall. Roedd y gwahaniaethau mwyaf yn gysylltiedig â rhaglen newid helaeth yr Ardal lle roedd rhyng-ddibyniaethau yn wan. Roedd yr Ardal yn mynd i'r afael â hyn wrth i'n harchwiliad ddechrau, gan symleiddio'r strwythur, a lleihau nifer y SDCPs o dri i ddau, drwy gyfuno swyddi Caerdydd a Merthyr Tudful. Er bod hyn yn golygu mai un rheolwr rhanbarth sy'n gyfrifol bellach am ddwy ran o dair o waith yr Ardal, rhagwelir y daw manteision yn sgîl hyn megis gwell hyblygrwydd o ran adnoddau a mwy o gysondeb o ran systemau a phrosesau ledled yr Ardal.

**11.5** Dylai pob aelod o staff fod yn cael adolygiad diwedd y flwyddyn a gynhelir gan ei reolwr llinell a dylai gytuno ar gynllun datblygu personol (PDP) ar gyfer y 12 mis nesaf. Er bod angen cynnal rhai o hyd, roedd y rhan fwyaf o adolygiadau wedi'u cwblhau ac ymgorfforwyd y PDPs unigol mewn strategaeth hyfforddiant ar gyfer yr Ardal. Mae'r rhan fwyaf o staff yn ymwybodol o'u rolau ac yn

sicr yn ymfalchïo yn eu gwaith, ond byddai'n fuddiol pe bai ganddynt ddealltwriaeth well o'r ffordd y mae eu hamcanion personol yn cyd-fynd â rhai'r Ardal. I ormod ohonynt, dim ond ymwybyddiaeth o'r angen i arbed arian a geir, yn hytrach na dealltwriaeth o gyfeiriad yr Ardal.

**11.6** Mae dulliau rheoli'r Ardal yn dibynnu gormod ar ddefnyddio negeseuon e-bost a bwletinau amhersonol i gyfleu negeseuon allweddol. Mae hyn yn gwneud i staff deimlo'n fwy ynysig ac mae'n helpu i gynyddu pryderon ac ofnau gwirioneddol am faterion megis y llwyth gwaith a diogelwch swyddi, materion nad oeddent yn cael eu trin yn briodol ym marn staff.

### Argymhelliad â blaenoriaeth

Mae angen i'r Ardal ymgysylltu'n fwy effeithiol â staff ym mhob rhan o'r Ardal er mwyn sicrhau ei bod:

- yn cyfleu negeseuon a blaenoriaethau allweddol yn glir ac yn dryloyw;
- yn mabwysiadu ethos cynhwysol er mwyn i'r holl staff deimlo eu bod yn cael cyfle i gyfrannu at y broses o newid.

## Rheoli newid

**11.7** Mae'r Ardal wedi rhoi nifer fawr o fentrau newid lleol a chenedlaethol ar waith, ac mae'n parhau i wneud hynny. Cyflwynwyd y rhain â chanlyniadau cymysg, ac roedd p'un ai a lwyddwyd ai peidio yn dibynnu'n fawr ar effeithiolrwydd a gallu rhanbarthau unigol i'w gweithredu. Gyda mwy o gydlyniant, a chyfarwyddo a rheoli tynnach ledled yr Ardal, gellid bod wedi sefydlu amcanion y rhaglen newid yn fwy cadarn. Rhaid i'r Ardal sicrhau nad yw ei strwythurau rheoli yn cyfrannu at ddiffyg ysgogiad wrth roi rhaglenni newid ar waith.

**11.8** Nid yw timau gweithredu lleol (LIT) wedi cynnal deialog dwyffordd yn gyson, a chafwyd cwynion gan staff am y diffyg cyfle i gyfrannu mewn modd ystyrlon wrth wneud penderfyniadau neu bennu'r ffordd orau o gyflwyno newidiadau. Am fod staff yn ymddieithrio o'r rhaglen newid cafwyd diffyg perchenogaeth ohoni, a rhywfaint o ddifaterwch a gwrthwynebiad, sydd wedi ailgodi rhai materion diwylliannol hirsefydlog, gan atal unrhyw gynnydd pellach.

### Argymhelliad

Rhaid rheoli prosiect mewn modd cadarn, gan gynnal asesiadau risg realistig, nodi cerrig milltir y gellir eu cyflawni a monitro a chyfleu cynnydd.

**11.9** Datblygwyd dull rhanbarthol o ddarparu hyfforddiant ledled yr Ardal a darperir lle i'r rhai sydd ei angen i gyflawni eu swyddi. Mae hyn yn sicrhau gwerth am arian, ond mae'n golygu bod llai o gyfle i rai eraill i wella eu datblygiad personol. Er gwaethaf hyn, cafwyd darlun llawer gwell o ran dysgu a datblygu yn arolwg staff 2009, a gwelwyd y bu'r hyfforddiant penodol a gafodd rheolwyr Ardal yn effeithiol, gyda mwy o staff yn teimlo bellach yr eir i'r afael â pherfformiad gwael.

## Perchenogaeth a chorfforaetholdeb

**11.10** Ar adeg yr archwiliad, roedd CCP De Cymru wedi bod yn y swydd am chwe blynedd, ers 2004. Ar adegau amrywiol yn ystod y cyfnod hwnnw, mae dyletswyddau ychwanegol wedi tynnu sylw'r CCP oddi ar waith yr Ardal, gan rwystro cydlyniant. Mae uwch reolwyr ar lefel Grŵp a lefel Ardal yn gweithio gyda'i gilydd ar y cyd ac mae'r uwch reolwyr gweinyddu

a chyfreithiol yn dangos corfforaetholdeb. Roeddent yn gadarnhaol am strwythur y Grŵp fel cyfrwng effeithiol i hyrwyddo dull gweithredu mwy corfforaethol i sicrhau mwy o effeithlonrwydd ar y cyd ledled yr Ardal. Ar lefel is, gwelwyd rhywfaint o ddiffyg cysylltiad rhwng y sefydliad a'i staff. Ceir ffocws ar faterion lleol ac mae'r rhan fwyaf o staff yn canolbwyntio ar eu maes gwaith hwy eu hunain. Mae unigolion yn gweithio mewn ffordd blwyfol ac maent ond yn ffyddlon i'w cydweithwyr uniongyrchol, y tîm neu'r rhanbarth. Nid oedd llawer yn gwerthfawrogi'r darlun ehangach ac roedd unigolion yn dueddol o beidio ag ystyried materion ehangach.

**11.11** Roedd llawer o staff gweithredol o'r farn nad oedd presenoldeb gweladwy gan dîm rheoli'r Ardal, eu bod yn anodd eu cyrraedd ac nad oeddent yn deall digon am y gwaith i werthfawrogi'r pwysau a wynebir gan gyflogeion o ddydd i ddydd. Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod eu rheolwyr uniongyrchol yn gwneud yr hyn a allent i drosglwyddo eu barn i lefelau uwch yn y gadwyn reoli, ond nad oedd camau penodol yn cael eu cymryd, nac unrhyw bryder yn cael ei fynegi o ganlyniad i hynny.

**11.12** Ar y cyfan, roedd staff yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi rheolwyr lleol, ond yn teimlo bod eu heffeithiolrwydd yn cael ei danseilio oherwydd bod angen iddynt fynd yn rheolaidd i nifer o gyfarfodydd, a bod hyn yn mynd â hwy allan o'r swyddfa yn rhy aml ac yn tynnu eu sylw oddi ar y busnes craidd.

## Proffil yr Ardal ymysg partneriaid cyfiawnder troseddol

**11.13** Mae lleoleiddio yn gyffredin yn y rhanbarthau. Gwaethygir hyn drwy ddiffyg cyfathrebu rhwng staff rheng flaen a rheolwyr canol sy'n gwneud swyddi tebyg ledled yr Ardal. Fodd bynnag, mae'r cysylltiadau allanol â phartneriaid cyfiawnder troseddol ar lefel rhanbarth yn gryfach a cheir rhai cydberthnasau da, gan arwain at enghreifftiau o gydweithio cynhyrchiol ac arfer da, megis y timau cyfiawnder cymunedol newydd a'r cyfarfodydd datblygu achosion ar y cyd a gynhelir yn Abertawe.

| Cryfder |
|---|
| Y cyfarfodydd datblygu achosion ar y cyd a gynhelir gan ranbarth Abertawe. |

**11.14** Bu 2009-10 yn drobwynt o ran gweithio mewn partneriaeth â Llys y Goron, gyda'r Ardal o'r diwedd yn colli ymddiriedaeth y farnwriaeth ar lefel uwch yng Nghaerdydd. Rhoddwyd cydberthnasau â'r farnwriaeth a'r ynadaeth dan straen am fod achosion yn cael eu paratoi'n hwyr ac yn wael. Fodd bynnag, mae cydweithio â'r heddlu wedi gwneud cynnydd ar lefel reoli, ond effeithir arno ar lefel ymarferol o hyd gan rwystrau i'r broses gwella perfformiad effeithiol. Mae angen sicrhau ethos 'tîm erlyn' cryfach, a dileu'r hyn sy'n weddill o'r diwylliant o fwrw bai a fu cyn y gellir cyflawni gwelliannau.

**11.15** Mae datblygiadau diweddar wedi dangos ymrwymiad yr Ardal a'i hagwedd benderfynol at wella ei sefyllfa a'i statws ym maes cyfiawnder troseddol. Penodwyd CCP newydd, a Chadeirydd Grŵp Ardaloedd CPS Cymru, yn ystod ein harchwiliad. Mae'r CCP newydd a'r uwch dîm rheoli wedi cymryd camau i sicrhau y gellir canolbwyntio bellach ar ansawdd y busnes craidd a'r gwasanaethau a ddarperir, gyda chefnogaeth rheolwyr Ardal effeithiol sy'n ymrwymedig i reoli perfformiad unigol, yn seiliedig ar weithredu Safonau Ansawdd Craidd (CQS) cenedlaethol y CPS.

## Moeseg, ymddygiad a gwerthoedd

**11.16** Mae staff yn teimlo na chafodd perfformiad da bob amser ei gydnabod yn gyson, a phrin oedd y ganmoliaeth a roddwyd gan uwch reolwyr i staff. Ar lefel leol, roedd rhai rheolwyr yn cydnabod gwaith da, ond roedd hyn yn dibynnu ar yr unigolion dan sylw. Ar y cyfan, roedd staff cymorth yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod yn fwy na chyfreithwyr neu erlynwyr cyswllt, a oedd yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod yn well gan yr heddlu a staff y llys. Roedd ymdeimlad cryf o ysbryd tîm ymhlith staff, sy'n gwerthfawrogi diolch a chanmoliaeth gan eu cydweithwyr.

**11.17** Nododd yr OPA yn 2007 rai pryderon a godwyd mewn arolwg ynghylch y rhaglen 'urddas yn y gwaith'. Ers hynny, rhoddwyd mesurau ar waith a darparwyd hyfforddiant gan swyddog cydraddoldeb ac amrywiaeth y Grŵp, ac mae hyn wedi gwella'r sefyllfa.

**11.18** Ar y cyfan, mae cyfansoddiad y staff yn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir. Mae'r Ardal wedi cymryd camau cadarnhaol i helpu i ymdrin â thangynrychiolaeth ar lefel cyfreithwyr.

# 12 Gweithio mewn partneriaeth a hyder y gymuned

| | |
|---|---|
| **OPA 2007** | **Da** |
| **AEI 2010** | **Da** |
| **Direction of travel** | **Wedi gwella[6]** |

**12.1** Mae angen i'r CPS ymgysylltu â chymunedau fel y gall fod yn ymwybodol o bryderon lleol a gwneud penderfyniadau erlyn hyddysg. Dylai hefyd ymdrin yn brydlon ac yn agored ag unrhyw gwynion ynghylch y penderfyniadau hyn neu lefel y gwasanaethau a ddarperir.

**12.2** Mae asesiad o berfformiad yn ystyried effeithiolrwydd prosesau cynllunio, trefnu a darparu'r gwaith o ymgysylltu â chymunedau, ac i ba raddau y caiff adborth cymunedau ei ymgorffori mewn rhaglenni gwella perfformiad. Caiff hyder y gymuned ei fonitro drwy Arolwg Troseddu Prydain, ond mae'r mesur hwn mor eang fel na ellir gwahanu cyfraniad y CPS oddi wrth effaith gyfunol pob asiantaeth cyfiawnder troseddol ar y cyd.

**12.3** Ar y cyfan, ceir lefel da o ymgysylltiad yn yr Ardal, ac mae wedi mynd ati i feithrin cysylltiadau ag amrywiaeth ehangach o gymunedau. Mae angen gwneud mwy o waith i gynnwys adborth cymunedau yn rhaglenni newid yr Ardal.

## Cynllunio gwaith ymgysylltu â chymunedau

**12.4** Mae cynlluniau datblygu personol uwch reolwyr yn yr Ardal yn nodi'r amcan personol i gynnal gweithgareddau ymgysylltu â chymunedau ac maent yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu â chymunedau. Rheolwr Busnes yr Ardal (ABM) sy'n gyfrifol am ymgysylltu â chymunedau ac mae rheolwyr ar bob lefel yn rhan weithredol o gynlluniau cyfiawnder troseddol lleol. Mae modd i'r Ardal ddefnyddio rheolwr cydraddoldeb, amrywiaeth ac ymgysylltu â chymunedau'r Grŵp i hwyluso'r gwaith o ymgysylltu â rhai grwpiau lleiafrifol yn yr Ardal.

**12.5** Mae gweithgareddau ymgysylltu â chymunedau wedi'u cynnwys yng nghynllun cyflawni busnes yr Ardal. Yn ôl cofnodion yr Ardal mae'n ymddangos bod lefel a natur y gweithgarwch ymgysylltu yn dda, ac er bod llawer ohono o hyd yn ymwneud ag ysgolion a sefydliadau ieuenctid lleol, mae wedi ymestyn bellach i adlewyrchu rhannau mwy amrywiol o'r gymuned. Mae asesiad o ymgysylltu â chymunedau a gynhaliwyd yn ddiweddar gan gynghorydd perfformiad strategol y CPS wedi canmol yr Ardal am ei pherfformiad da yn ystod y flwyddyn a nodi ei bod wedi dangos arfer da o ran gweithgarwch ymgysylltu â chymunedau.

## Adborth cymunedau

**12.6** Mae panel craffu ar droseddau casineb (HCSP) ar waith yn yr Ardal sy'n cyfarfod fesul chwarter i adolygu achosion yn fanwl, gan edrych ar arnodiadau ar ffeiliau, canlyniadau a'r penderfyniadau a wnaed. Yn dilyn adolygiad mewnol, aeth yr Ardal ati i flaenoriaethu gwaith gyda chymunedau lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT), a chymunedau anabl. Mae hyn wedi llwyddo i raddau wrth i erlyniadau ar gyfer troseddau casineb trawsffobig, homoffobig a throseddau casineb o ran anabledd gynyddu ac mae nifer y canlyniadau aflwyddiannus wedi lleihau.

6 Mae'r sgorau'n adlewyrchu'r perfformiad o ran gweithio mewn partneriaeth a hyder y gymuned; fodd bynnag, yn yr adroddiad hwn, roedd yn briodol cynnwys cydberthnasau â phartneriaid yn y bennod arwain lle ceir cryn dipyn o orgyffwrdd.

**12.7** Mae'r Ardal wedi gwella ei phroffil o ran ymgysylltu â chymunedau yn ystod y flwyddyn ac mae bellach yn ymgysylltu ag amrywiaeth ehangach o grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau cymunedol mwy amrywiol. Mae'r Ardal hefyd wedi cyflawni rhai gwelliannau i'r gwasanaeth o ganlyniad i hyn. Wrth symud ymlaen yn hyn o beth, fel y nododd yr adroddiad diweddar, bydd angen i'r Ardal ystyried p'un a all chwarae rhan ragweithiol wrth arwain gweithgareddau ymgysylltu â chymunedau ai peidio, a dylai hefyd sicrhau bod unrhyw systemau i gofnodi adborth cymunedau yn effeithiol.

## Trefniadaeth a darpariaeth

**12.8** Tua diwedd 2009, cyflwynwyd dau ddatblygiad â'r nod o atgyfnerthu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau rheng flaen. Ym mis Tachwedd, cyflwynodd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol De Cymru grwpiau cyfiawnder troseddol rhanbarth amlasiantaethol (DCJGs) i ganolbwyntio mwy ar faterion lleol ac ym mis Hydref, crëwyd timau cyfiawnder cymunedol rhanbarthol (CJTs) i wella ymgysylltiad rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol a phartneriaethau diogelwch cymunedol a sefydliadau cymorth. Cyflwynwyd y rhain mewn ymateb i Bapur Gwyrdd y Llywodraeth a lansiwyd ym mis Ebrill 2009. Mae cynrychiolwyr y CJTs yn cyfarfod bob dau fis ac yn atebol i'r DCJGs newydd. Mae'r system hon yn cynnig ffordd o ymgorffori pryderon lleol yn strategaeth yr Ardal.

**12.9** Mae gan bob dosbarth erlynydd cymunedol penodedig sy'n cynrychioli'r CPS yn ei bartneriaeth diogelwch cymunedol lleol ac sy'n rhan o dîm cyfiawnder troseddol y rhanbarth i sicrhau y caiff pryderon lleol eu nodi ac y caiff camau eu cymryd. Maent hefyd yn cymryd cyfrifoldeb arweiniol am lysoedd arbenigol yr Ardal ar gyfer trais yn y cartref.

# Adran dau: atodiadau

## A Diben a gwerthoedd HMCPSI

Sefydlwyd Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMCPSI) gan Ddeddf Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron 2000 fel corff statudol annibynnol. Ei nod yw gwella ansawdd cyfiawnder drwy broses arolygu annibynnol a rhoi sicrwydd i Weinidogion, y llywodraeth a'r cyhoedd.

Penodir y Prif Arolygydd gan y Twrnai Cyffredinol ac mae HMCPSI yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y CPS ei hun, ac arolygiaethau eraill. Mae timau arolygu yn cynnwys arolygwyr cyfreithiol ac arolygwyr rheoli busnes a gwirfoddolwyr profiadol hefyd, a all gyfrannu elfen 'lleyg' at y broses ac sy'n barod i roi o'u hamser. Mae'r Prif Arolygydd yn ddiolchgar iawn am y gwasanaeth hwn.

Mae adroddiadau'r arolygiaeth yn gwneud argymhellion â blaenoriaeth ac argymhellion eraill, yn nodi materion cydymffurfio a hefyd yn nodi unrhyw gryfderau ac arfer da a welwyd gan y tîm. Yna caiff cynnydd yn unol â'r argymhellion ei fonitro a'i fesur, gan osod sail ar gyfer arolygiad dilynol. Mae pob un o'n hadroddiadau ar gael ar ein gwefan: www.hmcpsi.gov.uk.

### Diben

Diben HMCPSI yw gwella ansawdd cyfiawnder drwy broses arolygu ac asesu annibynnol sy'n gwella effeithiolrwydd gwasanaethau erlyn, ac yn rhoi sicrwydd i Weinidogion, y llywodraeth a'r cyhoedd. Er mwyn cyflawni hyn, rydym am fod yn sefydliad sy'n:

- cyrraedd y safonau uchaf posibl;
- ennyn balchder;
- ennyn parch;
- gweithio mewn partneriaeth ag arolygiaethau ac asiantaethau eraill ym maes cyfiawnder troseddol ond heb beryglu ei annibyniaeth gadarn;
- gwerthfawrogi pob aelod o'i staff;
- ceisio cyflwyno gwelliannau parhaus.

### Cenhadaeth

Mae HMCPSI yn ceisio sicrhau rhagoriaeth ym mhob agwedd ar ei gweithgareddau ac yn benodol roi prosesau arolygu a gwerthuso cyson a phroffesiynol ar waith i gwsmeriaid a rhanddeiliaid, ynghyd â chyngor a chyfarwyddyd, y caiff pob un ohonynt eu mesur yn erbyn safonau ansawdd cydnabyddedig a lefelau perfformiad diffiniedig.

## Gwerthoedd

Rydym yn ceisio cadw at ein gwerthoedd, fel y'u diffinnir isod, ym mhopeth a wnawn:

| Cysondeb |
| --- |
| Mabwysiadu'r un egwyddorion a gweithdrefnau craidd ar gyfer pob arolygiad, a chymhwyso'r un safonau a meini prawf i'r dystiolaeth a gasglwn. |

| Trylwyredd |
| --- |
| Sicrhau bod ein penderfyniadau a'n canfyddiadau yn seiliedig ar wybodaeth yr ymchwiliwydiddi'n drwyadl ac sydd wedi'i chadarnhau, gyda thrywydd archwilio priodol. |

| Uniondeb |
| --- |
| Dangos uniondeb ym mhopeth a wnawn drwy gymhwyso ein gwerthoedd eraill. |

| Proffesiynoldeb |
| --- |
| Dangos y safonau uchaf o ran cymhwysedd proffesiynol, cwrteisi ac ystyriaeth ym mhob agwedd ar ein hymddygiad. |

| Gwrthrychedd |
| --- |
| Cynnal pob arolygiad gyda meddwl agored. Ni fyddwn yn caniatáu i farn bersonol ddylanwadu ar ein canfyddiadau. Byddwn yn cyflwyno adroddiadau ar faterion fel y maent. |

Gyda'i gilydd, mae hyn yn golygu'r canlynol: Rydym yn dangos uniondeb, gwrthrychedd a phroffesiynoldeb ar bob adeg ac ym mhob agwedd ar ein gwaith ac mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar wybodaeth yr ymchwiliwyd iddi'n drwyadl, sydd wedi'i chadarnhau a'i gwerthuso yn unol â safonau a meini prawf cyson.

# B Rhestr termau

**Achos anffafriol**
*NCTA*, *JOA*, *JDA* (gweler diffiniadau ar wahân) neu un lle y mae'r ynadon yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i draddodi achos neillffordd i Lys y Goron.

**Adolygu, *treial cychwynnol*, *treial parhaus*, *treial diannod ac ati***
Y broses lle y mae un o erlynwyr y goron yn penderfynu bod achos a gafwyd gan yr heddlu yn bodloni ac yn parhau i fodloni'r prawf cyfreithiol ar gyfer erlyn yn y *Cod*. Un o swyddogaethau pwysicaf y CPS.

**Adran 51 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998**
Gweithdrefn ar gyfer rhoi achosion ditiol yn unig ar y trywydd cyflym i Lys y Goron, sydd bellach yn ymdrin ag achosion o'r fath o gam cynnar iawn - anfonir y diffynnydd i Lys y Goron gan yr ynadon.

**Asesiad cyffredinol o berfformiad (OPA)**
Asesiad a gynhelir ar lefel ardal gan yr Arolygiaeth sy'n graddio perfformiad cyffredinol. Rhoddir sgôr i bob agwedd ar berfformiad a gwneir asesiad cyffredinol. Cynhaliwyd yr asesiadau hyn yn 2005 a 2007.

**Asiant**
Cyfreithiwr neu fargyfreithiwr na chyflogir yn uniongyrchol gan y CPS a gyfarwyddir ganddo, fel arfer fesul sesiwn, i gynrychioli'r erlyniad yn y llysoedd ynadon.

**Bwrdd cyfiawnder troseddol lleol**
Prif Swyddogion yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y llysoedd a'r CPS, llywodraethwr carchar lleol a rheolwr y tîm troseddau ieuenctid ym mhob ardal cyfiawnder troseddol sy'n atebol i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol am gyflawni targedau'r Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus (PSA).

**Cam budd y cyhoedd**
Yr ail gam o dan brawf y *Cod* - a yw erlyn y diffynnydd hwn ar y cyhuddiad hwn er budd y cyhoedd?

**Cam tystiolaethol**
Y cam cychwynnol o dan brawf y *Cod* - a oes digon o dystiolaeth i sicrhau tebygolrwydd realistig y ceir collfarn?

**Canllawiau'r Cyfarwyddwr ar y Broses Symlach (DGSP)**
Darpariaethau y cytunwyd arnynt rhwng y CPS a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) mewn perthynas â symleiddio rhai o ffeiliau achos penodol yr erlyniad, lle y caiff swm cyfyngedig o wybodaeth a thystiolaeth ei gynnwys i ddechrau pan fydd disgwyl i'r diffynnydd bledio'n euog.

**Canolfan gweithrediadau grŵp (GOC)**
Uned o fewn y grŵp (cyfuniad o nifer o ardaloedd y CPS) sy'n gyfrifol am ymdrin ag agweddau penodol ar y busnes ar ran ardaloedd, er enghraifft, rheoli a monitro perfformiad, cydraddoldeb ac amrywiaeth.

**Cod Erlynwyr y Goron (y Cod)**
Y ddogfen gyhoeddus sy'n nodi'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau erlyn. Mae gan erlynwyr y goron bŵer y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i benderfynu ar yr achosion a ddirprwyir, ond mae'n rhaid iddynt arfer y pŵer hwnnw yn unol â'r Cod a'i brawf dau gam - y cam tystiolaethol a'r cam budd y cyhoedd. Dim ond, yn gyntaf, os oes digon o dystiolaeth er mwyn sicrhau tebygolrwydd realistig y ceir collfarn ac, yn ail, os oes angen yr erlyniad er budd y cyhoedd y dylai achosion fynd rhagddynt (gweler hefyd *Prawf trothwy*).

**Compass CMS**
System TG ar gyfer olrhain a rheoli achosion a ddefnyddir gan y CPS. Compass yw'r system gynhwysfawr newydd a ddefnyddir ym mhob ardal.

**CPS Direct**
Cynllun yw hwn i ategu'r cyngor a roddir mewn ardaloedd i'r heddlu a'r prosesau gwneud penderfyniadau o ran cyhuddo o dan y *cynllun cyhuddo*. Mae cyfreithwyr ar gael ar un rhif ffôn cenedlaethol y tu allan i oriau swyddfa arferol er mwyn sicrhau y gellir cael cyngor ar unrhyw adeg. Mae ar gael i bob ardal.

**Cyfarwyddiadau i'r cwnsler**
Y papurau a gaiff eu rhoi i'r cwnsler sy'n nodi hanes achos a sut y dylid ymdrin ag ef yn y llys, ynghyd ag adroddiadau achos. Cyfeirir atynt weithiau fel y brîff i'r cwnsler.

**Cyfiawnder Troseddol: Syml, Cyflym, Diannod (CJSSS)**
Menter sy'n cyflwyno ffyrdd mwy effeithlon o weithio ym mhob rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol, ynghyd â'r farnwriaeth, er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag achosion a gyflwynir i'r llysoedd ynadon yn gyflymach. Yn arbennig, mae'n anelu at leihau nifer y gwrandawiadau mewn achos a'r cyfnod rhwng cyhuddo a chwblhau'r achos.

**Dim achos i'w ateb (NCTA)**
Lle y mae ynadon yn gwrthod achos ar ddiwedd tystiolaeth yr erlyniad am nad ydynt o'r farn bod yr erlyniad wedi cyflwyno achos i'r diffynnydd ei ateb.

**Dirwyn i ben**
Lle caiff achos ei ollwng gan y CPS yn y llysoedd ynadon, boed drwy hysbysiad ysgrifenedig (o dan adran 23 Deddf Erlyn Troseddau 1985), camau i'w dynnu'n ôl neu gyflwyno cynnig o ddim tystiolaeth yn y llys.

**Eiriolwr y goron (CAs)**
Cyfreithiwr a gyflogir gan y CPS sydd â hawl gwrandawiad yn Llys y Goron.

**Erlynydd cyswllt**
Uwch weithiwr achos (lefel B2) sydd wedi'i hyfforddi i gyflwyno achosion syml lle y bydd y diffynnydd yn pledio'n euog, neu eu profi lle nad yw'r diffynnydd yn bresennol yn y llys ynadon. Ehangwyd y rôl hon a bydd yn cynnwys treialon ar gyfer troseddau lle na ellir carcharu'r diffynnydd.

**Gweithiwr achos**
Aelod o staff y CPS sy'n ymdrin â'r ffordd y cynhelir achos yr erlyniad o ddydd i ddydd neu sy'n rheoli hynny o dan oruchwyliaeth un o erlynwyr y goron ac, yn Llys y Goron, sy'n mynd i'r llys i helpu'r eiriolwr.

**Perfformiad yn erbyn targedau**
Mesurau o berfformiad yn erbyn targedau a bennir yn genedlaethol ac yn lleol i ategu amcanion y CPS.

**Prawf trothwy**
Mae *Cod Erlynwyr y Goron* yn darparu, lle nad yw'n briodol rhyddhau diffynnydd ar fechnïaeth ar ôl ei gyhuddo, ond nad yw'r dystiolaeth i gymhwyso prawf llawn y Cod ar gael eto, y dylid cymhwyso'r prawf trothwy. Er mwyn bodloni'r prawf, mae'n rhaid bod o leiaf amheuaeth resymol bod yr un a ddrwgdybir wedi cyflawni trosedd, a'i fod er budd y cyhoedd i gyhuddo'r un a ddrwgdybir. Mae'n rhaid ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys tebygolrwydd a natur tystiolaeth bellach a geir.

**Rheoli perfformiad tîm yr erlyniad (PTPM)**
Dadansoddiad ar y cyd o berfformiad gan y CPS a'r heddlu yn lleol – fe'i defnyddir i ystyried canlyniadau prosesau cyhuddo a phrosesau eraill ar y cyd.

**Rhyddfarn dan gyfarwyddyd barnwr (JDA)**
Pan fydd y barnwr yn cyfarwyddo rheithgor i ddyfarnu diffynnydd yn ddieuog ar ôl i'r treial ddechrau.

**Rhyddfarn dan orchymyn barnwr (JOA)**
Pan fydd y barnwr yn gwrthod achos am nad yw'r erlyniad yn cynnig tystiolaeth cyn ffurfio rheithgor.

**Safonau gwasanaeth y Bar/CPS**
Safonau y cytunwyd arnynt ar y cyd sy'n nodi'r hyn a ddisgwylir o ran perfformiad gan y Bar a'r CPS yn y ffordd y byddant yn ymdrin â'i gilydd.

Mae *Safon 1* (Awst 1994) yn ei gwneud yn ofynnol i'r CPS roi brîff i'r cwnsler o fewn 14 diwrnod o'r traddodiad mewn achosion ffi safonol ac o fewn 21 diwrnod mewn achosion sy'n cynnwys treialon o dridiau neu fwy a phleon euog ar gyfer troseddau difrifol.

Mae *Safon 2* (Awst 1994) yn nodi y bydd y cwnsler, ar ôl darllen ac ystyried y papurau, yn rhoi cyngor ysgrifenedig, lle y bo'r angen, ar unrhyw fater lle y mae angen cyngor.

Mae *Safon 3* (Hydref 1996) yn ymwneud â briffiau a gaiff eu dychwelyd ac mae wedi'i chynllunio i leihau nifer y briffiau a ddychwelir ac unrhyw effaith anffafriol a allai ddigwydd o ganlyniad i ddychwelyd brîff.

Mae *Safon 4* (Hydref 1996) yn ymdrin â chwnsleriaid yn hawlio ffioedd yn amserol ar ddiwedd achos, a'r broses o dalu'r ffioedd hynny'n amserol.

**Traddodi**
Gweithdrefn lle y caiff diffynnydd mewn achos neillffordd ei symud o'r llys ynadon i Lys y Goron i sefyll prawf, fel arfer ar ôl i'r erlyniad gyflwyno tystiolaeth i'r amddiffyniad, ond o bryd i'w gilydd ar ôl i'r ynadon ystyried y dystiolaeth.

**Treial aneffeithiol**
Achos a restrir ar gyfer treial a ymleddir na all fynd rhagddo pan fwriadwyd iddo ddechrau, am amrywiaeth o resymau posibl, ac a gaiff ei ohirio tan ddyddiad diweddarach.

**Treial chwâl**
Achos a restrir ar gyfer achos a ymleddir nad yw'n mynd rhagddo, naill ai am fod y diffynnydd yn newid ei ble i euog, neu'n pledio i gyhuddiad amgen, neu nad yw'r erlyniad yn cynnig unrhyw dystiolaeth.

**Troseddau diannod**
Y troseddau hynny y gellir rhoi rhywun ar brawf amdanynt yn y llysoedd ynadon yn unig, ee y troseddau moduro mwyaf difrifol, ymosod cyffredin ac ati.

**Y model busnes gorau (OBM)**
System o brosesau sydd ar waith yn y CPS i sicrhau bod achosion yn y llysoedd ynadon yn cael sylw ac yn cael eu datblygu mewn ffordd systemataidd.

# C Data o waith archwilio ffeiliau CPS De Cymru a chymariaethau â pherfformiad cenedlaethol

## Pennod 1: Cyngor a phenderfyniadau cyn-cyhuddo

**Ansawdd dogfennaeth MG3**

| | Ardderchog | Da | Gweddol | Gwael | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyffredinol | 2 (2.9%) | 17 (24.3%) | 24 (34.3%) | 27 (38.5%) | 70 |

**Ansawdd y gwaith o roi cyngor a gwneud penderfyniadau ar y cam cyn-cyhuddo**

| Achosion PCD - cyngor ac adolygu | Perfformiad yr Ardal |
|---|---|
| Achosion lle y cymhwyswyd y prawf trothwy yn gywir | 70.0% |
| Achosion lle y cymhwyswyd cam tystiolaethol prawf llawn y Cod yn gywir ar y cam PCD | 90.9% |
| Achosion lle y cymhwyswyd cam budd y cyhoedd prawf llawn y Cod yn gywir ar y cam PCD | 96.7% |
| Achosion lle y cynghorwyd y cyhuddiadau mwyaf priodol ar y cam PCD | 82.9% |
| Achosion lle roedd y cyngor cyhuddo'n cwmpasu pob mater atodol yn ddigonol | 38.5% |
| Achosion lle roedd gofynion y cynllun gweithredu'n bodloni'r safon | 42.9% |
| Achosion lle roedd y cyngor cyhuddo'n nodi'n glir y cyfarwyddiadau angenrheidiol i'r erlynydd yn y llys | 33.3% |

**Gwireddu buddiannau**

| Gwireddu buddiannau<br>Perfformiad | 2008-09 Ardal | Cenedlaethol | 2009-10 Ardal | Cenedlaethol |
|---|---|---|---|---|
| **Achosion yn y llysoedd ynadon** | | | | |
| Dirwyn i ben | 15.1% | 13.1% | 15.4% | 14.5% |
| Pledio'n euog | 72.6% | 74.4% | 71.5% | 72.3% |
| Athreulio | 20.6% | 19.2% | 22.0% | 21.0% |
| **Achosion yn Llys y Goron** | | | | |
| Dirwyn i ben | 10.7% | 11.7% | 11.4% | 11.7% |
| Pledio'n euog | 75.7% | 72.9% | 76.5% | 73.1% |
| Athreulio | 18.7% | 19.4% | 19.1% | 19.5% |

## Pennod 2: Gwneud penderfyniadau, paratoi a datblygu mewn achosion yn y llysoedd ynadon

**Canlyniadau achosion yn y llysoedd ynadon**

| Perfformiad | OPA yr Ardal 2007 | Cenedlaethol 2008-09 | Ardal 2008-09 | Cenedlaethol 2009-10 | Ardal 2009-10 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dirwyn i ben a rhwymo | 12.6% | 8.7% | 10.9% | 9.0% | 10.3% |
| Dim achos i'w ateb | 0.1% | 0.2% | 0.1% | 0.2% | 0.1% |
| Gwrthodwyd ar ôl treial | 1.4% | 2.0% | 1.6% | 2.3% | 1.8% |
| Traddodebau a ryddhawyd | 0.3% | 0.2% | 0.4% | 0.3% | 0.7% |
| Gwarantau | 4.2% | 1.6% | 2.5% | 1.4% | 1.8% |
| Cyfradd gollfarnu gyffredinol | 81.4% | 87.3% | 84.6% | 86.8% | 85.3% |

**Archwilio ffeiliau**

Archwiliwyd 37 o ffeiliau achos llysoedd ynadon o'r ardal a nodir ein canfyddiadau yn y tabl isod.

| Gwaith achos yn y llysoedd ynadon a'r llysoedd ieuenctid | Perfformiad yr Ardal |
|---|---|
| Achosion a aeth i dreial neu lle cafwyd ple euog ar y lefel gywir o gyhuddiad | 90.6% |
| Cafodd yr achos ei ddirwyn i ben yn amserol | 45.5% |
| Penderfyniadau i ddirwyn i ben yn cydymffurfio â cham tystiolaethol prawf y Cod | 100% |
| Penderfyniadau i ddirwyn i ben yn cydymffurfio â cham budd y cyhoedd prawf y Cod | 100% |
| Penderfyniadau i gynnal treial yn cydymffurfio â'r prawf tystiolaethol | 91.7% |
| Penderfyniadau i gynnal treial yn cydymffurfio â phrawf budd y cyhoedd | 95.2% |
| Achosion lle y cynhaliwyd adolygiad o dreial diannod wedi'i gofnodi'n briodol | 60.0% |
| Achosion lle roedd pob agwedd ar y gwaith o baratoi'r achos yn amserol | 21.2% |
| Achosion lle cwblhawyd pob cyfarwyddyd rhwng y gwrandawiad cyntaf a'r treial yn amserol | 35.0% |
| Ceisiadau a wnaed ac a roddwyd ar waith o fewn terfynau amser | 40.0% |
| Canlyniadau anffafriol y gellid bod wedi'u hosgoi drwy baratoi'r achos yn well | 8.3% |

**Treialon chwâl ac aneffeithiol**

| Cyfradd treialon | AEI 2006 Ardal | 2009-10 Ardal | Cenedlaethol |
|---|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 44.0% | 40.4% | 43.7% |
| Cyfradd treialon chwâl | 42.5% | 46.3% | 37.7% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 13.5% | 13.3% | 18.6% |
| Cyfradd treialon a ddirymwyd | 22.5% | 27.9% | 21.9% |

## Pennod 3: Gwneud penderfyniadau, paratoi a datblygu mewn achosion yn Llys y Goron

**Canlyniadau achosion yn Llys y Goron**

| Perfformiad | Ardal yr OPA 2007 | Cenedlaethol 2008-09 | Ardal 2008-09 | Cenedlaethol 2009-10 | Ardal 2009-10 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhyddfarnau dan orchymyn barnwr (dirwyn i ben) | 10.7% | 11.7% | 10.2% | 11.7% | 10.9% |
| Rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr | 1.9% | 0.9% | 1.0% | 1.0% | 0.6% |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 7.0% | 5.5% | 6.0% | 5.7% | 5.9% |
| Gwarantau | 1.1% | 1.1% | 0.8% | 1.0% | 0.9% |
| Cyfradd gollfarnu gyffredinol | 78.2% | 80.8% | 82.1% | 80.6% | 81.8% |

**Archwilio ffeiliau**

| Gwaith achos Llys y Goron | Perfformiad yr Ardal |
|---|---|
| Penderfyniadau i barhau adeg traddodi neu gyflwyno papurau yn unol â cham tystiolaethol prawf y Cod | 100% |
| Penderfyniadau i barhau adeg traddodi neu gyflwyno papurau yn unol â cham budd y cyhoedd prawf y Cod | 97.1% |
| Ditiadau a oedd yn briodol ac nad oedd angen eu diwygio | 82.1% |
| Achosion lle y cymerodd yr erlynydd gamau i ddatblygu'r achos yn PCMH | 84.6% |
| Achosion lle y cydymffurfiwyd yn brydlon â chyfarwyddiadau PCMH | 51.6% |
| Ceisiadau a wnaed ac a roddwyd ar waith o fewn terfynau amser | 80.0% |
| Camau gweithredu a gwblhawyd yn brydlon a chydymffurfiaeth brydlon â chyfarwyddiadau rhwng PCMH a dyddiad y treial | 53.6% |
| Achosion lle na chafwyd parhad o ran erlynydd | 90.2% |
| Camau gweithredu a roddwyd ar waith gan y lefel briodol o erlynydd | 87.5% |
| Achosion lle na chafwyd parhad o ran erlynydd | 18.2% (2 allan o 11) |
| Canlyniadau anffafriol y gellid bod wedi'u hosgoi drwy baratoi'r achos yn well | 37.5% (6 allan o 16) |

**Treialon chwâl ac aneffeithiol**

| Cyfradd treialon | Ardal yr OPA 2007 | 2009-10 Ardal | Cenedlaethol |
|---|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 54.6% | 46.8% | 44.9% |
| Cyfradd treialon chwâl | 33.7% | 42.9% | 42.2% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 11.7% | 10.3% | 13.0% |

## Pennod 4: Erlyn achosion yn y llysoedd

### Sylwadau am eiriolaeth

**Safonau eiriolaeth**

| | Lefel | Nifer eiriolwyr/ erlynwyr cyswllt CPS yn y llys ynadon | Nifer asiantau'r cwnsler/ cyfreithiwr yn y llys ynadon | Nifer eiriolwyr y goron ac eiriolwyr eraill y CPS yn Llys y Goron | Nifer y cwnsleriaid yn Llys y Goron |
|---|---|---|---|---|---|
| Aseswyd eu bod uwchlaw'r | 1 | – | – | – | – |
| gofynion cyffredin | 2 | – | – | 1 | 1 |
| Yn erbyn safonau | 3+ | 3 | – | – | 1 |
| eiriolaeth cenedlaethol | 3 | 7 | – | 4 | 7 |
| y CPS | 3- | – | – | 1 | 2 |
| A'r rheini yr aseswyd eu | 4 | 1 | – | 1 | – |
| bod yn llai na chymwys | 5 | – | – | – | – |

Asesiad: 1 = Eithriadol; 2 = Yn dda iawn, yn uwch na'r cyfartaledd mewn sawl ffordd

3+ = Yn uwch na'r cyfartaledd mewn sawl ffordd; 3 = Yn gymwys ym mhob ffordd; 3- = Yn is na'r cyfartaledd i ryw raddau, heb ymdeimlad o bresenoldeb neu frwdfrydedd

4 = Yn llai na chymwys mewn sawl ffordd; 5 = Yn wael iawn, yn gwbl annerbyniol

### Gwrandawiadau yn y llysoedd ynadon fesul achos

**Achosion yn y llysoedd ynadon**

| | Targed | 2008-09 Ardal | Cenedlaethol | 2009-10 Ardal | Cenedlaethol |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer gyfartalog y gwrandawiadau fesul ple euog | 2.1 | 2.1 | 2.2 | 2.1 | 2.1 |
| Nifer gyfartalog y gwrandawiadau fesul achos a ymleddir | 4.0 | 3.6 | 4.4 | 3.8 | 4.0 |

### Arnodiadau ar ffeiliau

| | Ardderchog | Da | Gweddol | Gwael |
|---|---|---|---|---|
| Arnodiadau ar ffeiliau llysoedd ynadon | 0 | 9 (12.5%) | 15 (42.9%) | 11 (31.4%) |
| Arnodiadau ar ffeiliau Llys y Goron | 0 | 6 (14.6%) | 25 (61.0%) | 10 (24.4%) |
| Cofnodion CMS y llysoedd ynadon | 0 | 10 (28.6%) | 23 (65.7%) | 2 (5.7%) |
| Cofnodion CMS Llys y Goron | 0 | 12 (30.0%) | 26 (65.0%) | 2 (5.0%) |

## Pennod 5: Troseddau treisgar a rhywiol difrifol a throseddau casineb

**Canlyniadau achosion sensitif**

| Canlyniadau aflwyddiannus | Targed Cenedlaethol | 2008-09 Ardal | Cenedlaethol | 2009-10 Ardal | Cenedlaethol |
|---|---|---|---|---|---|
| Trais yn erbyn merched | 28% | 31.6% | 28.1% | 29.2% | 28.2% |
| Trais | 41% | 47.5% | 42.3% | 44.7% | 40.6% |
| Trais yn y cartref | 28% | 31.0% | 27.8% | 28.4% | 28.0% |
| Troseddau rhywiol | 28% | 30.5% | 24.9% | 27.5% | 24.0% |
| Troseddau casineb: troseddau hiliol, crefyddol, homoffobig ac anabledd wedi'u cyfuno | 18% | 20.2% | 18.0% | 16.1% | 18.1% |

## Pennod 6: Datgelu deunydd nas defnyddiwyd

Ym mis Mai 2008, cyhoeddodd HMCPSI y ddogfen 'Disclosure: a thematic review of the duties of disclosure of unused material undertaken by the CPS'. Isod ceir cymhariaeth o berfformiad yr ardal a chanfyddiadau'r adolygiad hwnnw.

| | Canfyddiadau cyffredinol yn adolygiad thematig 2008 | Perfformiad yr Ardal yn yr arolygiad hwn |
|---|---|---|
| Datgelu cychwynnol (neu sylfaenol) yr ymdriniwyd ag ef yn briodol mewn achosion yn y llysoedd ynadon | 55% | 44% |
| Datgelu parhaus (neu eilaidd) yr ymdriniwyd ag ef yn briodol mewn achosion yn y llysoedd ynadon | 81.8% | 33.3% |
| Datgelu cychwynnol (neu sylfaenol) yr ymdriniwyd ag ef yn briodol mewn achosion yn Llys y Goron | 57.5% | 69.2% |
| Datgelu parhaus (neu eilaidd) yr ymdriniwyd ag ef yn briodol mewn achosion yn Llys y Goron | 69.7% | 39.3% |
| Datgelu deunydd sensitif yr ymdriniwyd ag ef yn briodol mewn achosion yn y llysoedd ynadon | 26.7% | 50% |
| Datgelu deunydd sensitif yr ymdriniwyd ag ef yn briodol mewn achosion yn Llys y Goron | 54.5% | 66.7% |

# D Fframwaith arolygu'r Ardal

## Safonau a meini prawf

**1 Cyngor a phenderfyniadau cyn-cyhuddo**

***Safon:*** *Mae cyngor a phenderfyniadau cyn-cyhuddo o ansawdd uchel ac yn cyfrannu at well canlyniadau gwaith achos, a chânt eu darparu'n effeithlon ac mewn ffordd sy'n gydnaws ag amgylchiadau'r achos.*

**Maen Prawf 1A:** Mae ansawdd y broses o wneud penderfyniadau yn cyfrannu at wella canlyniadau gwaith achos.

**Maen Prawf 1B:** Mae'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau cyn-cyhuddo yn effeithiol ac yn effeithlon.

**2 Gwneud penderfyniadau, paratoi a datblygu mewn achosion yn y llysoedd ynadon**

***Safon:*** *Caiff achosion yn y llysoedd ynadon eu hadolygu, eu paratoi a'u rheoli hyd at safonau uchel er mwyn sicrhau bod gwrandawiadau yn effeithiol, a bod cyfran y canlyniadau llwyddiannus yn cynyddu.*

**Maen Prawf 2A:** Mae'r broses o wneud penderfyniadau o ansawdd uchel ac ymdrinnir ag achosion yn rhagweithiol er mwyn sicrhau bod blaengaredd yr erlyniad yn cael ei gynnal drwy gydol yr achos.

**Maen Prawf 2B:** Caiff achosion eu paratoi a'u datblygu'n effeithiol.

**3 Gwneud penderfyniadau, paratoi a datblygu mewn achosion yn Llys y Goron**

**Safon**: *Caiff achosion yn Llys y Goron eu hadolygu, eu paratoi a'u rheoli hyd at safonau uchel er mwyn sicrhau bod gwrandawiadau yn effeithiol, a bod cyfran y canlyniadau llwyddiannus yn cynyddu.*

**Maen Prawf 3A:** Mae'r broses o wneud penderfyniadau o ansawdd uchel ac ymdrinnir ag achosion yn rhagweithiol er mwyn sicrhau bod blaengaredd yr erlyniad yn cael ei gynnal drwy gydol yr achos.

**Maen Prawf 3B:** Caiff achosion eu paratoi a'u datblygu'n effeithiol.

**4 Erlyn achosion yn y llysoedd**

**Safon**: *Mae eiriolwyr yr erlyniad wedi'u paratoi ac yn rhagweithiol wrth erlyn achosion yn deg, yn drwyadl ac yn gadarn ac maent yn sicrhau bod achosion yn datblygu ymhob gwrandawiad.*

**Maen Prawf 4A:** Mae eiriolwyr yn chwarae rhan weithredol yn y llys i sicrhau bod achosion yn datblygu a bod gwrandawiadau yn effeithiol a bod yr eiriolaeth a'r ffordd y cyflwynir yr achos o safon uchel.

**5 Troseddau treisgar a rhywiol difrifol a throseddau casineb**

**Safon**: *Mae'r ardal yn gwneud penderfyniadau o ansawdd uchel ac yn ymdrin â throseddau treisgar a rhywiol difrifol a throseddau casineb yn effeithiol.*

**Maen Prawf 5A:** Mae'r ardal yn sicrhau yr ymdrinnir ag achosion sy'n gysylltiedig â throseddau treisgar a rhywiol difrifol a throseddau casineb hyd at safon uchel.

**6 Datgelu deunydd nas defnyddiwyd**

**Safon**: *Mae'r ardal yn cydymffurfio â dyletswyddau'r erlyniad o ran datgelu deunydd nas defnyddiwyd ac ymdrinnir â datgelu yn fanwl gywir.*

**Maen Prawf 6A:** Cydymffurfir â dyletswyddau datgelu'r erlyniad.

**7 Terfynau amser cadwraeth**
**Safon**: *Ym mhob achos, glynir wrth derfynau amser cadwraeth.*

**Maen Prawf 7A**: Mae'r ardal yn sicrhau yr ymdrinnir â phob achos â therfyn amser cadwraeth yn briodol ac y glynir wrth derfynau amser.

**8 Y gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion**
**Safon**: *Mae'r ardal yn ystyried anghenion dioddefwyr a thystion drwy gydol y broses erlyn, a rhoddir cymorth priodol ar yr adeg gywir.*

**Maen Prawf 8A**: Mae'r ardal yn sicrhau y caiff anghenion dioddefwyr a thystion eu hystyried a'u diwallu'n amserol ac yn effeithiol ac mae'r gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion yn gwella.

**9 Rheoli perfformiad er mwyn gwella**

***Safon**: Mae'r ardal yn mynd ati'n systematig i fonitro a dadansoddi perfformiad a chyflwyno adroddiadau arno, ac mae'n defnyddio gwybodaeth am berfformiad i hyrwyddo gwelliannau parhaus a llywio penderfyniadau yn y dyfodol.*

**Maen Prawf 9A**: Mae rheolwyr yn deall perfformiad ac yn atebol amdano.

**Maen Prawf 9B**: Ceir dull gweithredu effeithiol a chymesur ar gyfer rheoli perfformiad yn lleol ar lefel unigolion, tîm ac ardal.

**Maen Prawf 9C**: Mae'r ardal yn ymrwymedig i reoli perfformiad ar y cyd â phartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol.

**10 Rheoli adnoddau**
**Safon**: *Mae'r ardal yn dyrannu ac yn rheoli adnoddau er mwyn sicrhau perfformiad effeithiol a rhoi gwerth am arian.*

**Maen Prawf 10A**: Mae'r ardal yn ceisio sicrhau gwerth am arian, ac mae'n gweithredu o fewn ei chyllideb.

**Maen Prawf 10B**: Caiff pob aelod o staff yr ardal ei ddefnyddio'n effeithlon.

**11 Arweinyddiaeth, rheolaeth a gweithio mewn partneriaeth**
**Safon**: *Mae uwch reolwyr yn ymgysylltu â staff y CPS a phartneriaid yn y System Cyfiawnder Troseddol ac yn eu hysbrydoli er mwyn cyflawni amcanion yr ardal ac amcanion cenedlaethol, ac ysgogi gwelliannau mewn perfformiad a newidiadau.*

**Maen Prawf 11A**: Mae gan y tîm rheoli ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen ei gyflawni er mwyn gwireddu blaenoriaethau'r CPS a'r System Cyfiawnder Troseddol, yn seiliedig ar waith cynllunio a rheoli newid effeithiol.

**Maen Prawf 11B**: Mae'r tîm rheoli yn cyfathrebu gweledigaeth, gwerthoedd a chyfeiriad yr ardal yn dda.


**Maen Prawf 11C**: Mae uwch reolwyr yn gweithredu fel modelau rôl ar gyfer moeseg, gwerthoedd a nodau'r ardal a'r CPS, ac yn dangos ymrwymiad i bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth.

**12 Hyder y gymuned**
**Safon**: *Mae'r CPS yn ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn effeithiol gyda'r asiantaethau y mae'n cydweithio â hwy a'r cymunedau a wasanaethir ganddo.*

**Maen Prawf 12A**: Mae'r ardal yn ymrwymedig i ymgysylltu â phartneriaid a gwella lefelau gwasanaeth ar y cyd.

**Maen Prawf 12B**: Mae'r ardal yn gweithio mewn ffordd ragweithiol i ennyn hyder y gymuned.

# E Siart o'r sefydliad



# F Data perfformiad gwaith achos

*Llwyth achosion a chanlyniadau ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben 31 March 2010*

| | Nifer De Cymru | Canran | Nifer yn Cenedlaethol* | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **1 Y llysoedd ynadon - mathau o achosion** | | | | |
| Penderfyniad cyn-cyhuddo | 15,562 | 35.7 | 473,235 | 32.3 |
| Cyngor | 0 | 0 | 165 | 0.01 |
| Diannod | 15,186 | 34.8 | 565,592 | 38.7 |
| Neillffordd a ditiol | 12,896 | 29.5 | 421,057 | 28.8 |
| Gweithrediadau eraill | 7 | 0.02 | 3,302 | 0.2 |
| **Cyfanswm** | **43,651** | **100** | **1,463,351** | **100** |
| **2 Y llysoedd ynadon - achosion wedi'u cwblhau** | | | | |
| Dirwyn i ben ac achosion o rwymo | 2,549 | 10.3 | 78,901 | 9.0 |
| Gwarantau | 437 | 1.8 | 12,138 | 1.4 |
| Gwrthodwyd a dim achos i'w ateb | 17 | 0.1 | 1,605 | 0.2 |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 449 | 1.8 | 20,322 | 2.3 |
| Rhyddhawyd | 175 | 0.7 | 2,252 | 0.3 |
| **Cyfanswm y canlyniadau aflwyddiannus** | **3,627** | **14.7** | **115,218** | **13.2** |
| Collfarnau | 21,087 | 85.3 | 757,349 | 86.8 |
| **Cyfanswm** | **24,714** | **100** | **872,567** | **100** |
| *Traddodwyd i sefyll prawf yn Llys y Goron* | | | | |
| **3 Y llysoedd ynadon - canlyniadau achosion** | | | | |
| Pleon euog | 17,373 | 80.6 | 589,789 | 75.7 |
| Prawf mewn absenoldeb | 2,901 | 13.5 | 133,844 | 17.2 |
| Collfarnau ar ôl treial | 813 | 3.8 | 33,716 | 4.3 |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 449 | 2.1 | 20,322 | 2.6 |
| Rhyddfarnau: dim achos i'w ateb | 17 | 0.1 | 1,605 | 0.2 |
| **Cyfanswm** | **21,553** | **100** | **779,276** | **100** |
| **4 Llys y Goron - mathau o achosion** | | | | |
| Ditiol yn unig | 1,222 | 26.5 | 40,651 | 28.4 |
| Neillffordd: dewis yr amddiffyniad | 107 | 2.3 | 9,170 | 6.4 |
| Neillffordd: cyfarwyddyd yr ynadon | 2,063 | 44.8 | 59,729 | 41.7 |
| Diannod: apeliadau; traddodi i ddedfryd | 1,212 | 26.4 | 33,646 | 23.5 |
| **Cyfanswm** | **4,604** | **100** | **143,196** | **100** |
| **5 Llys y Goron - achosion wedi'u cwblhau** | | | | |
| Rhyddfarnau ac achosion o rwymo dan orchymyn barnwr | 370 | 10.9 | 12,814 | 11.7 |
| Gwarantau | 31 | 0.9 | 1,113 | 1.0 |
| Rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr | 19 | 0.6 | 1,041 | 1.0 |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 199 | 5.9 | 6,288 | 5.7 |
| **Cyfanswm y canlyniadau aflwyddiannus** | **619** | **18.2** | **21,256** | **19.4** |
| Collfarnau | 2,773 | 81.8 | 88,289 | 80.6 |
| **Cyfanswm** | **3,392** | **100** | **109,545** | **100** |
| **6 Llys y Goron - canlyniadau achosion** | | | | |
| Pleon euog | 2,625 | 87.8 | 80,499 | 84.2 |
| Collfarnau ar ôl treial | 148 | 4.9 | 7,790 | 8.1 |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 199 | 6.7 | 6,288 | 6.6 |
| Rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr | 19 | 0.6 | 1,041 | 1.1 |
| **Cyfanswm** | **2,991** | **100** | **95,618** | **100** |

* Y 42 o ardaloedd a CPS Direct.

# G Adnoddau a llwyth achosion

| Llwyth achos yr ardal/staffio CPS De Cymru | Ebrill 2010 | Ionawr 2004 |
|---|---|---|
| Staff mewn swydd | 198.4 | 201.4 |
| Cyfreithwyr mewn swydd (ac eithrio CCP) | 74.0 | 71.2 |
| Penderfyniadau/cyngor cyn-cyhuddo fesul cyfreithiwr (ac eithrio CCP) | 210.2 | 35.2 |
| Erlynwyr cyswllt mewn swydd | 14.8 | 9.0 |
| Achosion yn y llysoedd ynadon fesul cyfreithiwr ac erlynydd cyswllt (ac eithrio CCP) | 316.3 | 596.8 |
| Treialon a ymleddir yn y llysoedd ynadon fesul cyfreithiwr (ac eithrio CCP) | 17.2 | 25.8 |
| Achosion o draddodi i sefyll prawf ac achosion a anfonwyd fesul cyfreithiwr (ac eithrio CCP) | 45.4 | 36.1 |
| Treialon a ymleddir yn Llys y Goron fesul cyfreithiwr (ac eithrio CCP) | 5.0 | 7.1 |
| Gweithwyr achos Lefel B1, B2 a B3 mewn swydd (ac eithrio erlynwyr cyswllt) | 43.6 | 52.3 |
| Achosion o draddodi i sefyll prawf ac achosion a anfonwyd fesul gweithiwr achos lefel B | 80.3 | 49.2 |
| Treialon a ymleddir yn Llys y Goron fesul gweithiwr achos lefel B | 8.5 | 9.6 |
| Staff Lefel A1/2 mewn swydd | 63.0 | 74.4 |
| Achosion fesul aelod o staff lefel A | 703.5 | 676.4 |
| Costau rhedeg (heb eu neilltuo) | £10,077,799 | £7,341,500 |

NODER: Mae data llwyth achosion yn nodi ffigur blynyddol ar gyfer pob aelod perthnasol o staff. Caiff achosion yn Llys y Goron eu cyfrif o fewn cyfanswm yr achosion yn y llysoedd ynadon. Lle y cynghorir y dylid dechrau gweithrediadau, caiff yr achos hwnnw ei gynnwys hefyd fel achos diannod/neillffordd/ditiadwy yn yr ystadegau yn ymwneud â'r llysoedd ynadon neu Lys y Goron fel y bo'n briodol.

# H Cyfanswm nifer y ffeiliau a archwiliwyd ar gyfer CPS De Cymru

| Ffeiliau a gwblhawyd | Nifer y ffeiliau a archwiliwyd |
|---|---|
| **Achosion yn y llysoedd ynadon (gan gynnwys achosion ieuenctid)** | |
| *Llysoedd ynadon (yn ddarostyngedig i PCD)* | *29* |
| Pledion euog | 11 |
| Collfarnau ar ôl treial | 7 |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 3 |
| Terfynwyd | 7 |
| Dim achos i'w ateb | 1 |
| Traddodebau a ryddhawyd[7] | 15[7] |
| *Llysoedd ynadon (dim PCD)* | *8* |
| Ple euog | 0 |
| Collfarnau ar ôl treial | 1 |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 3 |
| Terfynwyd | 4 |
| Dim achos i'w ateb | 0 |
| | **37** |
| **Llys y Goron** | |
| Pledion euog | 14 |
| Rhyddfarnau dan orchymyn barnwr | 13 |
| Rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr | 4 |
| Collfarnau ar ôl treial | 5[8] |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 7 |
| | **43** |
| **Cyfansw** | **80** |

7 Ystyriwyd traddodebau a ryddhawyd gan y tîm arolygu fel rhan o'r arolygiad ar y safle, ond nid ydynt wedi'u cynnwys yng nghanlyniadau'r archwiliad o'r ffeiliau, oherwydd byddai hyn wedi anghytbwyso'r broses o ddewis ffeiliau a bod yn annheg i'r ardal.

8 Mae'r ffigur hwn yn cynnwys un achos yr ymdriniodd yr Uned Gwaith Achos Cymhleth ag ef ac, felly, nid yw wedi'i gynnwys yng nghanlyniadau archwiliad o ffeiliau'r ardal. Aseswyd yr ardal ar y canlyniadau a gyflawnwyd mewn 42 o achosion yn Llys y Goron.

# I Cynrychiolwyr lleol o asiantaethau a sefydliadau cyfiawnder troseddol a fu o gymorth yn ystod ein harolygiad

**Llys y Goron**

Ei Anrhydedd y Barnwr Cooke CF,
Cofiadur Caerdydd, Llys y Goron Caerdydd

Ei Anrhydedd y Barnwr Diehl CF,
Cofiadur Abertawe, Llys y Goron

Ei Anrhydedd y Barnwr Curran, Barnwr Preswyl,
Llys Gyfunol Merthyr Tudful

Ei Anrhydedd y Barnwr Hopkins CF,
Llys y Goron Caerdydd

Ei Anrhydedd y Barnwr Wynn Morgan,
Llys y Goron Caerdydd

Mr H Evans, Rheolwr y Llys,
Llys Gyfunol Merthyr Tudful

Mrs L Mills, Pennaeth Gweithrediadau,
Llys y Goron Caerdydd

Mrs L Vincent, Rheolwr Llys y Goron,
Llys y Goron Abertawe

Ms M Loonan, Llys Gyfunol Merthyr Tudful

Ms L Stinchcombe, Llys y Goron Abertawe

Mr A Morris, Llys y Goron Abertawe

**Llysoedd ynadon**

Barnwr Rhanbarth Charles, Caerdydd

Barnwr Rhanbarth Williams, Caerdydd

Mr J Hehir, Clerc yr Ynadon

Mr T Dodson, Dirprwy Glerc yr Ynadon, Y Barri

Mr J Lewis, Dirprwy Glerc yr Ynadon, Caerdydd

Mr D Richmond, Dirprwy Glerc yr Ynadon, Caerdydd

Mr M Morgan YH, Cadeirydd y Fainc, Pontypridd

Mr J Roberts YH, Cadeirydd y Fainc, Caerdydd

Mr D Taylor YH, Cadeirydd y Fainc, Y Barri

Mr A Thomas YH, Cadeirydd y Fainc, Merthyr Tudful

Mr C H Thomas YH, Cadeirydd y Fainc,
Pen-y-bont ar Ogwr

Mrs E Williams YH, Cadeirydd y Fainc, Abertawe

Mr M Philips, Merthyr Tudful

Rev N Lea

Mr H Davies JP

Ms J Mallinson JP

**Yr Heddlu**

Mr P Vaughan, Prif Gwnstabl

Mrs B Ranger, Cyfarwyddwr Cynorthwyol

Mr J Cooksley, Pennaeth yr Uned Polisi a
Strategaeth Adran Cyfiawnder Troseddol

Uwcharolygydd D Hubbard

Uwcharolygydd R Tooby

Prif Arolygydd I Bellshaw

Prif Arolygydd R Bignell

Arolygydd J Diffey

Arolygydd G Evans

Arolygydd B Heard

Arolygydd T Newman

Ms L Ashby, Rheolwr WCU Caerdydd

Mr A Roberts, WCU Merthyr Tudful

**Heddlu Trafnidiaeth Prydain**

Ditectif Ringyll D Goddard

**Cyfreithiwr yr Amddiffyniad**

Mr D James, Graham Evans & Partners

**Cymorth i Ddioddefwyr**

Mrs B Logan, Rheolwr Gofal Tystion a Chymorth
i Ddioddefwyr

Ms S Moore, Cydgysylltydd Gofal Tystion

Ms L Roberts, Cydgysylltydd Gofal Tystion

Ms S Singer, Cydgysylltydd Gofal Tystion

Ms J Wilkinson, Cydgysylltydd Gofal Tystion

**Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol**

Ms S Hale, Caerdydd

Ms R Hammonds, Caerdydd

Ms L Jones MBE, Merthyr Tudful

**Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru**

Ms K Shore

**Timau Troseddau Ieuenctid Aelodau Seneddol**

Mrs M Moon AS, Pen-y-bont ar Ogwr

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ms J Randerson

**Os gofynnwch i ni, gallwn ddarparu crynodeb neu fersiwn cyflawn o'r llyfryn hwn mewn Braille, print bras neu mewn ieithoedd eraill.**

**I gael gwybodaeth neu i gael mwy o gopïau o'r llyfryn hwn, cysylltwch â'n Tîm Cyhoeddiadau ar 020 7210 1197, neu ewch i'n gwefan: www.hmcpsi.gov.uk**

Rhif Cyhoeddiad CP001:1047

Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM
Swyddfa Llundain:
26 – 28 Old Queen Street
London SW1H 9HP
Ffôn: 020 7210 1197
Ffacs: 020 7210 1186

Swyddfa Caerefrog:
United House, Piccadilly
York, North Yorkshire, YO1 9PQ
Ffôn: 01904 54 5490
Ffacs: 01904 54 5492

©Hawlfraint y Goron 2010

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/
neu ysgrifennwch at
Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu
e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn hefyd ar gael ar ein gwefan yn www.hmcpsi.gov.uk